# Y DRYSORFA.

Rhif. 721.] TACHWEDD, 1890. [Llyfr LX.

## DIFYRION A CHWAREUYDDIAETHAU.

GAN Y PARCH. WILLIAM WILLIAMS, ABERTAWE.

A oes rhywun a ŵyr pa nifer sydd yn coleddu yr un syniadau am y pethau uchod heddyw ag a goleddent ugain mlynedd yn ol? Pe gofynid y cwestiwn i mi, byddai raid i mi ateb nad wyf yn gwybod ond am ychydig, ac ychydig iawn. Y mae dull y byd hwn yn myned heibio, ac mewn nid ychydig o bethau y mae dull yr Eglwys yn y byd yn myned heibio hefyd. Yn yr Eglwys y mae cyfnewidiad yn dilyn cyfnewidiad gyda chyflymdra aruthrol. Bu amser, a hwnw heb fod ymhell yn ol, pan nad oddefai, nid yn unig dysgyblaeth eglwysig, ond hefyd llais y wlad, i neb a broffesent dduwioldeb i ymyraeth â'r bêl droed, na'r bêl law, na *croquet*, na *cricket*, na *bagatelle*, na *billiards*, na *quoits*, na *skittles*, na chymeryd rhan mewn dawns, na myned i chwareudŷ. Byddai ambell ddyn da, pan i fyny yn Llundain, yn ymweled unwaith â'r chwareudŷ er mwyn gwybod i ba beth yr oedd yn debyg, ond elai gyda gochelgarwch mawr. Tra yno, teimlai megys yn eistedd ar ddrain, ac ar ddiwedd y cyflawniad llithrai i'w lettŷ gan deimlo fel pe buasai wedi ei ddal o dan gangenau y pren gwaharddedig. Ond bellach y mae hyn oll wedi newid. Y mae deddfau a fuont unwaith yn rhwymo yr holl frawdoliaeth gyda thyndra mawr wedi myned i fethu a rhwymo neb, mwy na phe byddent yn garth golosgedig. Yr wyf yn gobeithio bod y rhai ydynt yn proffesu duwioldeb yn llawer gwell na'r rhai nad ydynt "yn nirgel ddyn y galon;" ond yn yr hyn a welir, ac yn enwedigol gyda golwg ar ymddifyru a chwareu, y mae y gwahaniaeth wedi myned yn beth bychan iawn. Prin y gellir enwi lle o ddifyrwch nad oes rhai o honynt yn arfer myned iddo, na math o chwareuyddiaeth nad oes rhai o honynt hwy yn cymeryd eu rhan ynddo. Y mae llaweroedd o honynt wedi myned yn annheimladwy i rym y gwaharddiad, "Na chydymffurfiwch â'r byd hwn," ac wedi rhoddi heibio ddyfod allan o blith y rhai annuwiol ac ymddidoli.

Y mae yn Nghylchlythyrau ein Cymdeithasfaoedd benderfyniadau yn gwahardd cyrddau tê, cyngherddau yn y capeli, a *Bazaars*, a phethau cyffelyb mewn cysylltiad âg achos Crist. Bernid y dylasai arian a gesglid at gynnorthwyo crefydd fod yn ffrwyth teimlad crefyddol, ac ofnid y byddai i lwybrau eraill i sicrhau yr adnoddau anghenrheidiol fagu ysbryd, ac arwain i ymddygiadau annheilwng o urddas efengyl Crist. Ond pa le y mae y penderfyniadau hyny yn awr? Nid oes neb yn meddwl am danynt mwy na phe buasent, fel crystyn pastai, wedi eu gwneuthur o bwrpas i'w tori. Os gellir casglu swm o arian, nid oes ond ychydig yn gofalu trwy ba lwybrau. Canmolir "ffrwythlondeb yr Eglwys," er fod y "ffrwyth" wedi ei grynhoi yn nghanol cymaint o grech-

wen cnawdol ag y dygir yn y blaen weithrediadau y chwareudŷ, ond yn unig bod ambell bwt o adnod a darn o hymn yn cael eu dwyn i mewn o bryd i bryd i sancteiddio y digrif-eiriau gweigion a'r banllefau o chwerthin. Fe ddichon y beïr arnaf am hysbysu hyn yn Gath, a'i gyhoeddi yn heolydd Ascelon, ond y mae pawb yn Gath ac Ascelon yn gwybod yr holl hanes. Oni chyhoeddir y pethau hyn yn y papyrau, ac o dan y penawd "Hanesion crefyddol?" Oni ddywedir pwy a ganai, a phwy a areithiai, a pha mor ysblenydd o dalentog y gwneid y naill a'r llall, ac i bwy y perthyn y clod am y trefniadau doethion a'r llwyddiant mawr? Yr wyf yn addef y gallwn fod o dan brofedigaeth i ymattal rhag dywedyd yr holl wirionedd am danom ein hunain ac am ein gilydd, rhag i rai gymeryd mantais annheg ar ein cwynion a'n haddefiadau. Prin y gellir nodi na diffyg na bai mewn Cymanfa na Chyfarfod Misol na bydd rhai o'r papyrau "Eglwysig" yn cymeryd hyny i fyny i ddangos fel yr ydym "yn myned i lawr;" ac nid yw yr holl esgobion wedi profi eu hunain uwchlaw cymeryd mantais ar y cyfryw gwynion i ddyrchafu yr Eglwys, ac i wneuthur y peth arall ı ninnau. Ond hyderaf i bydd i synwyr da ein cyfeillion Eglwysig eu hattal rhag gwneuthur y fath ddefnydd o'r pethau yr wyf fi yn eu hysgrifenu; oblegid os oes un Enwad yn ddyfnach nag eraill yn y camwedd yr wyf yn son am dano, beiddiaf ddywedyd mai yr Enwad hwnw yw yr Eglwys Sefydledig. Y mae pethau yn cael eu dwyn i mewn i'w cynnulliadau crefyddol i bobl ieuainc, nad ydynt hyd yn hyn wedi ffeindio eu ffordd i eiddo yr Ymneilldduwyr; ac eto, fel y mae pethau yn myned yn y blaen, yr wyf yn ofni eu bod *yn dyfod*.

Y mae gwahaniaeth dirfawr, gan hyny, rhwng yr hyn a fu gynt a'r hyn sydd yn awr. Pa un o'r ddau yw y nesaf at yr hyn a ddylai fod? Y mae rhai, hyd yn nod y dydd heddyw, yn barnu mai gwell oedd yr hen; ond yr wyf wedi gweled hyny drosodd a throsodd yn cael ei briodoli i'w hanwybodaeth. Honir mai gwybodaeth eangach pobl y dyddiau hyn sydd wedi eu galluogi i ddryllio y rhwymau, a thaflu oddiwrthynt y rheffynau a gadwent bobl y dyddiau gynt mewn caethiwed ac ofn. Fe ddichon bod rhywbeth yn hyny, ac eto nis gall un lai na theimlo mai gresyn yw na buasai eu gwybodaeth eang wedi esgor ar ddarganfyddiadau mwy bendithiol i fyd ac eglwys. Pan yr addefir fod pethau wedi myned yn rhy bell, lled esgusodir hyny trwy ddywedyd nad yw y rhyddid presennol yn ddim ond gwrthweithiad yn erbyn culni gormodol y dyddiau gynt. Os yw hyny yn bod, goddefer i mi i ofyn, onid oes perygl i'r *gwrth*weithiad fyned ymhellach oddiar y ffordd, a gwneuthur mwy o ddrwg na'r gweithiad ei hun? Y mae dynion yn fynych wrth ddianc rhag drygau wedi syrthio i ganol drygau mwy, fel y mae llawer llong wrth ysgoi y trobwll wedi rhuthro yn erbyn dannedd y graig. Ac yma y mae y perygl yn fwy, gan nad yw pobl yn gallu barnu yn hollol ddiduedd. Pan byddo dyn yn hoffi un peth yn fwy na pheth arall, nid yw yn gymhwys i farnu rhyngddynt. Y mae rhyddid y dyddiau hyn yn fwy cydweddol â thueddiadau pobl na chaethiwed y dyddiau gynt, a chan hyny y mae perygl i'r gwrthweithiad yn erbyn yr olaf fyned yn fwy nerthol nag sydd yn gyson â'n diogelwch ac â'n buddianau mwyaf pwysig; ac wrth ddilyn eu tueddiadau, ac anghofio eu dyledswyddau, y mae dynion yn holl oesau y byd wedi tynu arnynt eu hunain drychinebau annhraethadwy.

Y mae yn rhydd i blant chwareu. Pan oedd Jerusalem yn ymyl dinystr addawyd iddi adferiad drachefn, a dywedwyd fod yr amser yn dyfod pan

y byddai heolydd y ddinas yn llawn o fechgyn a merched yn chwareu yn ei heolydd hi. Ond pa bryd y mae pobl yn peidio a bod yn blant? Os mai pan y rhoddant heibio chwareu, y mae llaweroedd yn aros yn eu cyflwr o blentyndod nes y byddont wedi dechreu penllwydo. Y mae yr ymadrodd "Yr oes oleuedig hon" yn un sydd mewn arferiad beunyddiol, ond yr wyf yn gofyn caniatâd i awgrymu tipyn o ychwanegiad ato, fel ag i ddynodi yr amser yn yr hwn yr ydym yn byw fel yr "oes oleuedig a chwareugar hon." Yr wyf yn ddigon hen i gofio blynyddoedd lawer, ond ni welais erioed gymaint o chwareu ag sydd gan ddynion o bob oed, ac o bob math, ac o bob dosbarth, ag yn y blynyddoedd hyn.

Can belled ag y gwn I, y bêl droed sydd yn awr yn ei thymmor yn cymeryd i fyny fwyaf o sylw y wlad, ac yn tynu mwyaf o bobl ar ei hol, a phan ddelo y llinellau hyn o flaen darllenwyr y Drysorfa, bydd y tymmor hwnw ar ddechreu, os na fydd wedi dechreu eisoes. Y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am y dyddordeb angherddol a gymerir yn y peth yma, ond felly mae yn bod. Pan fyddo dau glwb yn cyfarfod â'u gilydd mewn tref fawr, megys Abertawe neu Gaerdydd, y mae yr holl le mewn cyffro. Daw pobl yno wrth y miloedd gyda rheilffyrdd o bob cyfeiriad, tra y mae pobl y lle o holl heolydd, ac ystrydoedd, a chynteddau y dref, yn wŷr, ac yn wragedd, ac yn blant, yn hen bobl a rhai yn sugno, rhai mewn gwisgoedd gwychion, a rhai heb braidd wisg yn y byd, yn ymarllwys tua'r fan. Y mae miloedd yn talu am fyned i mewn i'r cae, tra y mae y rhai nad oes ganddynt ddim i dalu yn gorfod ymdaro fel y gallont, gan ddringo cloddiau a magwyrydd, a phob lle uchel o fewn golwg, a gwthio a gwasgu eu gilydd, ac edrych â'u holl lygaid i weled deg ar hugain o bobl yn cicio. Fe allai nad oes un chwareuyddiaeth arall gyda pha un y mae dynion yn colli pob llywodraeth arnynt eu hunain i'r un graddau ag y maent yn hwn. Yr wyf wedi eu gweled o bryd i bryd heb fyned i'r cae, nac i ben y clawdd. Y gwirionedd yw, nis gallwn lai na'u gweled os edrychwn trwy ffenestr fy ystafell. Nid wyf yn ddysgedig yn neddfau na rheolau y chwareuyddiaeth, ond yr wyf yn deall mai cicio y mae yn cael ei alw, ac yn deall hefyd fod rhyw bethau heblaw hyny yn cael eu gwneuthur. Y mae rhywun yn ceisio cymeryd i fyny y bêl yn ei ddwylaw, un arall yn ei wthio i'r llawr ac yn syrthio arno, arall yn syrthio ar hwnw, ac arall ar hwnw, ac felly yn y blaen, neu yn hytrach, ac felly tuag i fyny, nes bod yno bentwr o fodau deallawl, yn gwingo ac yn gwasgu, yn tynu ac yn taeru. Ymhen ychydig y mae un yn neidio i fyny a'r bêl yn ei feddiant, ac yn rhedeg â hi o dan ei gesail tua'r nod; ond y mae eraill yn rhedeg ar ei ol, ac yn ei dripio, ac yn y man dyna bentwr arall o fodau deallawl yn myned trwy yr un cyflawniadau ag o'r blaen. Y mae yn anhawdd gwybod pa beth sydd yn hyn oll i gynhyrfu tref, ac i gasglu tyrfaoedd at eu gilydd, a'r cwbl a allaf fi ei ddywedyd yw, mai dyna y dwymyn sydd yn awr yn ymdaenu dros yr holl wlad, a dyna rai o'i dadblygiadau.

Ac nid yw yn hollol ddiberygl i "fywyd ac aelod." Yn y cyfryw ysgarmesau yr wyf wedi cyfeirio atynt, y mae llawer yn derbyn niweidiau trymion, a rhai yn colli eu bywydau. Nid yw y bobl ieuainc yn bwriadu niweidio eu gilydd, ond y maent yn gwneuthur hyny heb ystyried, na gwybod, na meddwl. Dyna B. yn cael ei gludo o'r maes wedi ei anafu yn dost yn mhoethder yr ysgarmes gan wŷr ieuanc crefyddol o'r enw D. Gwaith anhawdd yw perswadio B. i gredu fod yr hwn sydd wedi bod mor ddidrugaredd wrth ei gorff yn prisio dim am ei enaid, na'i fod yn prisio

llawer am ei enaid ei hun; a'r gwirionedd yw, nad ydoedd, ar y pryd, yn prisio am neb na dim mewn bod, ond ennill y gamp. Y mae y rhan amlaf o lawer o bobl ieuainc ein gwlad yn ddigrefydd. Nid oes genym un llywodraeth, ac, fel y mae yn ofidus gorfod cyfaddef, ond ychydig o ddylanwad arnynt hwy. Pa beth bynag a wnawn neu a ddywedwn, eu ffordd eu hunain a fynant, a thyna y ffordd y maent yn ei mynu ar hyn o bryd. Dywedir fod y pethau hyn yn eu cadw rhag rhai gwaeth, a gofynir, "Onid yw yn well bod dynion ieuainc yn mwynhau eu hunain ar hyd y meusydd, na phe byddent yn ymgasglu i'r tafarndai ac i'r lleoedd eraill, am y rhai y dywedir yn ngair y gwirionedd eu bod yn byrth uffern, ac yn disgyn i ystafelloedd angeu?" Fy atebiad i hyn yw, ei fod yn well, yn llawer gwell—yn well tu hwnt i bob desgrifiad. Os yw campau yn cadw dynion rhag anfoesoldeb, y maent nid yn unig yn bethau diniwed, ond hefyd yn bethau gwir ddaionus.

Ond y mae yn iawn gofyn, A yw y pethau hyn felly? A yw yn wirionedd fod campau yn attalfa ar anfoesoldeb? Y mae yn cael ei haeru a'i haeru drachefn, ond a ellir dwyn ger bron ffeithiau digonol i'w brofi? Y mae yn beth nas gellir ei ammheu fod llawer o chwareuwyr yn ddynion anfoesol. Y maent o dan lywodraeth blys at "y pethau gwaeth," ac yn brysio i foddloni y blys hwnw pan ddychwelant oddiar y "meusydd." O'r tu arall, y mae yn dda genyf wybod fod llawer o chwareuwyr yn ddynion ieuainc bucheddol, ac y mae genyf farn ddigon uchel am danynt hwy i gredu nad elent byth ar ol y "pethau gwaeth" pe na byddai y campau mewn bod. Nis gall fod yn beth diberygl i'r olaf i ymgymysgu â'r cyntaf, a chanmoliaeth dlawd i unrhyw beth yw dywedyd ei fod yn well na gwaeth. Y mae yn ammheus iawn fod y chwareuyddiaethau yn attal neb rhag "pethau gwaeth," tra y mae sicrwydd diammheuol eu bod yn cadw llaweroedd rhag ceisio pethau gwell.

Y mae nifer lïosog o'n pobl ieuainc yn proffesu crefydd, ac yr wyf yn gobeithio eu bod yn wir grefyddol. Ni ddigia neb o honynt hwy wrthyf am ddeisyf arnynt yn daer i feddwl yn gyntaf ac yn benaf oll am eu crefydd. Y mae yn rhaid iddynt gael difyrwch, ac nid wyf fi yn anfoddlawn, ac nis gallaf gredu fod eu Harglwydd yn anfoddlawn iddynt ei gymeryd; ond y mae o bwys annhraethol iddynt i ofalu na chaffo difyrwch ormesu ar eu crefydd, oblegid y mae y cyfryw ddifyrwch bob amser yn cael ei bwrcasu yn annhraethol rhy ddrud.

Y mae llawer o flynyddoedd wedi myned heibio oddiar pan oeddwn yn ieuanc fy hun, ond yr wyf yn cofio hyny yn dda, cystal a phe buasai yr wythnos ddiweddaf. Perthynwn i genedlaeth ag oedd yn byw o dan oruchwyliaeth y gwaharddiadau. Ni oddefid i ni—nid y "ni" olygyddol yr wyf yn ei feddwl—am danaf fy hun a'm cyfoedion yr wyf yn son—ni oddefid i ni i gymeryd rhan mewn un math o chwareuyddiaeth. Pe clywid fod un o honom wedi bod yn chwareu y bêl, neu yn edrych ar eraill yn ei chwareu, byddai yn bryd iddo edrych allan am storm. Ond nid oedd perygl i neb glywed dim o'r fath, oblegid nid oedd ynom yr un duedd i ymwneyd dim â'r cyfryw bethau. Ond na feddylied neb fod ein bywyd yn annedwydd. Yr oedd genym ninnau ein difyrion, ac yr oeddynt yn felus odiaeth. Dysgu ac adrodd pennodau, dysgu ac adrodd y pwnc, ymgasglu i'r cyfarfodydd ysgolion, a gwrando pregethau. Ië, dyma oedd yn coroni y cwbl, gwrando pregethau. Byddai pregethwyr yn dyfod heibio o'r Gogledd ac o'r De, a byddem ninnau yn myned yn finteioedd i'w gwrando, a mawr oedd y mwynhad. Aeth rhai o

honom adref yn ieuainc, ond bu eraill fyw yn ddigon hir i ddeall nad oedd llawer o honynt yn bregethau mawrion, ond i ni ar y pryd yr oeddynt yn ardderchog, ac y mae y cof am danynt yn hyfryd yn awr. Prin y mae anghen am i mi ddyweyd fod hyny yn fwy nag y bydd yr hwn a gyflawnodd y gorchestwaith mwyaf yn y chwareufa ddiweddaf yn abl i'w ddyweyd hanner can' mlynedd i heddyw am ei holl anrhydedd a'i bleserau.

Y mae yr awydd am chwareu sydd wedi cymeryd meddiant mor nerthol a chyffredinol ar ein gwlad yn bwysig, nid yn unig am yr hyn yw, ond hefyd am yr hyn y mae yn ei arwyddo. Y mae yr arferion a ffynant yn ddangoseg o'r ysbryd sydd yn teyrnasu. Pe byddem fel Cyfundebau crefyddol yn llawer mwy o dan ddylanwad ysbryd crefydd, ni byddai eisieu dyweyd dim wrthym am ddifyrion a chwareuyddiaethau. Y mae yr amser wedi dyfod pan nad yw rheolau a phenderfyniadau yn rhwymo neb ond can belled ag y rhwymir ef gan ei gydwybod ei hun, ac O mor dda genyf fyddai gallu cyffwrdd â chydwybodau ein brodyr ieuainc a hoff sydd yn ymollwng yn fwy nag y ddylent gyda'r gorlif presennol. Caniataer i mi i ddeisyfu arnynt i ystyried a meddwl, i feddwl am danynt eu hunain, ac am eu crefydd, am eu llesâd presennol a'u defnyddioldeb yn yr amser a ddaw, ac am anrhydedd a llwyddiant y deyrnas ogoneddus i ba un y perthynant. Gofynant iddynt eu hunain, a yw yn iawn iddynt dreulio cymaint o amser ar ddifyrwch a chan lleied i sicrhau gwir adeiladaeth? A yw yn iawn iddynt adael i'w pleserau gostio cymaint o arian, a chrefydd gostio can lleied? A yw yn iawn iddynt roddi mor haelionus wrth borth y cae chwareu, ac i gadw i fyny y clwb, tra y maent yn rhoddi y peth nesaf i ddim at achos y Gwaredwr, yr Hwn y maent yn proffesu eu bod yn ei garu â'u holl galon ac â'u holl enaid? A yw yn iawn iddynt ddyfeisio a llafurio i ysgoi colli un *game*, tra nad ydynt yn gofalu dim am golli hanner blwyddyn o gyfarfodydd gweddïau, a chyfarfodydd eglwysig? Gofynant iddynt eu hunain y cwestiynau hyn, ac os meddyliant tra fyddant yn eu gofyn, yr wyf yn ymddiried i'w cydwybodau hwy eu hunain am yr atebion.

Nid amser i chwareu yw yr amser presennol. Yr ydym wedi dyfod ar amseroedd enbyd. Y mae y dosbarthiadau yn cyfodi yn erbyn eu gilydd, ac yn ymddangos fel pe byddent yn penderfynu llindagu y naill y llall. Y mae sect wedi cyfodi, ac yn cynnyddu yn gyflym, yr hon nad yw yn gwneuthur un dirgelwch o'i hamcan i ddinystrio holl seiliau cymdeithas. Y mae mwy fwy o bobl yn myned yn rhy ddoethion i gredu yr hen athrawiaethau, ac yn rhy fydol a difater i rodio yn yr hen lwybrau. Y mae llawer o bethau yn dangos fod brwydr ddifrifol gerllaw. Tebyg y byddaf fi wedi myned oddiar y ffordd cyn y delo, ond caiff llawer o fy mrodyr ieuainc y rhai yr wyf yn eu hanerch weled a theimlo ei phoethder ofnadwy; ac wrth derfynu, cymeraf y rhyddid i ddyweyd wrthynt mai darpariaeth dlawd erbyn dydd y rhyfel yw *difyrion* a *chwareuyddiaethau*.

---

## CUR DEUS HOMO? NEU, PAHAM YR YMDDANGOSOD DUW YN Y CNAWD?

*Gan* ANSELM.

### PENNOD III.

### *Gwrthddadleuon Anghredinwyr ac Atebion Credinwyr.*

*Boso.* Gwrthwyneba anghredinwyr ni, trwy wawdio ein symledd, gan ddyweyd ein bod yn gwneuthur cam, ac yn rhoddi dianrhydedd ar Dduw, pan yr honwn iddo ef ymddarostwng i fru y wyryf, a'i fod wedi ei eni o wraig, ac wedi cynnyddu trwy gael ei faethu â llaeth ac ymborth dynol, ac,

i adael heibio lawer o bethau eraill a ymddangosant yn annheilwng o Dduw, ei fod wedi ymostwng i wendid, i newyn, i syched, i fflangellau, ac i farwolaeth y groes rhwng lladron.

*Anselm.* Nid ydym ni yn gwneuthur cam, nac yn rhoddi dianrhydedd ar Dduw, ond yr ydym â'n holl galon yn diolch iddo, yn ei foliannu, ac yn mynegi annhraethol fawredd ei drugaredd, am iddo mor ryfeddol, a thu hwnt i'n hamgyffred, ein gwaredu o afael bendithion anhaeddiannol mor fawr y rhai a gollasom, a thrwy hyny amlygu mwy o gariad a daioni tuag atom. A phe yr ystyriai ein gwrthwynebwyr yn deilwng, mor briodol ydyw i adferiad dyn fod fel hyn, ni wawdient ein symledd, ond cydganmolent ddoeth ddaioni Duw gyda ni. O herwydd y mae yn weddus, gan fod marwolaeth wedi dyfod i ran dynolryw trwy anufudd-dod dyn. Ac yn gymaint ag i bechod, yr hwn oedd achos ein condemniad, ddyfod i mewn trwy wraig, felly y mae yn weddus i awdwr ein cyfiawnder a'n hiachawdwriaeth gael ei eni o wraig. Ac yn gymaint ag i'r diafol orchfygu dyn, yr hwn a hudodd i archwaethu ffrwyth pren, felly ei fod trwy y dyoddefaint ar bren, yr hyn a ddygodd oddiamgylch, i gael ei orchfygu gan ddyn. Y mae llawer o bethau eraill wrth eu hystyried yn ofalus, a ddangosant mor annhraethol ogoneddus ydyw ein hiachawdwriaeth a ddygwyd oddiamgylch yn y drefn hon.

PENNOD IV.

*Fod yr atebion hyn yn ymddangos i anghredinwyr yn annigonol, ac yn unig fel darluniau.*

*Boso.* Gellir cydnabod y pethau hyn oll fel yn brydferth, ac eto, yn unig fel darluniau. Ond os nad oes rhywbeth cadarn iddynt orphwys arno, nid ymddangosant i anghredinwyr yn rhesymau digonol, paham, fel y dylem gredu, y darfu i Dduw ewyllysio dyoddef y pethau a ddywedwn iddo wneyd. O herwydd pan y mae unrhyw un yn ewyllysio gwneyd darlun, dewisa rhyw sylwedd caled ar ba un y paentia, fel yr aroso yr hyn a baentia. Canys nid oes neb yn paentio ar ddwfr, neu ar awyr, o herwydd ni bydd dim o ôl y darlun yn aros yno. Gan hyny, pan y dangoswn i anghredinwyr y cyd-darawiadau a ddywedwch chwi fel pe buasent yn ddarluniau o bethau sylweddol, gan y tybiant hwy nad oes y fath beth, ond mai ffug yw yr hyn a gredwn, ystyrient ni fel pe baem yn paentio ar gwmwl.

Gan hyny, y mae yn anghenrheidiol i ni yn gyntaf oll ddangos sylfaen resymol i'r gwirionedd, hyny yw, rhyw anghenrheidrwydd, yr hyn a brofa ei fod yn iawn, ac yn bosibl i Dduw ymostwng i'r pethau a ddywedwn. Yna, fel y daw corff y gwirionedd yn gliriach, gellir egluro y cyd-darawiadau fel lliwiau yn addurno y corff hwnw.

*Anselm.* Ai nid yw yn ymddangos yn rheswm digonol o anghenrheidrwydd, paham y mae yn iawn i Dduw wneuthur y pethau a ddywedwn, gan fod yr hil ddynol, gwaith mor werthfawr o'i eiddo, yn golledig oll; nad oedd yn iawn i fwriad Duw mewn perthynas i ddyn gael ei lwyr ddifodi, ac nad oedd yn bosibl dwyn y bwriad hwnw i ben heb i'r hil ddynol gael ei rhyddhau gan ei Chreawdwr ei Hunan?

PENNOD V.

*Nas gallasai prynedigaeth dyn gael ei ddwyn oddiamgylch gan neb arall, ond gan Berson Dwyfol.*

*Boso.* Pe buasai yn briodol dywedyd i'r rhyddhad hwn gael ei ddwyn oddiamgylch rywfodd, trwy rywun arall heblaw trwy Berson Dwyfol (un ai trwy angel neu trwy ddyn) buasai meddwl dyn yn llawer parotach i'w dderbyn. Canys gallasai Duw greu dyn dibechod, nid mae'n wir o'r natur lygredig *(massa peccatrice)*, nac o unrhyw ddyn arall, ond yr un modd ag y creodd Adda; a thrwy hwnw ymddengys y gallasai gyflawni y gwaith hwn.

*Anselm.* Ond ai nid ydych yn gweled pe buasai rhyw berson arall yn gwaredu dyn o afael marwolaeth dragywyddol, y buasai dyn yn gyflawn yn cael ei ystyried yn was i'r person hwnw? A phe buasai felly, ni fuasai dyn yn cael ei adferu i'r sefyllfa anrhydeddus ymha un y buasai ynddi pe heb bechu, oblegid deuai dyn, yr hwn na fuasai yn was i neb llai na Duw, ac yn gydradd â'r angylion da ymhob peth, yn was i un nad yw yn Dduw, a'r hwn nad yw yr angylion yn weision iddo.

W. W.

# Y BYD I IESU GRIST.

*Gan y Parch.* JOHN PUGH, B.A., *Seaforth.*

PA beth a olygir wrth gael y byd i Iesu Grist? Cael holl drigolion y byd i fod yn gyfranog o'i ras, ac i fod yn ufudd i'w gyfreithiau. Y mae hyn yn beth i'w ddysgwyl, mae yn beth i'w ddymuno, ac y mae yn beth sydd yn sicr o gael ei ddwyn oddiamgylch. Iesu Grist yw perchenog y byd, efe yw ei lywodraethwr, ac efe yw ei waredydd; ac y mae ei ewyllys a'i anrhydedd yn sicrhau ei adferiad.

Wrth ystyried ansawdd y byd yn bresennol, sef ei annhrefn, ei bechod, a'i drueni, y mae rheswm yn barod i dybied fod adferiad y byd yn yr ystyr a olygir yma yn beth anmhosibl. Ond er y cwbl y mae nerth wedi cael ei amlygu mewn tystiolaeth, ac wedi dyfod i'r golwg mewn ffeithiau blaenorol; ac y mae y nerth hwnw y fath ag sydd yn sicrhau cyrhaeddiad yr amcan dan sylw yn yr ystyr eangaf. "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd." Daeth y nerth hwn i'r golwg mewn modd tra hynod yn hanes crefydd Iesu Grist yn yspaid y canrifoedd cyntaf. Dynion cyffredin ydoedd y deuddeg a ddewiswyd ac a anfonwyd ganddo Ef fel ei genadau, ac yr oedd rhai pethau yn eu cenadwri ag oedd yn ei gwneyd yn dra annhebyg o gael derbyniad. Nid oedd dim urddas i ennill sylw yn eu safle gymdeithasol; nid oeddynt wedi hynodi eu hunain o ran eu dysg a'u hyawdledd; nid oedd iddynt gefnogaeth oddiwrth unrhyw nawdd bydol, neu awdurdod uwchraddol; nid oedd eu cenadwri yn cyfarfod â chwaeth y rhai a gydnabyddid yn athronwyr a dysgedigion; ac yr oedd eu haddysg yn taro yn uniongyrchol yn erbyn rhai o brif ragfarnau a thraddodiadau y werin. Ond er hyn oll fe welir yn dra buan yn eu hanes gyflawniad o'r hyn a addawyd iddynt: "Myfi a roddaf i chwi enau a doethineb, yr hon nis gall eich holl wrthwynebwyr na dywedyd yn ei herbyn na'i gwrthwynebu." Y mae eu gwaith yn ennill sylw; y mae ei effeithiau yn dyfod i'r golwg; ac y mae hyn yn cynnyrchu eiddigedd yn y dosbarth gwrthwynebol. Ac y mae y dosbarth hwn ar achlysur neillduol yn tori allan gan ddywedyd, "Y rhai sydd yn aflonyddu y byd," neu yn ei droi wyneb i waered, "y rhai hyny a ddaethant yma hefyd." Ac yn nghwrs y blynyddoedd dilynol, fel canlyniad i'w llafur taenwyd eu cenadwri dros holl wledydd a theyrnasoedd adnabyddus y byd. Gwelwyd allorau eilunaddoliaeth yn cael eu diystyru, y temlau paganaidd yn cael eu gwaghau, a miloedd ar filoedd yn y gwahanol wledydd yn dyfod yn ddeiliaid ewyllysgar i'r Brenin Iesu. Tystia Justin Martyr yn yr ail ganrif nad oedd unrhyw genedl, yn ei ddyddiau ef, ar wyneb yr holl ddaear, heb fod lliaws yn eu plith yn cyflwyno gweddïau a diolchiadau i'r Creawdwr mawr yn enw yr Iesu croeshoeliedig. Ac ychydig bach yn ddiweddarach dywed Tertullian fod crefydd Iesu Grist wedi cyrhaedd terfynau eithaf y byd adnabyddus, a bod Cristionogion lawer i'w cael y pryd hwnw yn holl diriogaethau yr ymherodraeth Rufeinig; eu bod i raddau helaeth yn llenwi dinasoedd ac ynysoedd; a bod nifer mawr o honynt i'w cael yn y byddinoedd, yn y llysoedd gwladol, ac yn y palasau mwyaf urddasol. Ac awgryma ymhellach pe buasai y fath beth yn cymeryd lle, y pryd hwnw, ag iddynt gael eu symud yn sydyn o'r byd gyda'u gilydd, y buasai y gwagder a'r amddifadrwydd a gymerasai le trwy hyny yn chwithig a dyeithriol.

Ac y mae y nerth ag oedd y tu cefn i'r symudiad hwn yn dyfod i'r golwg yn fwy eglur, gan i'r ymosodiadau dynol cryfaf ag oedd yn bosibl fethu ei attal neu ei wrthweithio. Peth digon hysbys ydyw ddarfod i nifer o'r ymherawdwyr Rhufeinig, y naill ar ol y llall, arfer eu holl awdurdod, eu holl ddylanwad, a'u holl ddyfeisiau, er mwyn rhoddi terfyn ar y grefydd newydd. Ac alaethus ydyw y desgrifiad a roddir o'r cyfreithiau llymion a basiwyd, a'r creulonderau erchyll a arferwyd, yn yspaid y Deg Erledigaeth, gyda yr amcan o lwyr ddyfetha y Cristionogion. Ond er y cwbl, tra yr oeddynt yn cael eu herlid mor ofnadwy yr oeddynt yn parhau i gynnyddu; a thra yr oeddid yn ceisio eu hysgubo oddiar wyneb y ddaear yr oedd miloedd ar filoedd o honynt yn llochesu fel tystion dirgelaidd yn yr ogofeydd

tanddaearol a elwid y *Catacombs*. Ac yn fuan ar ol hyn, sef yn nheyrnasiad Cystenyn Fawr, wele yr ystorm yn tawelu, yr awyr yn clirio, wele haul llwyddiant yn tywynu, ac wele grefydd Iesu Grist yn cael ei chydnabod yn grefydd yr ymherodraeth. Trowyd rhai o'r hen demlau Paganaidd i fod yn addoldai Cristionogol; trefnwyd fod yr Ysgrythyrau i gael eu darllen yn yr eglwysi; a rhoddwyd cyfarwyddiadau am sancteiddio dydd yr Arglwydd. Gwir nas gellir cymeradwyo yr oll a gymerodd le yn yr yspaid hwn; eto mae hanes y cyfnewidiad rhyfeddol a ddygwyd oddiamgylch yn brawf fod Eglwys Crist yn gyfansoddiad nas gall "pyrth uffern" mo'i gorchfygu, a bod nerth o'i phlaid sydd yn sicrhau ei pharhad a'i llwyddiant. Rhaid addef mai tymmor o ddiffrwythder a marweidd-dra ydoedd yspaid maith y Canol-Oesau. Eto, hyd yn nod yn y cyfnod hwn cafwyd prawfion fod "Ysbryd y Peth Byw" yn gweithio, a bod nerthoedd ynglŷn â'i weithrediadau. Siampl o hyn ydyw yr hynodrwydd sydd yn perthyn i hanes ynys fechan Iona. Bu hon dros rai oesau yn ganolbwynt i genadaeth dra gwerthfawr. Llawer dwsin o genadau a anfonwyd ar unwaith oddiyma, oblegid bob yn ddeuddeg y byddent yn myned allan; ac er fod neilldu olion arbenig yn perthyn i'w dulliau a'u gweithrediadau, eto buont yn foddion i wasgaru graddau o oleuni yr efengyl dros ranau helaeth o Frydain a gwledydd eraill, a hyny mewn adeg pan oedd y werin wedi cael eu gorchuddio gan dywyllwch caddugol.

Nid llai nodedig ydyw hanes llafur, dyoddefaint, a llwyddiant y Waldensiaid yn nyffrynoedd Piedmont. Tra yr oedd lliaws trigolion y gwledydd yn pen-wanu dan ddylanwad baldordd y Babaeth, yr oedd y bobl hyn yn glynu wrth wirioneddau syml yr efengyl, ac yn beiddio eu cyhoeddi i eraill y tu allan i'w tiriogaethau eu hunain, er gwaethaf ystrywiau a chreulonderau eu gwrthwynebwyr. Felly profwyd fod rhyw nerth cuddiedig yn perthyn i grefydd Iesu Grist a'i gwnaeth yn anorchfygol er holl erlidiau y cyfnod blaenorol, a bod yr un nerth wedi ei galluogi i raddau helaeth i gadw ei phurdeb a'i hoewder er holl heresiau, ffolinebau, creulonderau, tywyllwch, a thrythyllwch yr oesau dilynol.

Hynod fel y daeth y nerth hwn i'r amlwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg! Yn y cyfnod blaenorol gallesid meddwl, gydag ychydig eithriadau, fod y grefydd hon wedi myned o'r golwg, a bod coelgrefydd a llygredigaeth wedi cael yr oruchafiaeth. Gresynol ydoedd gweled y rhai oedd mewn swyddau cysegredig wedi myned yn fath o chwareuwyr cellweirus; y dosbarth a ddylasai fod yn siamplau o burdeb ac ofn Duw wedi myned yn nodedig am eu rhysedd a'u drygioni; a'r lleoedd a ddylasai fod yn addoldai heb fod nemawr gwell na themlau Paganaidd. Ond tuag at wrthwynebu y drygau hyn wele rywbeth anorchfygol yn ymweithio yn ysbryd un ag a fu yn flaenorol yn fynach cuddiedig; ond yn awr wedi dyfod i safle gyfaddas mae efe yn ffurfio pedwar ugain a phymtheg o osodiadau, ac yn eu hoelio ar ddrws porth yr eglwys y perthynai efe iddi. Ac yn y gosodiadau hyn mae y dulliau a'r arferion oedd mewn bri o'i gwmpas yn cael eu dynoethi a'u condemnio yn y modd mwyaf difloesgni. Wele bellach gyffro mawr yn cael ei gynnyrchu ymhell ac yn agos; a thrwy gydgyfarfyddiad amgylchiadau, wele Luther ymhen ychydig yn cael cyfleusdra i ymddangos yn y Diet fawr yn Worms. Yma mae efe yn sefyll o flaen yr ymherawdwr, y llywiawdwyr, y tywysogion, a'r cardinaliaid; ac yma mae efe yn traethu ei gyffes ardderchog, gan ddyweyd wrth derfynu, "Nis gallaf ac nis gwnaf ei galw yn ol." Gellir dyweyd am y gyffes hon y bu fel hyrddiad gordd fawr ar hen goeden y Babaeth, trwy yr hyn y profwyd ei cheuedd a'i phydredd, ac y daeth i'r golwg y giwaid o bethau bryntion, hyllion, a gwenwynig ag oedd ynddi yn cael eu coleddu. Peth digon hysbys ydyw y bu Luther a'i gydlafurwyr yn foddion i gynnyrchu chwyldroad moesol yn ngwahanol wledydd y Cyfandir. Mae yn wir y gwelwyd blinderau mawrion ar ol hyny, ac y teimlwyd effeithiau anhapus adfeiliad ymhlith Cristionogion ac anffyddiaeth ymhlith y gwrthwynebwyr; ond mor wir a hyny, profwyd drachefn a thrachefn fod nerth dirgelaidd yn perthyn i grefydd Iesu Grist sydd yn sicrhau

ei pharhad a'i llwyddiant, a hyny er cael ei dwyn weithiau i amgylchiadau ymha rai y gallai rheswm dynol dybied fod ei llwyddiant yn anobeithiol. A pheth tra dymunol ydyw cael tystiolaethau am hyn o gyfeiriadau annysgwyliadwy.

Pan oedd Napoleon I. yn St. Helena, fe geir y pethau canlynol ymhlith ei ddywediadau wrth ei gyfaill a'i gydymaith: "Y mae crefydd Iesu Grist yn ddirgelwch; ac y mae yn parhau trwy y nerthoedd sydd yn briodol iddi ei hun; ac y mae yn gynnyrch meddwl uwchlaw dynol. Darfu i Alexander, Cæsar, Charlemagne, a minnau ffurfio ymherodraethau, a pha beth oedd ein sylfaen? Gallu ymosodol. Ond darfu i Iesu Grist sylfaenu ei ymherodraeth ar GARIAD: ac y mae miliynau o ddynion yr awr hon yn barod i farw drosto. . . . Bu rhyfel blin dros y tair canrif cyntaf. Ac yn y rhyfel hwn yr oedd breninoedd a galluoedd penaf y ddaear ar y naill ochr; ac ar yr ochr arall ni welaf fyddin o gwbl; ond yn hytrach nifer o ddynion yn wasgaredig dros holl ranau y byd, a'r rhai hyn yn gwneuthur croes Crist yn ganolbwynt, ac yn llwyddo o herwydd y nerth dirgelaidd sydd yn gweithio trwyddynt."

Oddiwrth yr ychydig sylwadau arweiniol hyn gellir gweled fod sail i ddysgwyl *cael y Byd i Iesu Grist*. A chyda golwg ar hyn priodol iawn yw y sylw a wneir gan Isaac Taylor: "Gellir," medd efe, "gyda sicrwydd, ddwyn hyn fel tystiolaeth; sef mor bell ag y dichon i ddylanwad dynol effeithio er dwyn yr eglwys i well ansawdd, ei fod ef yr hwn sydd yn anobeithio am hyny yn rhwystro y peth i gael ei ddwyn ymlaen mor bell ag y mae ei ddylanwad ef yn cyrhaedd, tra o'r ochr arall y mae yr hwn sydd yn dysgwyl am y cyfryw beth, yn ol graddau ei ddylanwad yn ei hyrwyddo a'i brysuro ymlaen."

---

## MR. DAVID DAVIES, LLANDINAM.

*Gan y Parch.* D. LLOYD JONES, M.A., *Llandinam.*

PENNOD III.—CYFNOD Y RHEILFFYRDD.

YN yr hanner canrif diweddaf y mae ein gwlad wedi myned drwy chwyldroad pwysig mewn canlyniad i ddarganfyddiadau gwyddonol gyda golwg ar natur gwres mewn agerdd a dwfr. Yn 1760 darganfyddodd Dr. Black fod gwres yn diflanu megys o'r golwg pan y mae rhew yn cael ei droi yn ddwfr, neu ddwfr yn cael ei droi yn agerdd. Gelwir hwn yn wres cuddiedig (*latent heat*), am nad yw ei bresennoldeb yn cynnyrchu dim effaith ar y gwresfesurydd. Codwyd y llèn oddiar y ffaith fod 80 gradd o wres yn llechu mewn dwfr oer pan y mae ar fin rhewi, a 100 mewn agerdd poeth. Yr oedd llawer o ddynion cywrain a meddylgar wedi bod yn gwneyd defnydd o agerdd i wneyd gwaith, megys Hero o Alexandria, yn 120 c.c., Baptiste Porta yn 1580 o.c., Solomon de Caus yn 1615 o.c., ac Ardalydd Worcester yn 1663 o.c., Papin a Captain Savary, ac amryw eraill; ond y ddau berson y rhai y gellir eu hystyried fel gwir ddarganfyddwyr yr agerddbeiriant oeddynt Newcomen a Watt. Dyfeisodd Newcomen (1705) beiriant syml ymha un yr oedd agerdd yn rhedeg trwy bibell o'r berwedydd, ac yn gwthio cauad (*piston*) y *cylinder* i fyny, a phibell arall yn d'od â dwfr oer o lestr i waelod y *cylinder*, ac yn troi yr agerdd yn ddwfr drachefn, a thrwy hyn yn cynnyrchu gwagle yr hwn a sugnai gauad y *cylinder* i lawr. Mewn gwirionedd pwysau yr awyr ar y cauad, yr hwn wrth *level* y môr sydd yn bymtheg pwys ar bob modfedd ysgwâr o arwynebedd, oedd yn gweithio y peiriant hwn. Pa fodd bynag, syrthiodd un o'r peiriannau syml hyn i ddwylaw Watt, gŵr a anesid yn Greenock yn 1736, ac a fu farw yn 1819, ac iddo ef y perthyn y clod o fod yn wir ddyfeisiwr yr agerddbeiriant. Llwyddodd Watt i dynu yr agerdd allan o'r *cylinder* i lestr ar wahan oddiwrtho (*separate condenser*), a'i droi yn ddwfr yn y llestr hwnw, a thrwy hyn rhwystrodd i'r *cylinder* gael ei oeri bob tro y byddai hyn yn cymeryd lle. Ac heblaw hyn, trefnodd nifer o bibellau a gwerchyrau (*valves*) i gysylltu y berwedydd a'r *cylinder* â'u gilydd yn y fath fodd fel yr oedd yr agerdd yn rhuthro o'r cyntaf i'r diweddaf bob yn ail islaw ac uwchlaw y *piston*, nes ei wthio i fyny ac i lawr yn rheolaidd. Y trefniant hwn, wedi ei gysylltu â chranc wrth echel chwyfdroell haiarn, yw y prif ddyfeis-

iau sydd yn cyfansoddi yr agerddbeiriant. Aeth Mr. Watt i bartneriaeth â Mr. Boulton (gŵr a gadwai lawer o law-weithyddion yn Birmingham) yn 1769, ac o'u gweithfa hwy y daeth yr agerddbeiriannau cyntaf a wnawd yn y Deyrnas hon allan. Dywedir mai ar feddwl Watt y gwawriodd y drych-feddwl gyntaf o ddefnyddio agerdd fel moddion i yru wageni a cherbydau, ac iddo feddwl am y ddyfais hon mor foreu a 1780. Pa fodd bynag, i George Stephenson y perthyn y clod o fod wedi dwyn hyn oddiamgylch yn ymarferol. Yn 1821 llwyddodd y cwmni i gael gweithred Seneddol i'w hawdurdodi i wneyd rheilffordd o Darlington i Stockton. Ar y pryd nid oedd ganddynt ddim syniad am ddefnyddio agerddbeiriannau i lusgo y cerbydau ar hyd-ddi, oblegid yr oedd adran o'r weithred yn datgan yn eglur ei bod i gael ei gweithio gan ddynion neu feirch, neu mewn rhyw "ddull arall." Yn fuan wedi hyn ymddangosodd George Stephenson ar y maes, a phenodwyd ef yn beiriannydd y llinell. Nid cynt y cymerodd hyn le, nag y defnyddiodd George Stephenson ei holl ddylanwad i argyhoeddi y prif hyrwyddwr, Mr. Edward Pease, o'r dymunoldeb o gael Gweithred Seneddol i'w hawdurdodi i lusgo y cerbydau âg agerddbeiriannau symudol; ac wedi gwrthwynebiad ystyfnig, pasiwyd y mesur yn 1823. Aeth y gwaith o sylweddoli y cynllun ymlaen gyda'r fath gyflymder, fel yr agorwyd y rheilffordd hon Medi 27, 1825. Nid oedd y dygwyddiad hwn yn ymddangos ynddo ei hunan yn un pwysig iawn, oblegid nid oedd y llinell ond 54 o filldiroedd o hŷd, na'r cyfalaf ond £102,000; ni allai y cerbyd-beiriant ychwaith deithio mwy na phum' milldir yn yr awr, ac ni roddwyd cerbydau i deithwyr arni am rai wythnosau wedi ei hagoriad; ac eto yr oedd y dygwyddiad yn ddechreuad chwyldroad pwysig yn nhrafnidiaeth ein gwlad. Pwy a fuasai yn dychymygu y buasai agoriad y fath linell yn arwain i gyfnewidiadau mor bwysig mewn hanner canrif o amser? Dilynwyd hon cyn 1838 gan linellau Monkland, Liverpool a Manchester, Llundain a Birmingham; ac erbyn 1840 yr oedd y llanw yn rhedeg mor gryf o blaid rheilffyrdd, nes ysgubo pob peth o'i flaen. Cyn 1840 yr oedd mesurau wedi eu cymeradwyo gan y Senedd yn awdurdodi cwmnïoedd i adeiladu 3000 o filldiroedd o reilffyrdd. Er nad oedd y gerbydres gyflymaf yn teithio mwy nag ugain milldir yn yr awr yn 1838, ac er fod y draul o gael mesurau Seneddol yn aruthrol o fawr, eto yr oedd y ffaith fod y prif linellau yn talu deg punt y cant, a rhai llai lawer mwy, yn cynhyrfu y cyhoedd i ruthro yn wallgof i'r cyfryw anturiaethau. Hwn oedd y cyfnod yr oedd tònau o ysbrydiaeth o blaid rheilffyrdd yn ymylu ar wallgofrwydd yn cymeryd meddiant o ddynion. Ac eto, er yr holl gynhwrf a'r brwdfrydedd nid oedd y milldiroedd oedd yn agored yn 1846 ond ychydig wrth eu cymharu â'r gyfundrefn eang sydd fel rhwydwaith yn gorchuddio y deyrnas yn ein dyddiau ni.

Yr oedd gan Mr. Davies lygaid craff ac ysbryd anturiaethus, a gwelodd yn y chwyldroad hwn faes eang yn yr hwn y gallai gael cyflawnder o le i'w ŷni a'i fedrusrwydd i ddyfod i lawn weithrediad. Fel hyn y safai rheilffyrdd y deyrnas y pryd hwnw, o'u cymharu â'r hyn ydynt yn awr:—

| | Milldiroedd yn agored. | Swm y Cyfalaf. |
|---|---|---|
| 1846 ..... | 3036 | £126,296,000 |
| 1855 ..... | 8280 | £297,584,000 |
| 1886 ..... | 19,332 | £828,344,000 |

Bymtheng mlynedd ar hugain yn ol nid oedd ond un reilffordd yn Ngogledd Cymru, a Mr. Davies oedd un o'r ychydig ddynion anturiaethus a ddaethant allan i wneyd i fyny y diffyg. Ymgymerodd â llawer o linellau yn olynol, a thrwy ei fedrusrwydd, ei ŷni, a'i ddyfalbarhad, goresgynodd anhawsderau mawrion, a dygodd hwy oll i derfyniad llwyddiannus. Pan ystyrir anfanteision boreu ei oes, a'r peryglon lïosog a amgylchynent anturiaethau mor fawrion, mae yn fater o syndod na ddarfu iddo gyfeilïorni mewn barn a dwyn trychineb ar ei amgylchiadau, ond meddai gyfuniad hynod o feddwl gochelgar ac ysbryd anturiaethus mewn cydbwysedd hollol â'u gilydd. Y ddau allu hyn a ddylanwadent ar nodwydd ei gwmpas i beri iddo bob amser ei arwain i gyfeiriad diogelwch a llwyddiant. Efe oedd yr unig Gymro ymysg y tô o anturiaethwyr a feiddient ymgymeryd

â gwneyd rheilffordd ar raddfa eang ddeng mlynedd ar hugain yn ol, a bu ganddo ran flaenllaw yn ngwneuthuriad amryw o'r cyfryw yn Neheudir a Gogledd Cymru!

RHEILFFORDD DYFFRYN CLWYD.

Ni wyddys i sicrwydd pa bryd neu ar ba achlysur y daeth i gydnabyddiaeth â Mr. Savin, er fod rhai yn dyfalu i'r ddau dd'od i gydnabyddiaeth â'u gilydd pan oedd Mr. Davies yn gweithio allan ei *gontract* ar Farchnadle yr Anifeiliaid yn Croesoswallt. Rhaid eu bod wedi d'od i gyffyrddiad â'u gilydd cyn 1856, oblegid yn y flwyddyn hon, pan yr oedd cyfran helaeth o Reilffordd Llanidloes a'r Drefnewydd wedi ei gorphen, a'r gwaith wedi sefyll oblegid prinder adnoddau y cwmni i gario allan yr anturiaeth, aeth Mr. Davies i gydranogaeth â Mr. Savin. Ymgymerodd y ddau â'r gwaith o gyfansoddi Rheilffordd yn Nyffryn Clwyd, yr hon sydd yn awr yn rhedeg o Rhyl i Ddinbych, ac yn ffurfio rhan o gyfundrefn y London and North-Western. Trethodd Mr. Davies holl nerth ei gorff cadarn hyd eî eithaf pan yn gweithio allan yr anturiaeth hon. Byddai ei gorff a'i feddwl ar lawn waith yn aml am un awr ar bymtheg yn y dydd yn cynllunio pa fodd i ddwyn pethau oddiamgylch yn y dull mwyaf effeithiol, diogel, a diwastraff, ac yn arolygu y gwaith; ac oni b'ai fod ganddo gyfansoddiad haiarnaidd, diau y buasai yn tori i lawr o dan y fath ymegnïad ddirwasgol a pharhaus. Ni oddefai ychwaith i'r dynion oedd dano ymollwng i ddiofalwch a segurdod, a thrwy ei fedrusrwydd a'i ŷni dygodd y gwaith i derfyniad llwyddiannus. Agorwyd y Rheilffordd yn Tachwedd, 1858, a chyflwynwyd i Mr. Davies lestri arian gan y gweithwyr fel arwydd o'u diolchgarwch a'u parch, ac y mae'n gerfiedig arnynt y geiriau hyn:—

Cyflwynedig i
DAVID DAVIES, YSW.,
Gwaith-gymerwr,
Gan y dynion a ddefnyddid ar
Reilffordd Dyffryn Clwyd,
Fel arwydd o'u parch a'u gwerthfawrogiad
diolchgar.
Hydref 14, 1858.

Ar yr un adeg cyflwynwyd anerchiad iddo hefyd dros y gweithwyr gan Esgob Llanelwy:—

ANERCHIAD
Gweithwyr ar Reilffordd Dyffryn Clwyd,
i
MEISTRIAID DAVIES & SAVIN,
Gwaith-gymerwyr,
Cyflwynedig gyda Llestri Arian
i bob un o'r ddau,
Gan y Gwir Barchedig Arglwydd Esgob
Llanelwy.

Wrth waelod yr anerchiad hwn y mae enwau deuddeg o'r gweithwyr yn eu llawysgrif eu hunain.

Yr anturiaeth nesaf yr ymgymerodd y ddau gydgyfranogwr â hi oedd gwneyd Rheilffordd o Groesoswallt i'r Drefnewydd, a'i hestyn trwy gangen ychwanegol o'r Drefnewydd i Machynlleth.

Yn awr daeth Mr. Davies i argyfwng pwysig yn ei fywyd, yn yr hwn yr oedd ei dynged fel anturiaethwr llwyddiannus i gael ei phenderfynu. Ymgymerodd Mr. Savin â gweithio allan gynlluniau eang a chostus, y rhai a lyncai gyfalaf mor fawr fel nad oedd dim gobaith y byddai i'r ennillion oddiwrthynt dalu dim llôg rhesymol i'r cyfranddalwyr ar yr arian a dreulid yn eu gwneuthuriad. Ymysg y pethau hyn yr oedd ei waith yn prynu llanerchau eang o dir yn Aberystwyth, y Borth, ac Aberdyfi, er mwyn adeiladu *hotels* mawrion arnynt, a'i ymddygiad hefyd yn penderfynu gwneyd rheilffyrdd trwy ranau o'r wlad nad oedd dim digon o gynnyrchion amaethyddol nac o adnoddau tanddaearol ynddynt i roddi gwaith i'r fath gyfrwng costus o gymundeb â rheilffordd o gwbl. Treuliai Mr. Savin lawer o'i amser yn marchnad yr arian yn Llundain, tra yr oedd y gorchwyl ymarferol o weithio allan y cynlluniau, yr hwn oedd yn gofyn am ddyfeisgarwch, medrusrwydd a gofal, yn dibynu ar ei gydymaith. Yr oedd y cyfwng hwn yn brawf ar graffder meddwl, cywirdeb barn, a gwroldeb ysbryd Mr. Davies. Oni b'ai ei fod yn meddu ar ganfyddiad meddyliol cyflym a chywir, a gwroldeb anorchfygol i weithredu yn ol ei argyhoeddiadau, buasai yn cael ei ysgubo ymaith gan lifeiriant o anffodion masnachol a oddiweddodd Mr. Savin ac a'i llusgodd i ddinystr. Gwelodd fod ei gyfaill o

dan ddylanwad dychymyg ac nid barn, yn cael ei dwyll-hudo ymlaen gan obeithion gau, a phrophwydodd y byddai i drychineb arswydus ei oddiweddyd cyn pen llawer o amser, a gwnaeth ei feddwl i fyny i dori ei gysylltiad âg ef. Ymhen llai na thair blynedd cyflawnwyd ei ddyfaliadau; methodd Mr. Savin, ac yr oedd y swm a gollwyd trwyddo yn gannoedd o filoedd o bunnau, fel y gwelir oddiwrth y ffaith fod cyfundrefn y Cambrian Railway wedi costio £4,614,000, tra nad yw yn talu yn glir (*net revenue*) ond £81,865 (1866) yn y flwyddyn.

RHEILFFORDD Y DREFNEWYDD A MACHYNLLETH.

Dechreuodd y llinell hon yn 1857. Ar y pryd yr oedd Mr. Davies a Mr. Savin yn gydgyfranogion â'u gilydd; ond pan dorwyd pob cysylltiad rhyngddynt, ymgymerodd Mr. Davies â gorphen y llinell hon. Gan ei bod yn rhedeg trwy ddarn mynyddig o'r wlad —bryn lled uchel ac amryw o gymoedd dyfnion ar ei ffordd—yr oedd anhawsderau mawrion i'w gorchfygu. Ond er y pethau hyn oll, yr oedd gan Mr. Davies ei resymau dros ymgymeryd â hi pan yn ymddadgysylltu oddiwrth Mr. Savin. Y mae yn ammheus genym a drethodd un linell gymaint ar ei fedrusrwydd a'i ddyfeisgarwch a hon. Costiodd iddo lawer o bryder a llafur meddyliol, ond o'r diwedd, fel pob anturiaeth arall, dygodd hi i derfyniad llwyddiannus, ac agorwyd hi yn Tachwedd, 1862.

RHEILFFORDD PENFRO A TINBYCH.

Yn 1860 ymgymerodd Mr. Davies, mewn undeb â'r diweddar Mr. Ezra Roberts, gynt o Lanelwy, a gwneyd Rheilffordd o Penfro i Tinbych, yr hon sydd yn 12 milldir o hyd. Gorphenwyd hon, ac agorwyd hi yn 1863.

LLINELL TINBYCH A WHITLAND.

Wedi gorphen y llinell uchod, ymgymerasant â gwneyd ymestyniad o honi o Tinbych i Whitland, oddeutu 14eg o filldiroedd. Gorphenwyd ac agorwyd hon yn Medi, 1866.

Ar yr achlysur hwn cyflwynwyd oriawr aur i Mr. Davies gan y gweithwyr, fel arwydd o'u parch iddo, ar yr hon y mae yn gerfiedig y geiriau:—

Cyflwynedig i
DAVID DAVIES, Ysw.,
Fel arwydd o'u parch, gan y Gweithwyr a ddefnyddid yn ystod gwneuthuriad Rheilffordd Penfro a Tinbych.
Medi 5ed, 1866.

Ar yr un pryd cyflwynwyd anerchiad i bob un o'r ddau gydgyfranogwyr, yr hwn sydd yn dechreu gyda'r penawd canlynol:—

Cyflwynedig i
DAVID DAVIES, Ysw., ac EZRA ROBERTS, Ysw.,
Gwaith-gymerwyr a Phrif Gyfranddalwyr Llinell Ychwanegol Penfro a Tinbych,
Ar Agoriad y Llinell o Tinbych i Whitland, gan
Faer, Henaduriaid, a Bwrdeiswyr Bwrdeisdref Tinbych.
Medi 4.
Arwyddwyd,
GEORGE WHITE, Maer.

LLINELL ABERHONDDU A MERTHYR.

Pan wnawd y llinell hon, yr oedd Mr. Davies mewn partneriaeth â Mr. Ward ac eraill.

LLINELL ABERYSTWYTH A PENCADER.

Gelwir y gyfundrefn hon yn Rheilffordd Manchester a Milford. Nid ydym yn gwybod i sicrwydd pa bryd y dechreuwyd y llinell hon, ond gorphenwyd hi yn Awst, 1867, a chymerodd yr arolygwr a'r gweithwyr fantais ar yr amgylchiad i gyflwyno arwydd o'u parch i Mr. Davies, yn y ffurf o awrlais hardd, ar yr hwn y mae'n gerfiedig,—

"Cyflwynedig i DAVID DAVIES, Ysw., un o Waith-gymerwyr Rheilffordd Manchester a Milford, gan ei arolygwyr a'i gyfeillion, ar agoriad y Linell i Aberystwyth, yn Awst, 1867.

Ar yr un achlysur cyflwynwyd iddo anerchiad fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'i waith, gan faer, henaduriaid, a bwrdeiswyr Aberystwyth—

ANERCHIAD
gan
Faer, Henaduriaid, a Bwrdeiswyr Aberystwyth,
Ar agoriad y rhan o'r Llinell sydd yn cysylltu y rhan oedd wedi ei gorphen yn flaenorol âg Aberystwyth.
Awst 12, 1867.

Yr un linell a wnaed ganddo wedi hyn oedd Rheilffordd Caersws a Manledd. Llinell i gludo plwm oedd hon o weithiau

y Fan i lawr i orsaf Cwmni y Cambrian, yn Caersws, yr hon a orphenwyd yn 1872.

Fel hyn y daeth ei fywyd fel Gwneuthurwr Rheilffyrdd i derfyniad 18 mlynedd yn ol. Yr oedd yn ddigon llygadgraff i weled y llanw yn d'od i fewn, a gollyngodd ei lestr i mewn iddo, ond yr oedd yn ddigon gofalus i dd'od â'i lestr i mewn i'r porthladd cyn i'r llanw fyned allan. Yr oedd ganddo synwyr cyffredin digon cryf i'w waredu rhag ymdroi i hofran ar y wyneb pan yr oedd yn encilio, a thrwy hyn osod ei lestr yn agored i daraw yn erbyn y tywod-fryniau a suddo i mewn iddynt. Gwyddai pa bryd i gychwyn a pha bryd i sefyll, ac yr oedd ganddo ddigon o wroldeb i weithredu yn ol ei argyhoeddiad, a'r craffder a'r gwroldeb hwn oedd prif wreiddiau dirgeledig ei lwyddiant. "Y mae'r gwyntoedd a'r tonau," meddai un hanesydd, "bob amser o blaid y mordwywr galluocaf," ond nid hyn yw y cwbl. Nid yw ystorfa o ŷni anianyddol a meddwl craff, o ddim gwerth os na byddant mewn undeb â natur foesol bur, ac yn cael eu defnyddio i amcanion dyrchafedig. Hyn sydd yn gwneyd dyn yn arwr yn ngwir ystyr y gair. Nid oedd dim yn cyffroi tymher Napoleon yn fwy, meddai Madame de Stael, "na fod y Saeson wedi cael allan pa fodd yr oedd yn ddichonadwy cyfuno llwyddiant â gonestrwydd." Dengys yr anerchiadau llïosog a gyflwynwyd i Mr. Davies, ei fod wedi ymddwyn yn onest ac anrhydeddus at bawb y daeth i ymdrafodaeth â hwy wrth gario allan brif anturiaethau ei fywyd.

## Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

### GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

DOSBARTH IEUENGAF.

*Gan y Parch.* R. HUMPHREYS, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

TACHWEDD 2il. Gwaith y Sabboth hwn yw adolygu y Gwersi o Awst 17eg hyd Hydref 26ain.

TACHWEDD 9FED. GEN. XVII. 15—27. HYSBYSU PWY FYDDAI MAM YR ETIFEDD.

Yr oedd cynnwys yr addewid yn cael ei ddwyn i'r amlwg yn raddol i Abraham. Y mae hyny yn ddiau wedi cael ei gadw mewn golwg yn y dosbarthiadau wrth ddarllen yr hanes. Yr oedd un peth pwysig yn aros heb ei ddadguddio. Er fod etifedd wedi cael ei addaw, ac mai Abraham fyddai ei dad, nid oedd hysbysrwydd wedi cael ei roddi pwy a fyddai ei fam. Yr oedd Sarai yn ddeng mlwydd a phedwar ugain. Naturiol gan hyny oedd i Abraham dybied nad oedd hi i fod yn fam iddo. Yn y weledigaeth ag y mae y wers am y Sabboth hwn yn rhan o'i hanes, y mae y niwl oedd o amgylch y rhan yma yn yr addewid yn cael ei chwalu. Dywedir wrtho gan yr Arglwydd mai ei wraig Sarai fyddai mam yr etifedd. Y peth cyntaf a wneir wrth ddangos y rhan anrhydeddus oedd iddi hi yn y cyfammod yw newid ei henw. Nid Sarai oedd ei henw i fod mwyach, ond Sarah. Ystyr yr enw Sarai yw *fy nhywysoges*, a Sarah, *tywysoges*. Ar ol newid ei henw dywedir (1) y byddai iddi dderbyn bendithion y cyfammod, (2) y byddai i Abraham gael mab o honi, (3) y deuai cenedloedd a breninoedd pobloedd o honi. Chwarddodd Abraham pan y clywodd y byddai iddo ef fod yn dad, a Sarah yn fam. Yr oedd yn chwerthin, nid o anghrediniaeth, ond o ryfeddod a llawenydd. Wrth ryfeddu a llawenychu yn y rhagolwg y byddai iddo gael mab, y mae yn dechreu pryderu gyda golwg ar pa beth a ddeuai o'r mab oedd ganddo yn barod, sef Ismael. Yn ei bryder y mae yn gweddïo drosto, "O na byddai fyw Ismael ger dy fron di!" Hyd yma, Ismael oedd unig fab y tŷ. Yr oedd yn awr yn dair ar ddeg oed, a serchiadau ei dad wedi ymglymu am dano. Edrychai ymlaen at ddyfodol dysglaer iddo. Beth a ddeuai o Ismael yn awr yn wyneb fod mab arall i gael ei eni? Y mae Abraham yn gweddïo drosto am iddo gael rhan o'r bendithion. Fe welir mai yr effaith a gafodd yr hysbysiad am enedigaeth mab i Sarah ar feddwl Abraham oedd peri iddo ryfeddu ato fel peth croes i drefn naturiol, a phryderu ynghylch Ismael. Y mae adn. 19—21 yn cynnwys manylion pellach ynghylch yr etifedd, ac atebiad i'r weddi dros Ismael. 1. Yn wyneb fod Abraham yn rhyfeddu, ail ddywedir gyda phwyslais ychwanegol y byddai i fab gael ei eni o Sarah. Ar y geiriau, "yn ddiau," y mae y pwyslais yn nechreu adn. 16. 2. Hysbysir beth fyddai ei enw. Y mae

y gair "Isaac" y trydydd person unigol, amser presennol, o'r ferf Hebraeg am *chwerthin*. Ystyr yr enw gan hyny yw, "y mae efe yn chwerthin." 3. Dywedir mai âg Isaac, ar ol Abraham, yr oedd y cyfammod i gael ei gadarnhau. Y mae adn. 20 yn cynnwys yr ateb i'r weddi dros Ismael. Addewir ei fendithio â'r fendith dymmorol uchaf oedd yn adnabyddus yn y Dwyrain, sef ei ffrwythloni a'i wneyd yn genedlaeth fawr. Y mae enwau y deuddeg tywysog a ddaeth o hono i'w cael yn pen. xxv. 13—16. Ond Isaac oedd i fod yn blentyn y cyfammod. O hono ef yr oedd Crist i ddyfod. Y mae y trefniant rhwng yr Arglwydd ag Abraham, ar yr hwn y rhoddir yr enw "cyfammod," yn cael cyfeirio ato wrth ei enw dair ar ddeg o weithiau yn y bennod hon. Yn adn. 23—27 ceir hanes Abraham yn rhoddi arwydd y cyfammod ar holl ddynion ei dŷ. Oblegid fod Ismael yn dair ar ddeg oed pan enwaedwyd ef, y mae yr Arabiaid bob amser wedi arfer enwaedu eu meibion pan yn 13 oed. Y mae hyn yn cael ei ddal i fyny ymhlith cenedloedd Mahometanaidd hyd y dydd hwn.

TACHWEDD 16EG. GEN. XVIII. 1—15. ABRAHAM FEL DYN CROESAWGAR.

Brawd Aner ac Escol, y rhai oedd mewn cynghrair âg Abraham, ydoedd Mamre. Cyfeirir ato yn pen. xiii. 18; xiv. 13. O dan lwyn derw perthynol iddo ef yn Hebron yr oedd Abraham wedi gosod ei babell. Yr oedd cael pren, neu lwyn, cysgodol o werth anmhrisiadwy mewn gwlad fel Canaan. Y mae hi yn llawer iawn poethach yno nag ydyw hi yn Nghymru. Eisteddai Abraham yn ngwres y dydd wrth ddrŵs ei babell, dan dderw Mamre. Yr oedd ganddo lawer o bethau i feddwl am danynt. Byddai yn ddifyr ac adeiladol pe gofynai yr athraw i'w ddosbarth enwi yr amgylchiadau ag y gallem yn naturiol gredu oedd yn destun myfyrdod iddo yn nrws ei babell. Yr oedd Abraham yn dyfod i deimlo yn fwy-fwy ei fod yn offeryn i ddwyn i'r amlwg ryw gynlluniau rhyfedd o eiddo yr Arglwydd. Pan yn myfyrio ar y pethau hyn, efe a welai "drŵr" yn agosâu at ei babell. Oddiwrth yr hanes dilynol y mae yn eglur mai angylion oedd dau o honynt, ac mai yr Arglwydd ydoedd y trydydd. O ran ymddangosiad allanol yr oeddynt fel dynion. Ac fel y cyfryw y mae Abraham ar y cyntaf yn eu croesawu. Y mae amryw o arferion dwyreiniol yn cael cyfeirio atynt yn y wers, y rhai sydd yn egluro dull Abraham o groesawu y dyeithriaid hyn. 1. Y croesaw mwyaf a ellir ei roddi i deithydd yw dwfr i olchi ei draed, a phren cysgodol i orphwys dano, am fod y wlad yn boeth (adn. 2, 3). 2. Arferir pobi bara bob diwrnod; a chan na phobir ond yn unig hyny fydd ar y teulu eisieu am y diwrnod, bydd yn rhaid myned at y gorchwyl o dylino a phobi ar unwaith pan y bydd i ddyeithriaid ymweled â'r teulu. Yr oedd "tair phïolaid" yn gyfartal i tua thri phecaid (adn. 6). 3. Pan y bydd penaeth dwyreiniol yn derbyn teithwyr, rhydd ar unwaith orchymyn i'w wraig i wneyd bara; yna y mae yn lladd dafad, neu ryw anifail arall, ac yn ei barotoi ar frys. Dyga laeth, a rhyw ddarpariadau eraill a all fod ganddo, gyda'r bara a'r cig, a gesyd hwynt ger bron yr ymwelwyr. Os bydd yr ymwelwyr yn rhai o safle uchel, y mae y penaeth yn sefyll yn eu hymyl tra y byddant yn bwyta, fel y gwnaeth Abraham ar yr amgylchiad hwn (adn. 8). Cofier nad oedd yr ymwelwyr *yn* y babell, ond o dan y pren y tu allan iddi. Ar ol gorphen bwyta, y mae y mwyaf urddasol o'r tri wŷr yn dyweyd eu neges. Yr oedd Sarah o fewn y babell, ac o fewn cyrhaedd clyw, yn gwrando. Deallodd ar unwaith fod neges y dyeithriaid yn dal perthynas â hi. Clywodd hwynt yn dyweyd wrth Abraham y byddai iddi hi, yr hon oedd yn 90 mlwydd oed, fod yn fam. Chwarddodd hithau yn ddystaw, rhyngddi a hi ei hun, pan y clywodd hyny. Yr oedd hi yn chwerthin oblegid annaturioldeb yr hysbysiad. Wrth y geiriau "ynghylch amser bywioliaeth" y meddylir *y pryd hwn y flwyddyn nesaf*.

TACHWEDD 23AIN. GEN. XVIII. 16—33. ABRAHAM FEL GWEDDIWR.

Y mae y wers am y Sabboth hwn yn hollol hawdd, ac nid oes anghen am ond ychydig o nodiadau arni. Nid oedd "y gwŷr" wedi gorphen eu neges ar y ddaear ar ol ymddyddan âg Abraham o dan bren Mamre. Yr oedd ganddynt neges arall, ac y mae hono yn cael ei dwyn i sylw yn nechreu y wers hon. Yr oedd Abraham yn dangos yr un caredigrwydd i'r dyeithriaid pan yr oeddynt yn ymadael ag oedd wedi ei ddangos pan y daethant ato. Aeth "i'w hanfon hwynt." Yr enw a roddir ar un o'r tri yw "yr Arglwydd." Efe oedd Angel y Cyfammod, sef yr Ail Berson yn yr Hanfod Dwyfol. Edrychodd y tri wŷr tua Sodom. Llefarodd un, sef yr Arglwydd, wrth Abraham. Nodir tri rheswm dros ddyweyd y bwriad Dwyfol gyda golwg ar Sodom wrth Abraham. 1. Yr oedd i fod yn genedlaeth fawr a chref. 2. Yr oedd holl genedloedd y ddaear i gael eu ben-

dithio ynddo. 3. Yr oedd yn un oedd yn dwyn ei deulu i fyny yn grefyddol. Ar ol dyweyd am y dinystr oedd i ddyfod ar y dinasoedd, y mae y ddau angel yn myned tua Sodom i barotoi ar gyfer cario y bwriad allan, ond arosodd yr Arglwydd gydag Abraham. Yr oedd Lot yn byw yn Sodom. Cofiodd Abraham am dano, a dangosodd ei gyfeillgarwch tuag ato a'i ffyddlondeb iddo trwy weddïo ar yr Arglwydd dros y ddinas yr oedd yn byw ynddi, a'r dinasoedd eraill. Yr oedd gweddi Abraham yn eiriolaeth dros y dinasoedd. Yr hyn a ofynai i'r Arglwydd oedd, a wnai efe ddyfetha y ddinas os byddai nifer neillduol o bobl dda yn byw ynddi. Dechreua gyda'r nifer o ddeg a deugain, ac y mae yn tynu y nifer i lawr bob yn bump hyd nes y daw i ddeugain. Yna y mae yn tynu y deugain i lawr bob yn ddeg hyd nes y daw i'r nifer o ddeg. Nid yw Abraham yn anturio gofyn am ostyngiad pellach yn y nifer. Daw y pethau canlynol i'r golwg yn y weddi: 1. *Gostyngeiddrwydd* (adn. 27). 2. *Parch.* Dangosir hyn yn y modd y mae Abraham yn gosod ei ddeisyfiadau ger bron yr Arglwydd. 3. *Rhyddfrydigrwydd calon.* Y mae yn gweddïo dros eraill. 4. *Taerineb.*

Tachwedd 30ain. Gen. xix. 1—4, 10—14.
Y Gwyr yn Sodom.

Yr oedd Sodom, fel yr holl ddinasoedd yn ngwlad Canaan, yn cael ei hamgylchu gan furiau uchel, ac yr oedd yn rhaid i bawb ddyfod i mewn, neu fyned allan, trwy y pyrth. Y mae porth dinas yn uchel, yn llydan, ac yn gysgodol. Yn y pyrth arferai llawer o bobl sefyll, rhai i glywed newyddion o leoedd pell, eraill i gyfarfod cyfeillion, ac eraill i chwedleua. Yr oedd Lot yn eistedd yn mhorth Sodom pan y daeth y ddau angel (gwel pen. xviii. 22) i'r lle. Nid oedd yn eu hadnabod. Gwelai mai dyeithriaid oeddynt. Fel Abraham, rhoddodd Lot hefyd dderbyniad croesawgar iddynt. Nid oedd y "gwŷr" mor barod i dderbyn caredigrwydd Lot ag oeddynt i dderbyn yr eiddo Abraham. Hwyrach mai y ffaith nad oedd Lot yn ddyn mor dda ag Abraham oedd y rheswm am hyny. O'r diwedd hwy a aethant ato i'w dŷ. Darfu i Lot, yn ddiarwybod iddo ei hunan, roddi llettŷ i angylion y noswaith hon. Yr unig beth sydd yn galw am sylw yn adn. 4—11 yw ffyddlondeb Lot i rai dyeithr yn ei dŷ, trwy fod yn barod i wynebu pob perygl ei hunan yn hytrach nag i unrhyw niwed gael ei wneyd iddynt. Yn adn. 10 gwelir fod y ddau angel wedi cymeryd eu hamddiffyniad i'w llaw eu hunain. Yn ol pob tebyg, pe na buasent wedi gwneyd hyny, buasai Lot wedi cael ei orchfygu gan y bobl ddrygionus. Dygwyd Lot i fewn i'r tŷ ganddynt. Tarawsant y bobl â dallineb. Y mae i'r gair "dallineb" yn adn. 11 ystyr neillduol. Golyga yr ystad hono ymha un y mae y llygaid a'r meddwl yn myned yn erbyn eu gilydd. Yr oedd meddwl y bobl yn gwneyd am ddrws tŷ Lot, ond yr oedd eu llygaid yn eu harwain i gyfeiriad arall wrth chwilio am dano. Yr oeddynt yn ddall ac heb wybod eu bod yn ddall. Ar ol hyn y mae y ddau angel yn ffurfiol yn adrodd eu neges. Am fod Lot yn ddyn da, er ei ffaeleddau, yr oedd ei holl deulu yn cael cynnyg arbediad yn ei gysgod. Anfonwyd ef i bregethu iddynt. Mae y bregeth i'w chael yn adn. 14. Ni wrandawsant arno. Gorfu iddynt oblegid hyny ddyoddef canlyniadau eu hanufudd-dod. Dyma yr ail ffrwyth naturiol, a'r mwyaf difrifol, oedd yn dylyn dewisiad Lot o le i fyw. Nid oedd holl brydferthwch naturiol y lle yn ddigon i wneyd i fyny am bechadurusrwydd y trigolion. Gobeithiwn na fydd i'r athrawon fyned trwy hanes rhyfedd y pennodau hyn heb alw sylw eu dosbarthiadau at y mawr ddrwg sydd mewn pechod fel y daw i'r golwg ynddynt.

---

## DOSBARTH HYNAF.

### YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

*Gan y* Golygydd.

Sabboth, Tachwedd 2il. Heb. v. 8—10.

Adn. 8: *Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd.* Yn ol y cystrawiad, y mae y gosodiadau yn yr adnod hon—y cyntaf—ei fod yn Fab—gosodiad israddol, yn dullweddu yr ail osodiad (megys rhwng cromfachau), a'r ail, neu y prif osodiad—ei fod wedi dysgu ufudd-dod trwy ddioddefiadau—yn dibynu ar y rhan gyntaf o'r adnod flaenorol:—*Yr hwn.* Felly, y mae yr hyn a ddywedir am dano yn y 7fed adnod, y llefain a'r gweddïo, &c., megys rhwng cromfachau. Y mae y cystrawiad hwn hefyd yn cynnwys fod yr hyn a ddywedir am dano yn yr ardd yn *brawf*, neu yn *engraifft* nodedig, o'r gosodiad—ei fod wedi dysgu ufudd-dod trwy ddioddef. Pa beth yw grym y geiriau——"er ei fod yn Fab?" Gellir edrych arno mewn dwy wedd. Gellir ei gymeryd fel agoriad i adnod lawn o ryfeddodau. 'Er ei fod yn *gyfryw* Fab—yn Fab *Duw*—fe ddysgodd, fe ufuddhaodd, fe ddioddefodd.' Ond y mae y tair rhyfeddod yn myned i mewn i'w gilydd: fe *ddysg-*

*odd ufudd-dod;* ac fe ddysgodd ufudd-dod *trwy ddyoddef.* Neu, gellir rhoddi y pwyslais ar y gair *Mab*—y syniad o *fab* ynddo ei hun. Y mae yn naturiol i fab ufuddhau; ond yr oedd yr ufudd-dod hwn mor fawr ac anhawdd fel yr oedd yn rhaid i'r "Mab" hwn *ddysgu* ufudd-dod. A'r gair nesaf sydd yn dangos beth oedd yn ei wneyd mor anhawdd—"dyoddef." Ufudd-dod Archoffeiriad ydoedd —ufudd-dod aberth: yn llythyrenol "*yr* ufudd-dod." Dyma olygiad Principal Edwards.

Adn. 9: *Ac wedi ei berffeithio.* Y mae dau fath o berffeithrwydd—perffeithrwydd purdeb, a pherffeithrwydd cyflawnder. Yr oedd y cyntaf gan y Gwaredwr erioed. Ond gosodwyd y llall o'i flaen yn nod i gyrchu ato, ac fe'i cyrhaeddodd. Perffeithrwydd cynnydd, tyfiant, ymagoriad, trwy ddysgyblaeth foesol. *Training* trwy demtasiynau, anhawsderau, ufudd-dod a dyoddefiadau yn dybenu mewn perffeithiad arno fel aberth ac fel esiampl, a chynllun yr holl waredigion. *Efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo.* Efe "a ddaeth i fod," trwy y ddysgyblaeth a nodwyd, yn "Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol" haeddiannol ac effeithiol "i'r rhai oll a ufuddhânt iddo." Gwnaeth waith ei archoffeiriadaeth yn effeithiol. Ni a welwn y lle mawr sydd i *ufudd-dod* yn yr iachawdwriaeth. Ufudd-dod yw sail yr iachawdwriaeth o du Crist, ac hefyd ammod yr iachawdwriaeth o du y pechadur. Trwy ufudd-dod y gwnaed hi, a thrwy ufudd-dod y derbynir hi. "Tragywyddol" mewn cyferbyniad i'r gollyngdod am flwyddyn dan y gyfraith; ac i *bawb*, pwy bynag a ufuddhânt, yn gyferbyniol i'r genedl Iuddewig.

Adn. 10: *Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec.* Trwy gael ei "gyfarch," fel yr arwydda y gair (adn. 6)—ar ei berffeithiad. Dealla rhai yr adnod hon fel eglurhad ar yr un flaenorol, yn dangos ymha fodd y mae Crist yn awdwr iachawdwriaeth dragywyddol, sef trwy ei eiriolaeth offeiriadol gyda'r Tad. I hyn atebir nad oes yma yr un gair am eiriolaeth offeiriadol yn gyferbyniol i'r aberthiad offeiriadol. Ac hefyd nad oes son fod Melchisedec wedi eiriol dros neb. Nid eglurhâd yw yr adnod hon ar yr un flaenorol; cysylltiad gramadegol yn unig sydd iddi â'r hyn sydd o'i blaen, nid rhesymegyddol. Dwyn i mewn bwnc newydd y mae yr adnod hon, neu wedd newydd ar y pwnc dan sylw. Y mae y cysylltiad mewn rhesymeg, neu o ran mater, rhwng yr adnod hon âg adn. 6. Dangosir fod yr awdwr yn cychwyn ar ymdriniaeth newydd, wrth sylwi ar adn. 11.

Ond beth yn neillduol yw bod yn Archoffeiriad "yn ol urdd Melchisedec?" Dywed rhai mai yn ol urdd Aaron yr ydoedd ar y ddaear yn aberthu; ond ei fod yn awr yn y nefoedd yn "Offeiriad ar ei freninfaine"—ac mai dyma oedd "urdd Melchisedec," bod yn frenin yn gystal ag yn offeiriad. Gwir na ellw yr awdwr Melchisedec yn archoffeiriad ond yn offeiriad, ac na sonir am Melchisedec yn aberthu, yr hyn sydd yn ffafrio y casgliad mai fel gwrthgysgod o Aaron yr oedd Crist yn Archoffeiriad Ond yr oedd hefyd yn "Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec." Beth oedd hyny? Un ateb ydyw, ei fod yn Frenin yn gystal ag yn Archoffeiriad. Y mae yn debyg iawn fod mwy na hyny. Dyna un peth —yr oedd yr offeiriadaeth a'r freniniaeth nid yn unig wedi eu priodi, ond hefyd wedi eu tragywyddoli yn ei Berson ef. Yr oedd Melchisedec yn ddrych o *dragywyddoldeb* offeiriadaeth Crist a'i freniniaeth hefyd, mor bell ag y gellid tynu darlun o dragywyddoldeb ar amser: "yn *dragywyddol* yn ol urdd Melchisedec." Peth arall—a rheswm am y peth a enwyd —yr oedd y cymhwysder i'r swydd yn gwreiddio yn ei Berson ef ei hunan. Am Aaron a'r lleill, *yr oeddynt hwy yn y swydd:* ond am Grist, *yr oedd y swydd ynddo Ef.* Yr oedd y swydd yn fwy na hwynt; yr oedd Efe yn fwy na'r swydd. Cafodd y swydd ei hunan ei bôd yn ei gymhwysder tragywyddol Ef i'w Hanw. Fe'i gwnaed, "nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, ond yn ol nerth bywyd annherfynol," ac yn hyn yr oedd yn Offeiriad "yn ol cyffelybrwydd Melchisedec:" vii. 15, 16.

Sabboth, Tachwedd 9fed. Heb. v. 11—14.

Adn. 11: *Am yr hwn y mae i ni lawer i'w dywedyd, ac anhawdd eu traethu, o achos eich bod chwi yn hwyrdrwm eich clustiau.* Am "*yr hwn.*" Am bwy? neu am ba beth? Crist, medd rhai. Melchisedec, medd eraill. Gwna y gair gwreiddiol am berson neu beth. Felly dealla rhai ef am y cyffelybrwydd rhwng Crist a Melchisedec; neu Crist fel y mae yn Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec. Yr oedd yn bwnc mawr ac anhawdd ynddo ei hun; ac yr oedd yn fwy "anhawdd ei draethu," neu "galed i'w ddehongli" iddynt hwy, am eu bod "wedi myned" yn "hwyrdrwm eu clustiau." Yr oeddynt wedi dirywio mewn gwybodaeth grefyddol yn ystod y deugain mlynedd er pan esgynasai yr Archoffeiriad Mawr i'w gysegr (Edwards). Hen bobl

yn aros yn blant, neu wedi myned yn ol i ail-blentyndod. "Hwyrdrwm," musgrell, dwl, araf i ddirnad; vi. 12.

Adn. 12: *Canys lle dylech fod yn athrawon o ran amser, y mae arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth ydyw egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw.* "Athrawon," nid mewn swydd, ond mewn gwybodaeth, "o ran amser," yn ol eu manteision. Dylasent fod yn dysgu eraill yn lle cael eu dysgu. Yr oedd yn rhaid dysgu iddynt hyd yn nod y wyddor yn ysgol yr Efengyl, yr egwyddorion cyntaf. "Ymadroddion Duw"—yr "oraclau" dwyfol, trwy y prophwydi a thrwy Grist. *Ac yr ydych yn rhaid i chwi wrth laeth ac nid bwyd cryf.* "Wedi myned" eto, fel yn adn. 11, yn rhai ag yr oedd yn rhaid iddynt wrth laeth. Yn unol â'r gymhariaeth o'r blaen, yr oeddynt wedi myned yn ol yn yr ysgol, nes oedd raid eu rhoddi yn nosbarth y rhai oedd yn dysgu y wyddor. Yn ol y gymhariaeth hon, yr oeddynt wedi myned yn fabanod yn eu holau, yr oedd yn rhaid rhoddi llaeth iddynt—ymborth baban—am nas gallent dreulio ymborth cryf a sylweddol, gwirioneddau mawr a mewnol yr Efengyl.

Adn. 13: *Canys pob un a'r sydd yn ymarfer â llaeth, sydd anghynnefin â gair cyfiawnder; canys maban yw.* "Gair cyfiawnder" medd rhai, yn cyfateb i'r "bwyd cryf"—gwirioneddau uchaf a dyfnaf yr Efengyl. "Yr athrawiaeth am berffeithrwydd moesol," medd eraill. Y mae dau olygiad hollol groes ar ystyr yr adnod hon. Un ydyw—'Nid oes neb yn byw ar laeth ond y rhai sydd yn ddibrofiad o, neu yn anghyfarwydd â, gwirioneddau mwyaf crefydd. Y mae eich bod chwi yn gyfryw ag y mae yn rhaid i chwi wrth laeth yn dangos mai rhai felly ydych chwithau,' (Ebrard, Dr. Thomas). Y llall ydyw—'Rhai dibrofiad yn ngair cyfiawnder yn unig sydd yn byw ar laeth; ond *nid ydych chwi* felly, yr ydych chwi wedi cael hir brofiad o hono, ac am hyny mwyaf oll yw y syndod a'r cywilydd eich bod chwi yn gorfod ymborthi ar laeth' (Dr. T. C Edwards).

Adn. 14: *Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, y rhai o herwydd cynefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da.* "Y rhai perffaith"—Cristionogion addfed, llawn oed, cryfion, yn gallu ymborthi ar wirioneddau dyfnaf yr Efengyl. Y mae y rhai hyn megys yn ngrym greddf ysbrydol yn "profi beth yw daionus, a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw;" y mae tafiod eu genau yn deall cam flas; y maent yn gallu gwahaniaethu rhwng drwg a da, mewn ymarferiad neu mewn ystyr foesol: ac hefyd, rhwng gwirionedd a chyfeiliornad mewn barn. I'r cyfryw rai y mae "bwyd cryf" yn perthyn, felly nid oedd yn gyfaddas i'r Hebreaid hyn. Ac eto, dyma y mae yr Apostol yn myned i'w roddi iddynt. Oblegid hyny, fel yr unig waredigaeth o'r anhawsder, y mae yn eu hannog i "fyned rhagddynt at berffeithrwydd," a gadael gwirioneddau elfenol crefydd, pen. vi. 1.

Sabboth, Tachwedd 16eg. Adolygiad.

Sabboth, Tachwedd 23ain. Heb. vi. 1—3

Adn. 1: *Am hyny, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist.* "Am hyny"—'am mai rhai perffaith a ddichon ddefnyddio bwyd cryf, ac am eich bod chwi eto, er eich holl fanteision, megys babanod yn ymborthi ar laeth—eich dyledswydd yw "rhoddi heibio" y wyddor, "ymadrodd dechreuad Crist," yr un peth ag "egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw," adn. v. 12, sef elfenau cyntaf athrawiaeth yr efengyl. Y gyfraith luddewig, medd rhai, yw yr "ymadrodd" dechreuol hwn; ffurfiad cyntaf Crist yn yr enaid, medd eraill; ond fel yr awgrymwyd uchod, y golygiad mwyaf tebyg, feddyliem, yw gwirioneddau cyntaf, mwyaf syml, yr Efengyl. Rhaid cael y sylfaen, ond nid ydym i fod o hyd yn sylfaenu; y mae eisieu adeiladu ar y sylfaen. *Awn rhagom at berffeithrwydd.* Neu "cluder ni." Perffeithrwydd neu addfedrwydd y cymeriad crefyddol, trwy yr hwn y gallwn fwynhau gwirioneddau mawrion, uchaf yr Efengyl.

Barna rhai mai cyfeirio y mae y geiriau "awn rhagom at berffeithrwydd" at benderfyniad yr awdwr i fyned ymlaen i ymdrin â'r gwirioneddau uchel yn y gweddill o'r Epistol. Ond y golygiad arall, dybygem, yw y mwyaf cydweddol â'r cerydd am fusgrellni yr Hebreaid hyn, mai annogaeth yw y geiriau iddynt hwy i gymeryd eu "cludo ymlaen," ac i ymegnïo eu hunain at gyrhaedd addfedrwydd profiad, gwybodaeth, a chymeriad ysbrydol, fel ag i'w gwneyd yn alluog i ymborthi ar "y bwyd cryf," gwirioneddau uchaf yr Efengyl. Dyry yr awdwr ei hunan gyda'i ddarllenwyr, fel y gwna yn fynych, er mwyn tyneru y cynghor—"awn." *Heb osod i lawr drachefn sail i edifeirwch oddiwrth weithredoedd meirwon, ac i ffydd tuag at Dduw.* Edifeirwch a ffydd yw dechreuad crefydd. Nid dyma y "sail." Grasau cyntaf crefydd yw y rhai hyn yn cael eu hadeiladu ar y sail. Y sail yw yr athrawiaeth am y pethau a nodir. "Nid ydym i osod i lawr "drachefn" y sail hon "i ni ein hunain," fel

y golyga y gair, yn ein dysgeidiaeth athrawiaethol; llawer llai bod wrthi o hyd heb wneyd dim arall ond gosod i lawr y sylfaen, yn lle myned rhagom i oruwchadeiladu. Gosododd Crist y sylfaen pan y pregethodd edifeirwch a ffydd yn Nuw," Marc i. 15. (Edwards.) "Gweithredoedd meirwon"—pechodau fel halogrwydd moesol, megys yr oedd cyffyrddiad â chorff marw yn Israel yn halogi yn seremoniol, ac yn cau allan o gymundeb â'r Arglwydd a'i bobl, pen. ix. 14. Amlwg yw fod "ffydd yn Nuw" yma mewn ystyr efengylaidd—"dechreu rhai yn Nghrist." Credu yn Nghrist sydd yn cynnyrchu ffydd yn Nuw (1 Petr i. 21).

Adn. 2: *I athrawiaeth bedyddiadau, ac arddodiad dwylaw, ac adgyfodiad y meirw, a'r farn dragywyddol.* Yr ystyr yw "sail athrawiaeth." Yr addysg am y pethau hyn yw y sail athrawiaethol ar yr hon y cyfodir edifeirwch a ffydd i ddechreu, ac yna holl oruwchadeiladaeth y cymeriad Cristionogol. Y gair arferedig yn y Testament Newydd am y bedydd Cristionogol yw *βάπτισμα*; ond y gair yma yw *βαπτισμός*, ond ei fod yn y rhif lïosog. Y mae hyn, ynghyd a'r rhif lïosog, yn dangos, tra y mae yn cynnwys y bedydd Cristionogol, ei fod hefyd yn cymeryd i mewn y golchiadau Iuddewig a bedydd Ioan. Golyga "athrawiaeth bedyddiadau" addysg elfenol y dysgyblion, ar eu dyfodiad i'r Eglwys, am y bedydd Cristionogol yn y gwahaniaeth rhyngddo â'r lleill a enwyd. Yr athrawiaeth am fedydd oedd y sail athrawiaethol i edifeirwch, Mat. iii. 11; Act. ii. 38—41, &c. Yr oedd y ddefod o "arddodiad dwylaw" yn adnabyddus er ys oesoedd i'r Iuddewon yn eu gwasanaeth crefyddol, ac hefyd yn arferedig yn yr Eglwys foreuol. Yr oedd yn dilyn bedydd, heblaw ar neillduad i swyddi. Arwyddai "fod Duw yn derbyn edifeirwch y pechadur ac yn rhoddi iddo ddawn yr Ysbryd Glân. Yr oedd yr athrawiaeth am arddodiad dwylaw yn sail athrawiaethol i ffydd yn Nuw." (Edwards.) "Ac adgyfodiad y meirw a'r farn dragywyddol." I'w cysylltu âg "athrawiaeth," nid â "sail." Yr oedd yr athrawiaeth am y pethau mawr diweddaf hyn yn sail athrawiaethol i edifeirwch a ffydd. Gwir fod y petnau hyn yn perthyn i Iuddewiaeth; ac y mae y ddau symudiad ymlaen yn ngolwg yr Apostol y mae yn dra thebyg, sef codi oddiwrth y grefydd Iuddewig at athrawiaethau arbenig yr Efengyl, ac yn fwyaf neillduol codi oddiwrth wirioneddau elfenol Cristionogaeth at ei hathrawiaethau uwchaf. Engraifft o'r rhai hyn yw y gwirionedd mawr dan sylw—Archoffeiriadaeth Crist.

Adn. 3: *A hyn a wnawn, os caniatâ Duw.* "Hyn," sef myned rhagom at berffeithrwydd, mewn adeiladu y cymeriad Cristionogol. "Os caniatâ Duw." Y mae y geiriau hyn yn awgrym difrifol fod yn bosibl i ddynion wrthgilio mor bell oddiwrth yr efengyl, mewn caledwch ac anghrediniaeth, fel na chaniatâ Duw iddynt fyned ymlaen at berffeithrwydd cymeriad Cristionogol. Y mae yr ymadrodd hwn yn arwain i'r adnodau difrifol a ganlyn, y rhai ydynt yn gosod allan gyflwr anobeithiol y cy ryw ddynion.

Sabboth, Tachwedd 30ain. Heb. vi. 4—6.

Adn. 4: *Canys anmhosibl yw i'r rhai a oleuwyd unwaith.* Rhoddai y tadau yr ystyr o fedydd i'r gair "goleuo," ac felly y mae yr hen gyfieithiad Syriaeg yn darllen. Anhawdd iawn penderfynu ei ystyr yn y lle hwn yn fanwl a phendant. Nid oes dim yn ystyr y gair ei hunan yn penderfynu natur na graddau y goleuni. Golyga yn ddiau fesurau helaeth o oleuni goruwchnaturiol ar wirioneddau yr efengyl, fel y dengys y cysylltiad. *Ac a brofasant y rhodd nefol.* Nis gellir yn ddiau benderfynu beth yn bendant yw "y rhodd nefol" Dyma rai o'r ystyron a roddir:—ffydd, galwedigaeth nefol, maddeuant pechodau, heddwch cydwybod, adnabyddiaeth o'r efengyl, Swper yr Arglwydd. Eraill, Crist neu yr iachawdwriaeth. *Profi*—archwaethu. *Ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân.* Dawn yr Ysbryd Glân, mewn canlyniad i fedydd ac arddodiad dwylaw, yn ol rhai; y "ddawn" oedd wrth wraidd y "doniau" goruwchnaturiol. Yn ol eraill, dylanwadau grasol yr Ysbryd trwy yr efengyl.

Adn. 5: *Ac a brofasant ddaionus air Duw.* Holl ddatguddiad yr efengyl. Y mae y rhai hyn wedi profi ei fod yn *dda*—neu yn brofiadol o'i ddaioni. *A nerthoedd y byd a ddaw.* "Y profiad a gawsai y rhai hyn o'r dylanwadau sydd briodol i'r ystyriaeth am fodolaeth, am natur, ac am barhad byd arall."—Dr. Thomas. "Y grymusderau goruwchnaturiol hyny a weithredent ar a thrwy ddynion yn yr oes Apostolaidd, o wahanol nodweddau." —Dr. T. C. Edwards. Y mae perthynas agos rhwng y ddau syniad yma a'u gilydd, ac y mae yr olaf yn cynnwys y blaenaf. Credwn mai "nerthoedd" byd yr efengyl, neu yr oruchwyliaeth Gristionogol, a olygir yn uniongyrchol. Ond byd newydd yr efengyl a ddaeth â'r byd tragywyddol i'r golwg. Ac y mae y byd mawr a ddaw yn rhan bellach o fyd yr efengyl—y trefniant newydd ar bethau trwy y prynedigaeth. Y mae "y byd a

ddaw," yn y ddwy ystyr, wedi ei ddarostwng i'r Duw-ddyn.

Adn. 6: *Ac a syrthiant ymaith.* Yn fwy cywir, "ac a syrthiasant ymaith." Nid yw y gair yn un man yn y Testament Newydd ond yma. Golyga yn ddiau wrthgiliad hollol, syrthio ymaith yn gwbl ac am byth oddiwrth Grist a'r efengyl. Pen. x. 26, 29. *Ymadnewyddu drachefn i edifeirwch.* Credwn nad yw y gair "drachefn" yn golygu fod adnewyddiad blaenorol wedi bod. Nid yn gyferbyniol i adnewyddiad blaenorol y mae, ond yn gyferbyniol i "syrthio ymaith." Defnyddir y gair felly yn fynych mewn ymddyddan: "Efe a ymadawodd oddiyno, ond fe ddychwelodd yno *drachefn.*" Nid fod dychweliad wedi bod o'r blaen; ond ymadawiad a fu o'r blaen, a dychweliad *drachefn.* Gweithredol, nid goddefol, yw y gair: nid "ymadnewyddu" —adnewyddu eu hunain; ond "anmhosibl yw adnewyddu" y rhai hyn. *Gan eu bod yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn ei osod yn watwar.* Y maent yn cyflawni pechod mawr yr Iuddewon, yn croeshoelio Crist drosodd drachefn mewn ffurf waeth. Y maent hwy yn ei groeshoelio ar ol gwybod pwy ydoedd. Gwnant hyny "iddynt eu hunain," o'u rhan hwy, mor bell ag y mae a wnelont hwy âg ef. Yr hyn a wnaeth yr Iuddewon âg ef ar raddeg fawr, yn gyhoeddus ac yn llythyrenol, y maent hwythau yn ei wneyd ar raddeg fechan, yn eu perthynas hwy âg Ef, ac o ran egwyddor ac ysbryd. Y mae yr ymddygiad hwn y gwawd a'r dirmyg mwyaf ar Fab Duw. Ar y groes y disgynodd i ddyfnder y gwarth; ac y mae ail-adrodd neu barhau golygfa y groes yn ail-adrodd ac yn parhau "ei waradwydd ef."

Adnodau difrifol yw y rhai hyn, a nodedig o anhawdd. Y cwestiwn mawr yw—A ydynt yn dysgu, neu yn cynnwys, fod yn bosibl i wir gredinwyr, dynion ailanedig, syrthio ymaith yn hollol a thragywyddol oddiwrth Grist ac iachawdwriaeth? Erthygl bwysig yn nghredo yr Eglwysi Calfinaidd ydyw parhad y saint mewn gras. Y mae hyny yn erthygl yn eu credo, am eu bod yn barnu mai dyna yw dysgeidiaeth bendant ac eglur y Bibl. Ond fel y sylwa Dr. Thomas yn ei ymdriniaeth nodedig o fanwl a helaeth, pwyllog a thrwyadl, â'r adnodau hyn—ni ddylai credo na syniadau ein plaid ein hunain o Gristionogion byth ddylanwadu arnom, i wyro barn oddiwrth ystyr naturiol unrhyw ran o'r Ysgrythyr fel ag i'w hesbonio yn gyson â'r daliadau hyny, deued a ddelo, ac i'w gwasgu i mewn, megys trwy drais a gorthrech, i'n cyfundraeth ni o dduwinyddiaeth. Wedi rhoddi yr ystyriaeth fanylaf a mwyaf diduedd a allem ni i'r adnodau pwysig hyn, yr ydym yn gorfod penderfynu nad oes yma ddim, o'i iawn ddeall, yn milwrio yn erbyn yr hyn a olygwn ni fel un o'r athrawiaethau a ddysgir yn fwyaf eglur a sicr yn y Bibl—athrawiaeth sydd, nid yn unig yn cael ei phrofi trwy liaws o adnodau pendant, ond hefyd yn gorwedd dan, ac yn gymhlethedig â'r holl Ysgrythyr a'r drefn o iachawdwr aeth a ddatguddir ynddi.

Ni oddef ein terfynau i ni ymdrin yn helaeth â'r adnodau tra phwysig hyn, yn ychwanegol at yr hyn a wnaed eisoes mewn ceisio sefydlu ystyr yr ymadroddion wrthynt eu hunain. Buasem yn caru yn fawr allu rhoddi ein golygiadau ar yr adnodau gyda'u gilydd. Ond nis gallwn wneyd hyny yma, ond yn unig yn y modd byraf, o dan ychydig benau.

1. Credwn, i ddechreu, gyda Principal Edwards, "nad oedd y pwnc athrawiaethol o barhâd mewn gras, neu gwymp oddiwrth ras, o flaen llygad awdwr yr Epistol hwn." Nid oedd y cwestiwn erioed wedi codi. Ychydig fe allai sydd yn cadw y ffaith hon mewn cof—fod y Bibl wedi ei ysgrifenu cyn bod dadleuon a chyfundraethau duwinyddol, fel yr oedd ffeithiau natur yn bod o flaen athroniaeth. *Defnyddiau* cyfundraeth sydd yn y Bibl a natur. Ychwanega y Principal:—"Nid ymddengys i mi ei bod yn anghenrheidiol i ni ystyried fod holl athrawiaethau yr efengyl yr un mor eglur i bob un o ysgrifenwyr y Testament Newydd, mwy nag y mae yn ofynol i ni gredu fod pob un o ysgrifenwyr yr Hen Destament yn eu sylweddoli. Yr ydym ni yn Nghymru wedi arfer deffinio cymaint, a gosod pob athrawiaeth yn ei lle yn ein cyfundrefn, a phenderfynu gwirionedd pob syniad yn ol ei chysondeb â Chalfiniaeth neu Arminiaeth, fel y mae yn gofyn ymdrech meddyliol i ddychymygu ein hunain yn astudio awdwr duwinyddol nad yw yn gwybod nac yn meddwl dim o gwbl am na Chalfiniaeth nac Arminiaeth; ac eto, i'r dosbarth hwn o ysgrifenwyr y perthyn awdwr yr Epistol at yr Hebreaid.

2. Nis gallwn weled fod dim yn y geiriad yn cau allan y golygiad mai *tybiaeth* sydd yn cael ei dwyn ymlaen yma, fel y barna Dr. Thomas, "er rhybudd difrifol i'r rhai a anerchid i ochel pob peth yn tueddu at yr hyn a allai derfynu mor ofnadwy." Fel y sylwa efe ymhellach, y mae yr Ysgrythyrau yn fynych "yn llefaru yn dybiaethol am yr hyn mewn ystyr naturiol a allai fod, hyd yn

nod pan y byddo y sierwydd moesol cryfaf na bydd i'r fath beth gymeryd lle byth."

3. Ar y llaw arall, nid ydym yn gweled mewn un modd fod yn *rhaid* i ni edrych ar y geiriau fel tybiaeth, neu ynte, eu cymeryd fel yn dysgu y posiblrwydd o golledigaeth dragywyddol rhai wedi eu cyfiawnhau a'u haileni. Nis gallwn gytuno â'r sylw canlynol o eiddo yr esboniwr galluog a ddyfynwyd ddiweddaf:—"Y mae yn amlwg, dybygem, fod yr holl ddesgrifiad o'r rhai y sonir yma am dan ynt, yn gyfryw ag na buasai neb yn petruso edrych arnynt fel rhai wedi eu haileni, ac yn ddeiliaid yr hyn a elwir genym yn ras cadwedigol, pe na buasai am y crybwylliad am danynt yn syrthio ymaith."

4. Credwn fod yr adnodau hyn yn ddesgrifiad cryf, wedi ei weithio allan i'r graddau eithaf posibl, o'r hyn a all fod ac sydd wedi bod,—sef dynion wedi profi pethau mawr a nerthol trwy yr efengyl, dylanwadau anghyffredinol, goleuni mawr ar bethau ysbrydol wedi tywynu i'w meddyliau, teimladau angerddol wedi eu hennyn yn eu mynwes o bryd i bryd; ac eto y cwbl yn syrthio yn fyr o'r *gras achubol* sydd yn cyfnewid cyflwr ac an ian pechadur, yn ei ddwyn i undeb â Christ, ac yn ei wneyd yn greadur newydd. Dyma y rhai a ddarlunir mor ddifrifol gan Jonathan Edwards yn ei waith ar y *Serchiadau Crefyddol*, a chan rai o'r awdwyr Puritanaidd, megys Owen, Flavel, Mead, Bunyan, ac eraill. "Syrthio yn fyr" a ddywedasom. Ac y mae y syrthio *yn fyr* yn rhoddi cyfrif am y syrthio *ymaith*.

5. Barnwn yn gryf fod yr agoriad i wir ystyr yr adnodau anhawdd hyn yn y ddwy adnod sydd yn eu dilyn, sef y 7 a'r 8fed: "Canys y ddaear, yr hon sydd yn yfed y gwlaw sydd yn mynych ddyfod arni, ac yn dwyn llysiau cymhwys i'r rhai y llafurir hi ganddynt, sydd yn derbyn bendith gan Dduw: eithr yr hon sydd yn dwyn drain a mieri, sydd anghymeradwy, yn agos i felldith; diwedd yr hon yw, ei llosgi." Sylwer ar y cysylltiad agos—"*Canys* y ddaear, &c." 'Dyma gyffelybiaeth,' meddai yr awdwr, 'i egluro cyflwr y dynion yr wyf wedi eu desgrifio.' Beth a welwn yn y gyffelybiaeth? Ni a welwn ddau fath o ddaear. Y mae dylanwadau natur yn dyfod i lawr o'r nefoedd ar y ddwy fel eu gilydd. Y mae "y gwlaw yn mynych ddyfod" ar y naill fel y llall. Y mae y naill yn derbyn dylanwadau daionus natur fel y llall. Beth yw y gwahaniaeth ynte? Dyna yw y gwahaniaeth pwysig: y mae un *yn dwyn ffrwyth;* a'r llall "yn dwyn drain a mieri."

Y mae yr olaf yn ddarlun o'r dynion a ddesgrifir. Yr oeddynt wedi cael y gwlaw grasol mewn helaethrwydd mawr, dylanwadau nefol. Ond dyna yw y cwbl. Ni sonir am ddim ond rhyw ddylanwadau yn dyfod i lawr arnynt hwy. Nid oes *dim ffrwyth* i'r cwbl. Goddefol ydynt yn unig. Nid ydynt yn ateb i'r triniaethau, fel y mae ffrwyth y ddaear dda yn atebiad i'r gwlaw sydd yn mynych ddyfod arni o'r nefoedd. Crybwyllir am lawer o bethau o du y nefodd, ond *dim* o'u tu hwy. Ni sonir am *yr un gras* o'r eiddynt hwy, er yr holl fanteision—dim gair am ffydd na gobaith, na chariad, na gwaith. Ond pan ä yr Apostol i gyfarch yr Hebreaid, am y rhai yr oedd "yn coelio pethau gwell, a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth," dywed, "Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich *gwaith* a'r *llafurus gariad* a ddangosasoch tuag at ei enw ef." Yr oedd yma ffrwyth yn ateb i'r manteision. Ond yr oedd y ddaear ddiffrwyth yn "dwyn drain a mieri." Felly yr oedd diffrwythder y dynion a ddesgrifir yn arwain o'r diwedd i ddwyn y drain a'r mieri gwaethaf mewn bod—"ail-groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, gan ei osod ef yn watwar."

Pe dywedid fod y gyffelybiaeth yn dangos mai *yr un* dylanwadau o'r nef sydd ar bawb fel eu gilydd, ni byddai hyny ond dirdynu y gyffelybiaeth. Nid oes yr un ddamneg na chymhariaeth yn cyfateb *ymhob peth* i'r hyn a ddarlunir trwyddi. Y pwnc ydyw gwneyd y defnydd priodol o'r manteision sydd genym, beth bynag ydynt mewn natur a graddau. Y mae pawb a wna hyny yn cael mwy. "I'r hwn sydd ganddo y rhoddir."

6. Megys y mae yr adnodau ar ol y rhai sydd dan sylw yn cadarnhau y golygiad a nodwyd, felly hefyd y mae y rhai o'u blaen. Y mae yma ddau *Canys*, un yn y diwedd—"Canys y ddaear, &c.," a'r llall yn y dechreu, "Canys anmhosibl, &c." Ac y mae y *Canys* cyntaf, dybygem, yn arwain yn naturiol i'r golygiad a roddwyd, fel y mae y *Canys* diweddaf yn dilyn yn naturiol o hono. Dangos y mae yr awdwr, yn yr hyn sydd o flaen yr adnodau dan sylw, fel yr oedd yr Hebreaid hyn heb wneuthur defnydd priodol o'r manteision oedd yn eu dwylaw. Dylasent fod yn athrawon, ond nid oeddynt ond ysgolorion, ac yn y dosbarth isaf, yn dysgu y wyddor. Dylasent fod yn wŷr grymus, ond nid oeddynt ond babanod. Yn awr, dengys yr awdwr beryglu tir yr oeddynt ynddo. Myned ymlaen yn yr un cyfeiriad a ddybenai mewn syrthiad

ymaith hollol ac am byth oddiwrth Gristionogaeth.

7. Fe allai y gwrthddadleuir fod hyn yn anghyson â'r hyn a ddywedasom o'r blaen. Os credai yr awdwr, fel y dywed ei fod yn gwneyd, fod y rhai yr ysgrifenai atynt yn wir gredinwyr—ac os *nad* rhai felly a ddesgrifir ganddo yn y rhybudd difrifol hwn—pa briodoldeb oedd mewn rhybuddio yr Hebreaid hyn o berygl nad oedd yn bosibl iddynt syrthio iddo? Er fod Principal Edwards yn gwrthod y golygiad mai *tybiaeth* yw y desgrifiad, eto y mae yr hyn a ddywed *nad* oedd yn rheswm dros y farn hono, yn ateb yr wrthddadl uchod yn llawn: "Nid y rheswm," meddai, "paham nas gallaf fabwysiadu y syniad hwn ydyw y byddai y fath dybiaeth yn gwneyd y rhybudd hwn yn afreidiol. Gallaf ddeall yn hawdd fod Duw yn rhybuddio ei bobl rhag perygl, ac ar yr un pryd yn bwriadu eu cadw rhagddo, ond yn defnyddio eu hofnau hwy o'r perygl yn foddion i gyflawni ei fwriad grasol." Dylid cofio yn barhaus mai gwedd *foesol* ac nid peiriannyddol a ddyry y Bibl ar yr athrawiaeth o Barhad mewn Gras. Nid yn annibynol ar ymdrech dyfal a gwastadol, ond *trwy* y cyfryw ymdrech, y mae y credadyn "yn gadwedig trwy allu Duw, trwy ffydd, i iachawdwriaeth."

## Hanesion a Darnau Detholedig.

### HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN, O'I DDECHREUAD HYD YN AWR.

*Gan y Parch.* JOHN OWEN, *Cenadwr.*

IX.

YN yr Adroddiad Cenadol am y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 1882, cawn yr hyn a ganlyn:—"Y mae yr Eglwys yn Dublin wedi dyoddef cryn lawer oddiwrth ymadawiadau i Gymru a threfi Lloegr; yr Eglwys yn llai o 18 nag ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Gellir dyweyd, yn wir, fod amrywiol bethau fel pe baent wedi ymuno â'u gilydd i filwrio yn erbyn yr achos bychan hwn yn y blynyddoedd diweddaf. Y mae y terfysg ag sydd wedi bod am amser maith yn cyffroi y ddinas drwyddi, wedi gadael ei ôl yn niweidiol arno, fel ar lawer o bethau daionus eraill. Y mae y parth isel o'r ddinas, yn yr hwn y mae y capel hefyd, ynghyd a sefyllfa dlodaidd yr adeilad ei hunan, yn rhwystr i rai ddyfod iddo, ag a fuasent yn dyfod oni b'ai hyn." Ac ysgrifena y Parch. J. R. Jones, y Cenadwr, am yr adeg hon yn ychwanegol fel hyn:—"Pe na buasai ond hyn ni chrybwyllasem am dano; yr hyn sydd yn ein blino yw, wedi i ni ddyfod ynghyd, y bydd yn anmhosibl ar adegau myned ymlaen gyda'r gwasanaeth crefyddol yn yr adeilad. Bydd yr ysgrechiadau, y bloeddiadau, y ¡llwon a'r rhegfeydd, y fath na ellir myned ymlaen. Curir drws y capel â ffyn ac â thraed; deuir ar brydiau i borth y capel i'lefain, gan beri i'r gynnulleidfa oddifewn fod yn fwy dychrynedig yn fynych nag y dylai fod, a mynych y teflir ceryg trwy y ffenestri." "Yr ydym yn hynod o galonog, o herwydd y derbyniad a gafodd ein cais gan y Gymdeithasfa, ac o herwydd yr addewidion am roddion haelionus gan gyfeillion i'r achos Cymreig nad ydynt o honom ni." Y cais y crybwyllir am dano yma ydyw, y cais am gael capel newydd mewn man mwy parchus ar y ddinas, gan fod y gymydogaeth lle y saif y capel, fel y gwelwn, ar y pryd wedi myned yn isel iawn, a llawer o bethau rhy frwnt i'w hadrodd yn cymeryd lle yn y cyffiniau.

Anfonwyd y Parch. S. Frazer, a Mr. Williams, Admiralty House, Caergybi, yma dros y Cyfarfod Misol, i edrych lle a fernid yn gymhwys. Cafwyd pris arno, ac er ei fod yn uchel yr oedd y Gymdeithasfa yn cymeradwyo i'w dderbyn. Ond cyfododd rhwystr; yr oedd y tir yn dir mewn ymddiried *(trust)*, a deuddeg o ymddiriedolwyr iddo, ac yn ol un o adranau yr ymddiriedolaeth, yr oedd yn rhaid i bob un o'r ymddiriedolwyr arwyddo cyn y gallesid gwneyd dim gyda golwg arno. Yn yr ymdrafodaeth hon, pan oeddys yn tybio fod y cytundeb ar gael ei sicrhau, fe gyfododd un wrthwynebiad, a gwrthododd ar bob cyfrif arwyddo, er siomedigaeth i'w gyd-ymddiriedolwyr, ac er profedigaeth fawr i'r ychydig Gymry yn y ddinas. Felly bu raid rhoddi heibio y bwriad o gael capel newydd, am beth amser beth bynag, gan nas gallesid cael safle well a mwy manteisiol yn yr holl ddinas, oni buasid yn cael yr un a nodwyd. Ond

> "Y peth sydd ddamwain ddall i ni
> Sydd oleu i arfaeth Iôn."

Y mae yn hawdd canfod heddyw ofal yr Arglwydd am yr Achos bychan hwn hyd yn nod yn y gwrthodiad, gan fod erbyn hyn reilffordd yn cael ei gweithio trwy y llanerch y bwriedid i'r capel fod; ac felly buasem o anghenrheidrwydd yn cael ein hamddifadu o hono, a buasai yn anmhosibl i ni, yn ol dim sydd yn y golwg ar hyn o bryd, gael lle i gyfateb yn

mhobpeth i'r man yr ydym. Ac y mae yr un rheilffordd yn symud ymaith hefyd lawer o'r hyn oedd yn peri blinder, sef tai bychain yn y gymydogaeth, yn y rhai y trigai nifer lïosog o Wyddelod isel, y rhai y mae yn ddiau oedd yn cymeryd rhan helaeth yn yr aflonyddwch. Erbyn hyn yr ydym yn teimlo y gallwn gymeryd peth hamdden, er edrych beth fydd effaith y cyfnewidiad ar y gweddill o'r tai cyfagos. Y mae Talbot-street yn cael ei gwella yn fawr, fel y mae yn dyfod yn heol fasnachol o bwys; a hyderu yr ydym y gellir ymhen ychydig amser ddwyn yr achos eto i sylw y Gymdeithasfa, gyda chymeradwyaeth gref i ailadeiladu ar y safle bresennol, yr hyn fydd yn foddion i arbed cryn lawer o draul. Y mae yn wir fod yr adeiladau wedi myned yn waelion, ac yn waelion iawn, yn gwbl annheilwng o'n cenedl ni, ac o'r Cyfundeb yn neillduol, gan mai efe ydyw yr unig un sydd yn cynnrychioli Methodistiaid Calfinaidd Cymru yn yr holl Ynys Werdd.

Y mae yr Adroddiad am y flwyddyn 1884, yr hwn a roddir gan Mr. Jones, yn galonogol: "Y casgliadau yn cynnyddu, y presennoldeb yn y cyfarfodydd yn rhagorol; y morwŷr yn hynod o ffyddlon i ddyfod i'r addoliad; llawer mwy o dawelwch i gario yr addoliad ymlaen nag a gafwyd er's blynyddoedd; a llai o ofn yn y gwrandawyr i roddi eu presennoldeb yn y cyfarfodydd; a mwy o bobl wedi eu hychwanegu at yr eglwys yn ystod y flwyddyn nag yn ystod y saith mlynedd blaenorol ynghyd; ond mai morwyr oeddynt bron oll, y rhai a gyflwynid i ofal y gwahanol eglwysi yn Nghymru."

Yr ydym yn deall mai cyfnod o deyrnasiad dychryn i raddau pell ydoedd y blynyddoedd hyn, yn neillduol y blynyddoedd 1881—3. Arswyd cerdded yr heolydd liw dydd, gan fod y si ar led fod y Protestaniaid i gael eu dinystrio, a'u lleoedd o addoliad i gael eu rhoddi ar dân; a chlywsom Mr. John Roberts, peirianydd, Caergybi, yn dyweyd ei fod yn mynychu y Capel Cymraeg hyd y gallai y pryd hwn, ond na byddai byth yn myned yno heb *revolver* llwythog yn ei logell, rhag y dygwyddai i ymosodiad gael ei wneyd arno. Pa mor bell yr oedd seiliau i'r ofnau hyn nid ydym yn sicr, ond yr ydym yn sicr na niweidiwyd yr un o'r Cymry er eu holl arswyd. Ond fel y sylwyd ar derfyn 1884, cawn fod yma fwy o dawelwch a llonyddwch; ac ar derfyn y flwyddyn 1885, y mae Mr. Jones yn gadael Dublin er cymeryd gofal eglwys Llangristiolus, Môn. Ar y 9fed o Ragfyr yr un flwyddyn y daethum innau yma. Rhif yr eglwys ar ein dyfodiad oedd 27; cyfanswm y casgliadau ar derfyn y flwyddyn oedd £57 18s. 6½c. Yr ydym pan yn ysgrifenu wedi treulio pedair blynedd a hanner yn Dublin; ac y mae yn dda genym allu dyweyd mai blynyddoedd o lonyddwch a thawelwch mawr ydyw y rhai hyn wedi bod. Y mae yr achos, er yn fychan, yn siriol a bywiog iawn, a'r morwyr a fydd yma ar y Sabbothau yn dra ffyddlawn yn ol eu hamgylchiadau i ddilyn moddion gras. Yn mis Mehefin, 1888, collwyd trwy farwolaeth frawd o'r enw Mr. David Williams, genedigol o Rhosybol, Môn, a fu yn ffyddlawn iawn gyda'r achos am dros 30 mlynedd; ac a fu yn athraw ffyddlawn a diwyd am y rhan fwyaf o'r amser yn yr Ysgol Sabbothol. Efe, ynghyd a Mr. Davies, oeddynt athrawon dosbarth y morwyr, ac yn ei le ef dewiswyd Mr. Lewis, Northumberland Hotel. Nid yn aml y mae yr eglwys yn Dublin wedi colli neb trwy farwolaeth; ac y mae hyn yn rhyfedd hefyd, ond dyna y ffaith, ac y mae llai na hyny o Gymry oedd mewn cysylltiad â'r achos wedi eu claddu yn nhir yr Iwerddon, ond y mae bron y cyfan wedi eu cludo at eu tadau i Gymru. Symud o Dublin i farw ydyw hanes cyffredin y Cymry, ond bu Mr. Williams farw yn Dublin, ac aed â'i weddillion i Fôn. Symudodd ei briod, a bu farw ymhen oddeutu blwyddyn ar ei ol.

Yr oedd y flwyddyn 1888 yn flwyddyn neillduol yn hanes yr Achos, gan mai 50 mlynedd i'r flwyddyn hon yr adeiladwyd y capel. Pan y deallwyd hyny daeth y brawd ieuanc Mr. William Jones, 47, Seville Place, at y brodyr i ofyn caniatâd i geisio casglu ychydig arian, er cael rhywbeth a fernid oreu er dathlu yr amgylchiad. Wrth gwrs fe ganiatawyd y cais yn rhwydd iawn, ac yr oedd yn llawenydd gan y brodyr oll synio fel yr oedd y gŵr ieuanc hwn yn teimlo tuag at yr Achos. Wedi y cychwyn yna, meddyliwyd o ddifrif am gael rhywbeth, a gwnaed cais at Gyfarfod Misol Môn am gael brawd nad oedd wedi bod erioed yn gwasanaethu yr Achos yn Dublin i ddyfod yma i'n cynnorthwyo i gynnal cyfarfod pregethu. Derbyniwyd y cais gyda sirioldeb mawr, a phenodwyd y Parch. John Williams, Dwyran, un oedd wedi bod am amser yn aelod o'r eglwys pan yn fachgen yma yn yr ysgol. Ac ar y Sabboth, Tachwedd 11, cafwyd y cyfarfod,—sef hanner can' mlynedd i'r diwrnod yr agorwyd ef. Yr oedd trefn y cyfarfodydd am y dydd fel y canlyn:—Am 10 y boreu, dechreuodd y Parch. John Williams, a phregethodd y Parch. John Owen, y cenadwr. Am 2 30 yn y prydnawn, dechreuodd y Parch. J. Owen,

a phregethodd y Parch. J. Williams. Am 6 yn yr hwyr cynnaliwyd cyfarfod neillduol, dan lywyddiaeth Mr. Davies, er dathlu yr amgylchiad. Dechreuwyd y cyfarfod gan Mr. Robert Jones, Seville Place. Yna cafwyd anerchiad gan y llywydd, yr hwn a daflai olwg dros 40 o'r 50 mlynedd y buwyd yn addoli yn y capel hwn. Yna galwodd ar y Parch. J. Owen i roddi braslun o hanes yr achos er ei gychwyniad, y modd y dechreuodd, ei symudiadau o'r naill fan i'r llall, hyd nes y cafodd le yn Talbot Street, a chipdrem dros ei hanes yno hyd ddydd ei Jubili. Yna galwyd ar Mr. William Jones, Seville Place, i gyflwyno y rhoddion i'r achos er dathlu yr amgylchiad, yr hyn a wnaeth mewn dull gwylaidd a phwrpasol. Yr oedd y rhoddion yn gynnwysedig o *chalice* at wasanaeth yr ordinhad o Swper yr Arglwydd, ac yn argraffedig arni: "Presented to the Welsh Church, Talbot St., Dublin, in commemoration of its Jubilee, 11th Nov., 1888;" ynghyd a dwy gwpan gasglu, a'r rhai hyny o gopr; i Llyfr Hymnau; 3 Llyfr Tônau. Ac yn ychwanegol at y pethau yna, Bibl hardd, a Llyfr Hymnau at wasanaeth y pulpud, a Llyfr Tônau a dderbyniwyd oddiwrth Miss Violet Watson, 25, Fitzwilliam Place. Yr oedd Miss Jones o'r un lle hefyd wedi anrhegu astell y pulpud yn y ffordd oreu a harddaf. Wedi i'r oruchwyliaeth yma fyned drosodd, galwyd ar Mr. R. Jones, Seville Place, a Mr. O. Roberts, North Strand, i wneyd ychydig sylwadau, a chafwyd anerchiad gafaelgar hefyd gan Mr. Evan Jones, Amiens Street, yr hwn a sylwai mewn modd grymus ar symudiadau yr achos, trwy ei gyferbynu â symudiadau yr arch gynt, ac amddiffyn rhyfedd yr Arglwydd drosto. Yna pregethwyd gan y Parch. J. Williams. Yr oedd y Sabboth hwn yn un i'w gofio gan bawb ydoedd yn bresennol ar y pryd; yr oedd rhyw naws nefol ar yr holl wasanaeth, o'r emyn cyntaf yn y boreu hyd yr emyn ddiweddaf yn yr hwyr. Yr oedd y fath hwyl gyda'r canu, fel yr oedd y Gwyddelod yn holi pa un a oedd genym gyfarfod neillduol y Sabboth hwnw. Ar ol hyn cyflwynwyd darlunlen hardd (yr hon erbyn hyn sydd wedi ei *fframio* a'i dodi i fyny yn y tŷ Capel), gan Mr. E. Jones, unig fab y diweddar Barch. E. Jones, fu yn genadwr yn Dublin, yr hwn sydd fud a byddar. Ar y ddarlunlen ceir darlun o'r capel a'r tŷ, dyddiad agoriad y capel, a dyddiad ei jubili, ac enwau pawb oedd wedi cyfranu er dathlu yr amgylchiad.

Erbyn hyn y mae yn agos i ddwy flynedd er yr amgylchiad yna, ac y mae yr achos yn parhau yn fywiog a siriol. Ar ddiwedd y flwyddyn ddiweddaf yr oedd nifer yr aelodau eglwysig yn 42. Cyfanswm yr holl gasgliadau yn £72 11s. 2½c.

Wel, Mr. Golygydd, yr ydym yn ofni trethu amynedd eich darllenwyr, neu buasem wedi ysgrifenu rhai pethau yn fanylach, a gwneyd nodiadau o berthynas i amryw frodyr fu yn ffyddlawn a charedig i'r achos. Hyderwn na bu y casgliad hwn, er ei holl anmherffeithrwydd, o hanes yr Achos Cenadol yn Dublin yn annyddorol, eithr yn hytrach y gweinydda i ddangos gofal ac amddiffyn yr Arglwydd dros ei achos, a'i ofal hefyd am genedl y Cymry, sef Cymry ar wasgar yn ninas Dublin a'i chyffiniau. Nid oes ond goleuni y dydd mawr diweddaf a ddengys y daioni sydd wedi deilliaw i'n cenedl trwy yr achos hwn, er na bu yr achos yn gryf ar unrhyw adeg, ond ymhell o hyny, a hyny o herwydd ansefydlogrwydd y Cymry yn y lle. Ond y mae, hyd y gallwn weled, wedi bod megys "llettŷ fforddolion" i dros 1000 o'n cydgenedl er ei ddechreuad, a chawn fod lliaws wedi eu bendithio yn ddirfawr trwyddo. Y mae yma rai brodyr a chwiorydd tra ffyddlawn, wedi bod ynglŷn â'r achos ar hyd y blynyddoedd. Bychan fydd ein cynnulliadau, ond yn unig ar nos Sabbothau; ond er dywedyd hynyna, hwyrach y deil eglwys Dublin i'w chymharu â llawer eglwys liosog yn y wlad, ac mewn trefi Cymreig. Ar wasgar y mae y Cymry yma; pellder y ffordd yn ei gwneyd yn anhawdd bod yn gyson: rhai yn preswylio dair, eraill bedair, a rhai naw milldir oddiwrth y capel; ac nid peth bychan ydyw i chwiorydd mewn gwasanaeth dalu chwe' cheiniog neu swllt am eu cludiad er d'od i'r moddion Cymreig. Wrth edrych yn ddiduedd ar yr achos hwn yn ei holl gysylltiadau, credwn fod Dublin yn un o'r meusydd cenadol pwysicaf a feddwn. Llawer morwr a welsom, wedi bod am fisoedd, ïe, blynyddoedd o'r naill borthladd i'r llall, wedi cyfarfod â llawer o stormydd, a rhai profedigaethau teuluaidd, yn dyheu am eu dyfodiad i Dublin, er clywed yr efengyl yn eu hiaith eu hunain.

Wrth derfynu, nid oes genym ond dymuno nawdd y Nef eto yn y dyfodol dros yr achos hwn, ac am i'r Arglwydd brysuro y dyddiau y bydd y fechan hon wedi myned yn fil, a'r wael hon yn genedl gref.

O.Y.—Galwyd ein sylw at gamgymeriad a wnaethom yn nechre llythyr VIII. pryd y dywedwyd ddarfod i Mr. R. F. Roberts adael Dublin yn y flwyddyn 1865. Ymddengys ei fod wedi bod yma

rai blynyddoedd ar ol hyn, ond ddarfod i Mr. G. Jones ddyfod yn gynnorthwywr iddo oddeutu yr adeg a nodwyd, a dilyn i'w le yn gyflawn ar ei ymadawiad.

---

GWYBOD, GWNEYD A BOD.

Y MAE tri pheth ag y rhaid i ddyn Duw ymestyn atynt mewn trefn i gyrhaedd hyn (bod wedi "ei gyflawn ddarparu i bob gwaith da"—Cyf. Diwyg.):—Gwybodaeth, ufudd-dod, a "chyfiawnder;" *gwybod* yn iawn, *gwneyd* yn iawn, a *bod* yn iawn. Mae'n rhaid wrth wybodaeth ysbrydol, ac ufudd-dod ysbrydol, mewn trefn i gyrhaedd y perffeithrwydd cymeriad, y perffeithrwydd mewnol hwnw a elwir yn "gyfiawnder." Neu, mewn geiriau mwy syml, mae'n rhaid *gwybod* yn iawn a *gwneyd* yn iawn mewn trefn i *fod* yn iawn. Hyd yn nod oddiar safle Diwylliant, fe gydnabyddir yr egwyddor hon. "Y mae y byd," ebe un o brif apostolion Diwylliant, "y mae y byd yn ei ymdrech i gyrhaedd perffeithrwydd, yn gweithio o dan ddau ddylanwad mawr, dylanwad gwybod a dylanwad gwneyd." Fe ystyrir mai un o'r prif rwystrau, os nad y prif rwystr, ar ffordd Diwylliant yw y duedd gref sydd mewn dynion i wahanu rhwng gwybod a gwneyd. Oni b'ai am y duedd ddinystriol hon, meddir, buasai Diwylliant wedi cyrhaedd ei milflwyddiant er ys talm. Mae y duedd i'w chanfod yn y cyfundraethau ac yn hanes y cenedloedd penaf. Y canlyniad yw, dynoliaeth unochrog, anferth: nid oes i'w cael, ar y cyfan, trwy yr oesoedd ond *deformities* o ddynion. Yn Groeg, yr awydd am *wybod* yn iawn oedd y dylanwad mawr. Ond drwy esgeuluso y dylanwad cyferbyniol fe aeth Groeg, er ei holl wybodaeth, yn ddiddeddf. Ymhlith yr Hebreaid, yr awydd am iawn ymddygiad, am *wneyd* yn iawn, oedd y dylanwad mawr. Ond drwy esgeuluso y dylanwad cyferbyniol—gwybod yn iawn—syrthiasant i ddeddfoldeb, ac o hyny i gulni ac ofergoeledd. Ac onid yw ymddygiad y Groegiaid a'r Iuddewon tuag at yr Efengyl yn profi fod y desgrifiad hwn yn gywir? Beth oedd yn peri fod yr Efengyl mor atgas yn nghyfrif y Groegwr? Nid y ffaith ei fod yn ceisio doethineb, eithr y ffaith nad oedd yn ceisio dim arall. Diau fod symlrwydd yr Efengyl yn gwrthdaraw yn erbyn ei ddeall balch; ond yr oedd ei chydnabyddiaeth dwfn o ddeddf yn gwrthdaraw mwy yn erbyn llygredd ei galon. Beth oedd yr achos fod yr Efengyl yn dramgwydd i'r Iuddew? Nid ei zel dros ddeddf, ond y ffaith nad oedd ei zel yn ol gwybodaeth. Yr oedd mor gul ac erledigaethus, fel pan ymddangosodd y Dysgawdwr dwyfol, yr oedd gormod o ¢angder, o ddoethineb, o fwyn resymoldeb yn ei ddysgeidiaeth iddo ef, ac nid oedd dim i'w wneyd ond ei groeshoelio. Ond, cofiwn, nid yw hyn ond esiampl o'r hyn sydd yn cymeryd lle yn barhaus pan y gwahenir y ddau ddylanwad mawr, sef yr awydd am iawn-wybodaeth ac am iawn-ymddygiad, oddiwrth eu gilydd. Gwneler ymddygiad yn bobpeth, a dirmyger gwybodaeth, a buan y cyrhaeddir drwy ddeddfoldeb a chulni i'r llygredigaeth dyfnaf oll—sef rhagrith, O'r ochr arall, gwneler gwybodaeth yn unig amcan a'r canlyniad eithaf fydd halogrwydd cnawd ac ysbryd. Pa un yw y mwyaf gwrthunus, ai y dyn deddfol dioleuni, ai ynte perchenog y wefus halogedig, er iddo fod yn llaith gan ddyfroedd mynydd athrylith, ni cheisiwn benderfynu. Ond un peth sydd sicr, nis gall y naill na'r llall byth gyrhaedd perffeithrwydd diwylliant heb son am berffeithrwydd ysbrydol. Hyd yn nod yn yr ystyr hon mae'n rhaid gwybod yn iawn, a gwneyd yn iawn, cyn y gellir bod yn iawn. Ond yr hyn y dymunwn bwysleisio arno yn awr yw, fod hyn yn wir mewn ystyr bwysicach fyth mewn perthynas i ddyn Duw. Mae yn rhaid i'r ddwy elfen hyn fod yn ei newyn a'i syched am gyfiawnder, onidê ni bydd ei gyfiawnder yn helaethach nag eiddo'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Y dyn sydd yn byw yn feunyddiol dan ddylanwad awydd angerddol am oleuni, am iawn-ddirnadaeth ysbrydol, ac a all ddyweyd yr un pryd, "Drylliwyd fy enaid gan awydd i'th farnedigaethau di," hwn, a hwn yn unig, sydd ar y ffordd i fod yn ddyn ysbrydol cymesur a chyflawn.—*Y Parch.* J. ELIAS HUGHES, M.A., *Llundain.*

## Barddoniaeth.

---

"DOS I'TH YSTAFELL, CAU DY DDRWS."

MATTH. VI. 6.

"Dos i'th ystafell, cau dy ddrws"
O olwg byd a'i glyw,
Heb unrhyw amcan ond myn'd i
Ymdrechu gyda Duw.
Er iti fod yn hollol fud,
A'r nef heb gael dy gri
Na ddigalona, bydd dy Dad
Yn hoff o'th "weled" di.

"Dos i'th ystafell, cau dy ddrws,"
Mewn hyder bob rhyw gam
Dy fod mewn lle y gelli gael
Dy fynwes oer yn fflam;
Os bydd cymylau yn crynhoi
O amgylch dy gudd gell;
Sonir mewn addewidion clir
Am *haul* heb fod ymhell.

"Dos i'th ystafell, cau dy ddrws"
Yn wylaidd, nid yn hyf;
Ac yno sugna faeth o'r nef
Mewn trefn i farw 'n gryf—
Os daw euogrwydd yn ei rym
I lethu d' ysbryd gwan;
Os myni hedd o fewn y fron,
Gwna 'n fawr o'r dirgel fan.

"Dos i'th ystafell, cau dy ddrws,"
A meddwl mawr am Dduw,
A chred bob dydd dy fod ar dir
Y gelli di gael byw.
"O nerth i nerth," dos yn y blaen
Trwy 'r dyrys anial fyd;
Ni byddi 'n ol o gael mwynhau
Y fendith oreu i gyd.

"Dos i'th ystafell, cau dy ddrws"
I wyddfod Dwyfol Rî;
Arllwys dy weddi—ni faidd neb
Byth ei beirniadu hi;
Os daw y diafol ar dy ol,
Ni erys yno 'n hir;
Anhawdd yw ganddo orphwys ar
Dy gysegredig dir.

"Dos i'th ystafell, cau dy ddrws,"
Daw Tad, Mab, Ysbryd Glân,
I'th gynnorthwyo yn y gwaith
Mewn undeb diwahan:
Dy serch a ä tu hwnt i'r ser,
Gwrandewir ar dy lef;
Rhifir dy ddagrau, cedwir hwy
Oll yn nghostrelau 'r nef.

"Dos i'th ystafell, cau dy ddrws,"
Anghofia ferw 'r glŷn;
Ymâd â'r llaid, a phob rhyw bwys,
Dring tuag ael y bryn;
Mae yno olygfeydd di-rif,
Rai hardda' fu erioed;
Dyrchafa pêrarogledd byw
P' le bynag sang dy droed.

"Dos i'th ystafell cau dy ddrws,"
Ac na bydd mwy yn drist;
Y mae addewid lawn o'th du,
A chref esiampl Crist.
Yn ol trefn amser daw y dydd
I adael byd o boen;
Sycheda beunydd am gael byw
Yn nghwmni 'r anwyl Oen.

EINION DDU.

*Tregeiriog.*

---

## Y PARCH. WILLIAM EVANS, TONYREFAIL.

ANERCH.

*Gan y Parch.* JOHN HUGHES, M.A., *Liverpool.*

UN o fy adgofion cyntaf am y Pulpud Cymreig, os nad y cyntaf oll, ydyw y Parch. W. Evans. Pregethai yn Nghwmafon ryw nos Sabboth, a chofiaf yn dda ei fod yn gofyn y cwestiwn ac yn ei ateb yn ol ei ddull cyffredin, "Pa beth yw Deddf?" A mi gan hyny ar ymweliad âg offeiriad mewn plwyf cyfagos i gartref y patriarch yn Medi, 1887, ymwelais âg ef. Yr olwg gyntaf a gefais arno oedd un hollol nodweddiadol o hen bregethwr—ei spectol ar ei lygaid, a'r Ysgrythyrau a'r *Dyddiadur* ar y bwrdd o'i flaen. Darllenai yn Llyfr Job ar y pryd, ac yr oedd y gair cyntaf a lefarodd yn brawf fod ei fyfyrdod yn ddwfn ynddo. "Dyma fi," meddai, yn ymyl tragywyddoldeb ac heb wybod dim am dano." Yr oedd yn dra phrydferth yr olwg arno, a chnwd o wallt toreithiog ar ei ben, ac yntau yn gant namyn ychydig, tuasai yn peri i bob copa walltog o wallt adferwyr y byd i wrido. Yr oedd yn dra difyr a dyddorol, ac yn llawn adgofion am yr hyn a fu. Yr oedd y gŵr yn hen ond y pregethwr yn ieuanc ac yn fyw, a chyda chyffyrddiad rhyw air o sylw neu ofyniad cyfodai y pregethwr i'r golwg yn ddisymwth fel cerub allan o arch. Cawsom aml ddarn o bregeth rhwng cromfachau yn nghanol yr ymddyddan, ac yr oedd yn hyfryd genym glywed y llais clochaidd peraidd, â gweled ysbryd yr hen bregethwr mor fyw ac mor lawn o efengyl ar làn y bedd. Yr oedd ei weled fel hyn yn ei henaint hardd yn llawn o efengyl, yn olygfa a drigodd gyda ni am dalm o amser; ac yn swn fy adgofion cyntaf am dano, a'r ymadrodd gyda'r hwn y cyfarchodd fi y tro hwn ar ein mynediad i'w ystafell, tafiwyd ni i ddwys fyfyrdod. Wrth edrych y dydd o'r blaen dros nodiadau o'r ymweliad, cawsom fod yr Awen wedi dyfod arnom, ac fel hyn y llefarodd:—

Fy nhad! fy nhad! hir yw cysgodau 'r hwyr,
A thithau eto yn aros yn dy le;
Mae cenedlaethau wedi myn'd yn llwyr
Er pan gyhoeddaist gyntaf Ras y Ne';
Mae 'r cedyrn fu yn cydgyhoeddi 'r hedd
Oll wedi tewi—unig wyt yn awr,
A thithau yn rhodio ar gyffiniau 'r bedd,
Gan syllu draw i'r tragwyddoldeb mawr.

Yr wyt yr un er pwysau blwyddi maith,
Yr un yw 'th ddifyr ddawn, yr un yw 'th ras;
Mae 'th ysbryd eto yn iraidd yn y gwaith,
Mae 'r udgorn arian eto yn ei flas;
Nid yw ei sain yn treiddio 'n awr ymhell,
Ond yn y glyn yr un hen udgorn yw,
A glywyd gynt yn dwyn newyddion gwell
Na pherlau 'r byd i dlodion dynolryw.

Mae darlun byw o honot yn fy ngho',
Pan rodiwn lànau 'r Afan aml ei lli',
Pan ddelet o Donrefail yn dy dro
A'th wedd, a'th ddawn, a'th lais i'n swyno ni;
Ac yn y pulpud elet ti yn ddau,
Mae rhai yn myn'd yn ddim, a dyna 'r pla;
Mae 'r cwestiwn a ofynaist yn parhau
Ei adlais yn fy meddwl—aros wna.

"Pa beth yw deddf?" hwn oedd y cwestiwn mawr,
Hwn fydd y cwestiwn byth i euog ddyn;
Gofynaist ef pryd hwnw i mi, yn awr
Gofyni ef yn ddwys i ti dy hun.
"Yn ymyl tragwyddoldeb dyma fi
Heb wybod dim am dano," oedd y llef
A glywais yn fy nghyfarch yn y tŷ,
Lle 'th welswn yn dy fri ar drothwy 'r nef.

"Pa beth yw deddf?" Nid wyf yn cofio yn iawn
Yr ateb ddaeth, atebaist ef mi wn;
Cyflym a pharod odiaeth oedd dy ddawn,
Ond treigliad amser a ddileo 'd hwn:
Mae 'r cwestiwn byth yn aros, "Beth yw deddf?"
Yn aros gyda mi a chyda thi;
"Yn ymyl tragwyddoldeb" meddi 'n lleddf,
Dan bwys yr hyn ofynaist gynt i mi.

"Pa beth yw deddf?" yw cwestiwn Duw i'r byd,
Y cwestiwn sydd yn chwerwi 'r adyn ffol,
Y cwestiwn sydd yn rhwygo 'r fron o hyd,
Y cwestiwn sydd yn dwyn pob bai yn ol:

Yn ymyl tragwyddoldeb chwyddo mae,
Nes lleuwi â'i hoil swn y llawr a'r nen,
Gan dynu ar bechadur ofnau gwae,
A holl daranau Sinai ar ei ben.

"Pa beth yw deddf? ' ni phoenaf mwy am hyn,
Na phoena dithau yn dy henaint hardd
Yn ymyl tragwyddoldeb gwel y Bryn,
Yn swn holl dònau 'r afon cofia 'r Ardd;
A gwel y Drugareddfa fawr yn Nghrist,
A'r Ddeddf yn dawel dan ei waedlyd fron
A chymmod llawn i bob pechadur trist,
A Duw ei hun yn gwenu arno 'n llon.

A'r hen gerubiaid dynodd gynt y cledd
I'n gyru allan o'r Baradwys glyd,
Yn awr â'u hesgyll yn dyferu hedd,
Ac yn dychwelyd gyda chân i'r byd;
A'r ddaear oll gan gymmod trwyddi chwardd,
A choed y maes yn curo dwylaw 'n llon;
A'r halogedig fyd gan saint a ddardd
A'r ddeddf ei hun yn fywyd dan y fron.

Dos dithau, hybarch dad, heb ofni mwy,
Y dde idf a blanwyd yn ei ystlys Ef,
Na th agwyddoldeb, canys gwyddost pwy
Yw 'r Brenin yno ar ei orsedd gref,
Yr Iesu hawddgar! Iesu, brawd y saint,
Bregethaist unwaith gyda nefol hoen,
Nid ydyw tragwyddoldeb er ei faint,
Ond Tŷ ein Tad a neithior fawr yr Oen.

*Liverpool, Awst*, 1890.

## Adolygiad y Wasg.

*Cofiant y Parchedig* JOSEPH THOMAS, *Carno, ynghyd a Detholion o'i Anerchiadau a'i Bregethau. Gan y Parch.* EVAN DAVIES, *Trefriw.*

*Gan y Parch.* N. CYNHAFAL JONES, D.D., *Llanidloes.*

PA faint o wasanaeth i Grist ac o ddaioni i'w genedlaeth all un dyn—un bywyd cysegredig—ei wneuthur? Un ran o'r tâl a gawsom am ddarllen y Cofiant uchod oedd clywed y cwestiwn yna yn cael ei ofyn gan y llais mewnol ac awdurdodol hwnw sydd yn gorfodi y meddwl i ystyried ac i geisio ateb. Un *dyn*—y fath dda neu ddrwg ellir o hono! Pa mor gyffredin bynag fo ei enedigaethfraint, a pha mor llethol bynag fyddo ei anfanteision, gall fod o fendith fawr i genedlaeth gyfan, ïe, i genedlaethau lawer. Yr oedd gwrthddrych y Cofiant hwn yn engraifft nodedig o hyny.

Gwelwyd Mr. Thomas unwaith, pan yn llanc, ar ffordd nid yw dda. I olwg dynion, y tebygolrwydd oedd y dygid ef gan y ffrwd faldorddus y meiddiai efe yn ddibris ymdaflu i'w llynoedd, ac yr ymorchestai i gellwair âg ysmaldod ei llifeiriant, gan ei chroesi yn ol ac ymlaen—y tebygolrwydd oedd yr aethai ei llif cynnyddol yn drech nag ef, ac y cludid ef ganddi i'r cenllif dwfn, llydan, hwnw sydd yn boddi pawb yn ddiwahaniaeth. Y fath yspeiliad ar Dduw, a'r fath golled i'r byd, fuasai hyny! Joseph Thomas ieuanc a'i "fwynder yn ymado fel cwmwl y bore, ac fel gwlith boreuol;"—y cynneddfau a fwriadwyd yn weinidogion rhinwedd wedi eu gwneuthur yn weision pechod; yr arfau a luniwyd i adeiladu wedi eu troi i ddinystrio. I hyny y mae doniau a gam-attelir yn myned. "Ac mi a felldithiaf eich bendithion chwi." O! y mae meddwl am y peth a allasai gymeryd lle y pryd hwnw yn peri i arswyd gerdded trosom! Gwir nas gallasai, ped aethai efe felly, fod o gymaint o felldith i'r byd, ag y bu, trwy ras Duw, o fendith iddo; oblegid nid ydyw pechod yn tynu allan alluoedd dynion nac yn eu symbylu i'r fath egnïon ag y mae crefydd yn gwneyd. Aros yn nghwsg y buasai rhai o'i alluoedd, a llesgâu a marw, o ddiffyg meithriniad, y buasai galluoedd eraill ynddo, oni buasai am ei dröedigaeth. Diau y buasai yn llygru llawer a ddaethent yn ei ffordd; ond buasai cylch ei ddylanwad yn llawer mwy cyfyng. Mae yn ddigon posibl, os nad yn debyg, na buasai nemawr neb y tu allan i Langynog a'i gyffiniau—neu yr ardal a gyfanneddasid ganddo—yn adwaen Joseph Thomas nac yn gwybod dim am dano, oni b'ai am ras Duw ynddo.

O ba gymaint bendith y bu y "gŵr o Garno" i'w wlad a'i genedlaeth, caiff darllenwyr y Cofiant hwn y fantais oreu i weled ac i farnu drostynt eu hunain; oblegid y mae Mr. Davies yn portreadu amgylchiadau bywyd Mr. Thomas yn fedrus ac yn ffyddlawn, ac yn dal Mr. Thomas ei hun yn eu canol yn union fel yr oedd, heb geisio cuddio dim oedd ynddo, na rhoddi ato ddim nad oedd yn perthyn iddo. Haeddasai y fath gymeriad a'r fath fywyd wasanaeth y wasg i'w cadw mewn cof; ac heblaw eu bod yn haeddu, buasai rhywrai sydd yn awr yn ieuainc, ac eraill a enir eto, ar eu colled pes cadwesid rhagddynt y fath gymhelliad i rinwedd a daioni ag a geir yn y gyfrol hon. Gellid dyweyd nad oedd gan nac yn Mr. Thomas ddim nad oedd yn ddyledus i Dduw am dano; eto, mewn ystyr arall, yr un mor wirioneddol, yr oedd yn ddyledus am yr hyn ydoedd a'r hyn a wnaeth iddo ef ei hun. Nid ffawd, ac nid amgylchiadau a adeiladodd ei gymeriad ac a wnaeth ei fywyd yn fendith i gynifer: efe ei hun, trwy rad Duw—Duw sydd yr un mor "oludog i bawb a'r sydd yn galw arno"—a wnaeth ei gymeriad a'i fywyd yr hyn oeddynt.

Gellir dysgwyl, gan hyny, y bydd hanes y fath fywyd yn ennyn gobaith ac yn cymhell ymroddiad yn mynwesau llawer o ddarllenwyr.

Yr oedd gwybodaeth Mr. Thomas yn eangach nag y tybid gan rai—rhai, hwyrach, a ddarllenent fwy nag ef; a gwnai dynion ieuainc yn dda ddal ar ei ffordd ef o ennill gwybodaeth. Nid gwybodaeth yw cruglwyth diorphen o ffeithiau a'u dyddiadau, wedi eu hystafellu yn drefnus yn y meddwl; nid yw y fath ystorfa, er gwerthfawroced, yn ddim amgen na defnyddiau gwybodaeth. Gwybodaeth ydyw y gyfrinach y mae y meddwl ymchwilgar wedi ei thynu allan o honynt trwy sylwadaeth fanwl a myfyrdod. Ceir rhai yn darllen llawer heb fod eu darllen yn ychwanegu nemawr ddim at eu gwybodaeth. Mae yn ddiammheu iddynt gael llawer o foddhad yn yr helyntoedd ac yn y dygwyddiadau y darllenasant am danynt; ac, hwyrach, y gallent adrodd y pethau yn drefnus i eraill; ond nid ydynt yn adfyfyrio arnynt, nac, oblegid hyny, yn cael dim allan o honynt. Tuag at feddiannu y wybodaeth a ddysgir gan ddygwyddiadau hanesiaeth, y mae yn rhaid wrth bwyll a dyfalwch. Nid gwiw cymeryd yn ganiatäol fod yr hyn a awgrymwyd i'ch meddwl gan ryw un ffaith unigol yn ddeddf hollbresennol, neu yn wirionedd cyffredinol; rhaid cadw yr awgrym hono yn y meddwl, nes gweled beth a ddywed ffeithiau eraill am dani. Os methir, ar ol ymofyn yn ngoleuni dygwyddiadau eraill, a chael fod dim yn attegu yr awgrym, rhaid ei hammheu neu ei bwrw ymaith; ond, os ceir fod ffeithiau eraill, yn gyffredinol, yn ei chadarnhâu, yna y mae yn dyfod yn rhywbeth amgen nag awgrym—y mae yn wybodaeth—yn wybodaeth werthfawrocach nag aur coeth lawer. Yr oedd Mr. Thomas yn rhagori yn y peth yma yr ydym yn son am dano. Pa un bynag ai darllen llyfr ai ynte darllen dynion y byddai—a byddai yn gwneyd y naill neu y llall bron yn wastad—daliai yn ddyfal ar y ffeithiau a'r dygwyddiadau a ddygid i sylw, nid er mwyn cofio i'r cyfryw bethau gymeryd lle, ond er mwyn meddwl arnynt, a chael allan beth a ddysgid ganddynt. Pan yn aros yn ei dŷ un Sabboth, daeth ei Fibl—y Bibl a arferid ganddo fwyaf, gallwn feddwl—i'm llaw. Yr oedd ymylon ei ddail yn frith o sylwadau ac o arwydd-nodau dyeithriol. Dyddorol iawn oedd edrych dros Lyfrau Josua, Barnwyr, y Breninoedd, a'r Croniclau, a gweled y sylw oedd y dygwyddiadau a goffeir ynddynt wedi eu cael ganddo. Nis gallwn *I* wneyd allan ystyr llawer nôd a gair oedd ar ymyl y dail; ond yr oedd yn hawdd gweled iddo fod yn meddwl llawer am y ffeithiau a'r hanes yr oedd y cyfryw nodiadau yn dal cysylltiad â hwy. Hyn oedd yn ei alluogi i wneyd defnydd mor helaeth a defnydd mor fuddiol o hanesion y Bibl.

Peth arall y byddai yn dda i ddynion ieuainc, yn enwedig pregethwyr ieuainc, geisio ei efelychu oedd y *sirioldeb* a'r *llawenydd* oedd yn aros ynddo. Ond, yn enw Duw! gofaler ei fod yn wir lawenydd—y llawenydd y mae Crist yn ei roddi. Ei siriol deb a'i lawenydd gwastadol, hwyrach, yn fwy na dim, oedd yn gwneyd Joseph Thomas yn "ŵr anwyl" gan bawb; ac y mae yn ddiddadl i'r doniau hyn ynddo ychwanegu yn ddirfawr at ei ddefnyddioldeb a'i lwyddiant fel gweinidog yr efengyl. Ni ddylai gwas yr Arglwydd fod yn anfoddog a dreng, nac yn dawedog a phendrist. Pwy erioed a gafodd fendith dan weinidogaeth ysbryd a wisgai y fath briodoleddau andwyol? "Os oes arnoch eisieu tori fy nghalon i, a'm gwneyd yn dda i ddim ond i farw," ebai y diweddar Barch. G. Williams, Talsarnau, "gyrwch fi i *lodgio* dros y Sabbath at Mr. ——."

Dichon fod y siriol deb a nodweddai Mr. Thomas, mewn rhan, yn "ddawn natur" ynddo; ond y mae yn ddiammheu hefyd ei fod, i fesur mawr, yn ffrwyth diwylliant, am y gwyddai fod bod yn llawen yn ddyledswydd grefyddol. Dywedai un gŵr enwog a duwiol am dano ei hun—y diweddar Dr. Liefchild, "I have ever been of a naturally cheerful and sociable disposition. I inherited a constitutional hilarity and vivacity from my father, and in my riper years I cherished it from principle." Yn debyg y bu, yr ydym yn tybio, gyda Mr. Thomas. Ac fel pob dawn werthfawr arall, yr oedd yn ychwanegu at effeithiolrwydd ei fywyd a'i weinidogaeth. Pa le bynag y byddai, yr oedd mor naturiol i'w siriol deb ymdaenu ag ydyw i'r rhosyn wasgar ei berarogl; ac âi pawb o'i gwmpas i'r un dymher ag yntau; a defnyddio un o'i eiriau ef ei hun, yr oedd ei lawenydd yn *catching*. Pan yn ymweled â'i bobl yn Ngharno yn eu tai, pa mor gymylog bynag y dygwyddai eu diwrnod fod, teimlent ar unwaith fod ei bresennoldeb fel tywyniad heulwen arnynt. Yr oedd ganddo ef rywbeth i'w ddyweyd i'w cynnal a'u sirioli. Am yr helbulon a'u blinent, dygai hwy i edrych arnynt o ryw gyfeiriad arall—yr oedd ryw drugaredd yn ymguddio yn y cwmwl a ofnent. Digon posibl fod eu trallod presennol wedi dyfod arnynt fel na ddygwyddai rhywbeth arall, rhywbeth llawer gwaeth. A beth *al'asai* fod wedi dygwydd iddynt?

Peth mor fach oedd hyn rhagor hyny? Ac ymhellach, deuai haul ar ol y gwlaw:—

"Mae 'r hyfryd wawr sy 'n tori draw
Yn dyweyd fod bore braf gerllaw."

Mewn ffordd debyg i hona y sychai efe ddagrau y trallodus, ac y dygai lawenydd i dŷ galar.

Newidiwyd tôn llawer Cyfarfod Misol trwy rinwedd y ddawn yma oedd gan Joseph Thomas. Hwyrach mai y blaenoriaid fyddai yn adrodd eu profiadau. neu yn dyweyd hanes yr achos yn y lle, Ar y pryd, nid oedd fawr o lewyrch ar y profiad; a thrwy eu llygaid gwlybion nis gallent weled dim ond pethau i'w digaloni yn amgylchiadau yr achos. Dygwyddai fod y brawd oedd yn holi y blaenoriaid wedi ymollwng, a myned yn llipryn diymadferth i'w canlyn wrth eu gwrando; ac, fel y gallesid dysgwyl, yr oedd prudd-der wedi ymdaenu dros y cyfarfod, a'r holl frawdoliaeth yn anadlu yn y cywair lleddf. Ond dyna Mr. Thomas ar ei draed. Mae y trymder pruddglwyfus oedd yn llethu y cyfarfod wedi ysgafnhau mwy na'r hanner gan yr olwg arno, cyn iddo ddywedyd un gair. Y mae yn siarad: sieryd am "chwychwi yw y rhai a arosasoch gyda mi yn fy mhrofedigaethau;" ac am "Yr wyf Fi yn ordeinio i chwi deyrnas;" a sonia yn fedrus am "helpio Iesu Grist i fyn'd â'i achos i fyny y rhiw;" geilw ein sylw at "y fraint oeddem yn ei chael wrth wneyd rhywbeth gydag achos ag y mae yn rhaid iddo lwyddo," ac at yr hyn sydd yn aros y "gweision ffyddlawn." Ymhell cyn iddo orphen, yr oedd y llwfrdra a'r digalondid wedi ffoi o bob mynwes, a phawb yn llawenhau yn yr Arglwydd. Beth pe gollyngasid y blaenoriaid a'r pregethwyr adref at eu deadelloedd yn yr ysbryd a'r dymher a'u meddiannent cyn i Mr. Thomas godi i fyny i siarad? Buasai y fath bruddglwyfni a llwfrdra yn ddigon i ladd yr achos mwyaf blodeuog yn y wlad mor gyflym ac mor effeithiol ag y mae gwynt Hydref yn lladd gwyrddlesni yr haf.

Yr un modd, drachefn, yn y pulpud: yr oedd y diolchgarwch a'r llawenydd a breswylient mor helaeth ynddo ef ei hun, a'r olwg glir ac eang oedd ganddo ar y ffynnonellau o ba rai yr oeddynt yn tarddu—gras a daioni Duw—yn ychwanegu yn ddirfawr at lwyddiant ei weinidogaeth.

Dywed Mr. Davies yn y Cofiant (Pen. XI.) fod Mr. Thomas yn fedrus a llwyddiannus yn y gwaith o gymmodi brodyr fyddent mewn anghydfod, ac o adfer heddwch mewn eglwysi terfysglyd. Oedd, pan y byddai pwyll a thynerwch a mwyneidd-dra doethineb yn ddigonol i wneyd hyny. Ond gŵyr pawb fod yn ein heglwysi, weithiau, rai dynion nad ydyw y cynneddfau gwerthfawr uchod yn mêdu dim arnynt, mwy na phlyf ar wenithfaen. Mewn rhai amgylchiadau y mae yn rhaid ymwroli, costied hyny a gostio i ni, i ddyweyd gwirioneddau llymion yn ddiamwys yn wynebau gwrthwynebwyr. Y mae yr Arglwydd Iesu wedi rhoddi i'w ddysgyblion "awdurdod ar seirph ac ysgorpionau;" ac, weithiau, yr ydys mor rhwymedig i wisgo yr "awdurdod" hono ag ydym mewn amgylchiadau cyffredin i arddel addfwynder a hirymaros ein Harglwydd. Rhaid weithiau, yn absennoldeb edifeirwch a diwygiad, "draddodi i Satan, fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig." Pan y byddai anghen am wneuthur hyn, rhaid addef fod Mr. Thomas yn ofnus a phetrusgar. Yn nghanol ei ragoriaethau aml, dysglaer a gwerthfawr, yr oedd hyn yn ddiffyg amlwg ynddo—*yr oedd yn rhy ofalus am dano ei hun.* Pan y byddai uniondeb yn cael cam, a chyfiawnder yn gwaedu yn yr heol, nid oedd efe mor barod ag y buasai yn ddymunol i anturio i'r perygl er eu hamddiffyn. Pan y byddai yn rhaid diarddel aelod o eglwys Carno, anfynych—prin byth—y byddai efe yn bresennol i wneuthur hyny. Ennillai rywbeth wrth ymddwyn felly; ond, a oedd yn werth ei ennill, yn y pen draw? Llawenychai yr apostol Paul yn ei ddyoddefiadau dros Grist a thros y saint; nid oedd mewn un modd yn cywilyddio o'i fod yn dwyn yn ei gorff nodau—*stigmata*—yr Arglwydd Iesu.

Yn nghanol y galwadau lawer oedd arno, a'i ymroddiad yntau i wasanaethu ei Gyfundeb a'i genedl yn gyffredinol, gofalai yn ddyfal am yr achos o fewn cylch ei Gyfarfod Misol ei hun; ac anfynych iawn y byddai yn absennol o'r Cyfarfod Misol. Sicr iawn, pregethai ymhob un lle y byddai, a cheid ganddo bregeth newydd bron yn wastad. Y peth gwerthfawrocaf o ddim i ni ynglŷn â'i goffadwriaeth ydyw y *cynnydd amlwg mewn addfedrwydd a melusder ysbrydol* oedd i'w weled ynddo yn ei flynyddoedd olaf, bron o fis i fis. Clywsom ef lawer gwaith yn ei hwyliau goreu yn ein Cymdeithasfaoedd, a mynych y gwelsom ef yn "feistr y gynnulleidfa" mewn cyfarfodydd pregethu; ond ei gofio yn y Cyfarfod Misol, a phregeth newydd ei myfyrio yn *fresh* yn ei ysbryd, yn yr hon y ceid ei ethau "newydd a hen," a'r hen mor newydd â'r newydd, gan faint y newydd-deb oedd yn nheimlad ac ysbryd y pregethwr—yr eneiniad oddiwrth y

Sanctaidd hwnw yn toddi y pregethwr ei hun, ac yn gorchfygu y gynnulleidfa—dyna yr adgof sydd genym am Joseph Thomas yn ei ogoniant mwyaf.

Gwelwn fod ein hysgrif yn myned yn faith, ac nid ydym wedi dyweyd ond ychydig am y Cofiant. Rhaid i ni ddyweyd llawer mewn ychydig eiriau; y mae, os nad y goreu oll, yn un o'r Cofiantau goreu yn ein hiaith. Y mae yn dda iawn genym i goffadwriaeth ein hanwyl frawd a thad ddisgyn i ddwylaw ysgrifenydd mor ffyddlawn a medrus.

Yn niwedd y Cofiant y mae dwy Farwnad, y naill gan awdwr y Cofiant, a'r llall gan y Parch. J. P. Roberts, Towyn. Barnwyd y ddwy yn gyd-fuddugol mewn cystadleuaeth ynglŷn â Chymanfa Flynyddol Ysgolion Sabbothol Dosbarth y Drefnewydd, gan y bardd a'r beirniad galluog Tafolog. Mae yn dda iawn genym weled i Mr. Roberts—gweinidog ieuanc parchus yn Nghyfundeb y Wesleyaid—gael ei gynhyrfu i gyfansoddi Marwnad ar y testun: y mae hyn yn cynghaneddu yn dda â'r catholigrwydd a nodweddai Mr. Thomas mor fawr. Yn y Farwnad gyntaf—eiddo Mr. Evan Davies — ceir desgrifiad byw, mewn barddoniaeth bur a dyrchafedig, o Mr. Thomas. O gwpled i gwpled o hyd daw y darllenydd i olwg rhinweddau a nodweddion neillduol y gwrthddrych, gwedi eu rhoddi i gadw "megys afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig." Ac am Farwnad Mr. Roberts, nid yw yn amddifad o rai rhagoriaethau: ond nis gallwn, ar un cyfrif, ei hystyried yn gyfartal â'r Farwnad gyntaf. Yn un peth, tybiwn fod yn y gyntaf bortread mwy byw a mwy cywir o neillduolion a rhagoriaethau Mr. Thomas, nag a geir yn y llall; eilwaith, y mae y farddoniaeth a geir ynddi, yn llai trystfawr, bid sicr, ond yn fwy pur a sobr; a thrachefn, y mae y gyntaf yn rhagori llawer mewn dillynder coeth a dyrchafedig.

Prin y mae Mr. Roberts, yn fynych, yn dyweyd ei feddwl yn eglur. Cymerer y pennill cyntaf fel engraifft:—

"Fel hiraeth pur gariad
Sy 'n ochain am golled, yn ddrylliog ei deimlad
Uwch beddrod un anwyl—un mawr wedi cefnu,
Sy 'n gorwedd 'r un beddrod â chalon y Cymru."

"A chalon y Cymry" a feddylid, yn ddiammheu. Mr. Thomas, mae yn deb yg, sydd i'w ddeall wrth

"Un anwyl—un mawr wedi cefnu;"

ond pwy a feddylir wrth "galon y Cymry" sydd yn gorwedd yn yr un beddrod ag ef? Gallwn *ddyfalu* beth oedd yn meddwl yr awdwr; ond ni ddylid rhoi y fath anghenrhaid ar y darllenydd, yn enwedig pan na bo dyfnder yn peri aneglurdeb. A pha beth a feddylir o chwaeth yr awdwr, pan y dywed yn un o'r pennillion nesaf—"yn nghanol y cyffro"—uwchben y bedd yn monwent Carno?—

"Yr aweu a ddeffry,
Gan estyn ei dwylaw yn ddyfnion i'r gwely
Lle gorphwys anwyl-ddyn, hi fyn ei gofleidio
Cyn adrodd ei hanes."

Nid yw y Gân hon, fel y dywedwyd, heb fod ynddi rai sylwadau tlysion a barddonol; ond y mae yn lled lawn o frychau a meflau o fath y rhai a nodwyd

Yr ydym yn llawenhau yn fawr wrth ddeall fod yr argraffiad cyntaf—argraffiad o dair mil—yn tynu at gael ei werthu allan i gyd; ac yr ydym yn deall nad ydyw eto wedi cyrhaedd pawb ag sydd yn sychedu am ei gael, nac yn agos.

## Newyddion Cyfundebol.

### Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Rhydycilgwyn, Medi 25 a'r 26ain, rhoddwyd derbyniad croesawgar i'r Parch. R. Davies, Workington, o Gyfarfod Misol Liverpool, ar ei ddyfodiad i gymeryd gofal eglwysi Rhuallt a Phenycefn. Dadganwyd y dymuniadau goreu am ei lwyddiant a'i gysur. Ymddyddanwyd â'r myfyrwyr o'r Cyfarfod Misol hwn sydd yn awr yn Ngholeg y Bala a cholegau eraill; llongyfarchwyd hwy ar eu llwyddiant, yn enwedig Mr. T. E. Jones, Gyffylliog. Cafwyd anerchiad gan y Parch. T. Roberts, Jerusalem, ar ran y Gymdeithas Genadol Gartrefol. Diolchwyd i Mr. Roberts am ei ymweliad a'i anerchiad.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fynwy, a gynnaliwyd yn y Gelligroes, Medi 25ain, cafwyd adroddiad dymuncl a chysurus am ansawdd yr achos crefyddol yn y lle; a rhoddwyd annogaeth wresog i'r cyfeillion roddi galwad ffurfiol i'r Parch. Jeremiah Davies i ofalu am yr eglwys fel ei gweinidog. Darllenwyd llythyr o Gyfarfod Misol Gorllewin Morganwg yn cyflwyno Mr. Evan Davies, o Langyfelach, i'r Cyfarfod Misol hwn, ar ei ddyfodiad i fod yn weinidog eglwys Llaneurwg. Hefyd, oddiwrth Gyfarfod Misol Sir Gaer-

fyrddin, yn cyflwyno Mr. John Griffiths, gynt o Lanelli, ar ei ymsefydliad yn Salem, Nantyglo. Rhoddwyd i'r ddau frawd dderbyniad croesawgar.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, nos Fercher, Medi 24ain, rhoddwyd rhan helaeth o'r cyfarfod i anrhydeddu coffadwriaeth y diweddar Mr. J. W. Jones, diweddar lywydd y Cyfarfod Misol, a'r hwn a lanwasai y swydd o Ysgrifenydd y Cyfarfod Misol am lawer o flynyddoedd yn effeithiol ac anrhydeddus. Gwnaed sylwadau ar gymeriad a llafur Mr. Jones gan y llywydd, y Parch. E. James Jones, M.A., a'r Parchn. W. Prydderch Williams, J. E. Davies, M.A., a Mr. Hugh Edwards, Shirland Road. Dygwyd y tystiolaethau uchaf i'w grefydd bersonol, i'w synwyr da a'i wybodaeth eang, i'w fedr a'i ymroddiad dihafal i wasanaethu achos Crist, ac i ragoriaethau amryfal ei gymeriad a'i waith: a dadganwyd cydymdeimlad dyfnaf y Cyfarfod â'i weddw a'r plant yn eu profedigaeth lem. Derbyniwyd adroddiad yr arholwyr ar achos ymgeisydd am y weinidogaeth, Mr. Robert Parry, B.A. Rhoddasant dystiolaeth o'u boddlonrwydd hollol i'w atebion; ac wedi iddynt ei holi ar lafar ger bron y Cyfarfod Misol, penderfynwyd fod yr ysgrifenydd yn cael ei awdurdodi i drefnu gyda swyddogion y gwahanol eglwysi fel y byddo i Mr. Parry gael cyfle i bregethu o leiaf deirgwaith ymhob capel yn ystod ei flwyddyn brawf.

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd yn Llandegfan, Medi 28 a'r 29ain, gwnaethpwyd coffâd hynod o barchus am y diweddar Barch. Joseph Jones, Menai Bridge. Cyfeiriwyd at ei allu fel pregethwr yn y ddwy iaith, at ei lafur gwerthfawr fel cychwynydd lläws o'r Achosion Seisonig, ac at ei ymroddiad diflino a'i zel gyda gwaith y weinidogaeth.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Hermon, Medi 15 a'r 16eg, hysbyswyd fod llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth G. J. Roberts, Ysw., U.H., Trefarthin, yn mynegu fod y Cadfridog Rowlands, Plastirion, wedi anrhegu y Cyfundeb â'r tir ag y mae capel Clegyr, Llanberis, wedi ei adeiladu arno. Ar gynnygiad T. P. Lewis, Ysw., A.S., Bangor, yn cael ei gefnogi gan y Parch. R. W. Hughes, Llanberis, pasiwyd pleidlais unfrydol a gwresog o ddiolch i'r Cadfridog Rowlands am ei garedigrwydd mawr, ac hefyd i Mr. Roberts, Trefarthin, am ei garedigrwydd yn gosod y cais ger bron y Cadfridog. Pasiwyd y penderfyniad yn dadgan dymuniadau goreu y Cyfarfod Misol ar ran Dr. Griffiths, yr hwn oedd yn bresennol yn y Cyfarfod am y tro olaf cyn dychwelyd i Khassia.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Salem, ger Llanrwst, Medi 24 a'r 25ain, darllenwyd papyr rhagorol gan Mr. W. J. Williams, Regent House, Llanrwst, ar "Y modd i ddarllen y Bibl," a chafwyd trafodaeth fuddiol ar y mater. Cyflwynwyd diolchgarwch i Mr. Williams am yr anerchiad. Rhoddwyd llythyr cyflwyniad serchog i Henaduriaeth Trefaldwyn i'r brawd ieuanc Mr. John Roberts, Colwyn Bay, ar ei waith yn ymsefydlu fel bugail ar eglwysi Seisonig Bettws a Brooks, gerllaw Drefnewydd, gan ddymuno ei gysur a'i lwyddiant Rhanwyd sypynau bychain ar gyfer pob lle o lythyr argraffedig y Parch. W. Williams, Abertawe, ar gylchrediad y Drysorfa. Rhoddwyd annogaeth i'w ddarllen yn yr Ysgolion Sabbothol, ac yn yr eglwysi. Galwyd sylw at ragoriaethau y Drysorfa, a dymunwyd ar i ymdrech neilldiol gael ei wneyd ar ddiwedd y flwyddyn i helaethu ei chylchrediad. Hysbyswyd fod ei chylchrediad eisoes wedi ychwanegu o fewn cylch y Cyfarfod Misol.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Llandilo, Hydref 7 a'r 8fed, talodd dwy o'r boneddigesau a benodwyd gan y Cyfarfod Misol i gasglu at ddileu dyled capel Siloh, ymweliad â'r Cyfarfod Misol—Mrs. Evans, Vaughan-street, a Mrs. Hughes, Siloh. Yr oeddynt wedi llwyddo i gasglu dros £500. Dadganodd y Cyfarfod ei lawenydd am y brwdfrydedd a'r llwyddiant sydd wedi dilyn ymdrech y boneddigesau teilwng hyn, ei diolchgarwch iddynt am eu gwasanaeth gwerthfawr, a sicrhâd o bob cefnogaeth iddynt i orphen y gwaith. Cyflwynodd y Parch. T. James, M.A., gofion cynhesaf Mr. Alderman James, Llanymddyfri, at y Cyfarfod Misol, a phasiwyd i anfon llythyr o gydymdeimlad âg ef yn ei gystudd blin a maith. Gwnaed coffâd parchus am y brodyr ymadawedig, y diweddar Barchn. Daniel Williams, Caio, a John Davies, Llanymddyfri.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Penmaenmawr, Hydref 13 a'r 14eg, agorwyd yr ymdriniaeth â'r mater penodedig, "Geirwiredd," gan y Parch. J. Owen, Bettws-y-coed, i'r hwn y rhoed pleidlais unfrydol o ddiolch.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Bryncrug, Hydref 13 a'r 14eg, darllenwyd papyr gan y Parch. J. Roberts, Corris, ar "Hapchwareuon;" ar yr hwn y cafwyd trafodaeth helaeth. Cyflwynwyd diolch-

garwch y Cyfarfod i Mr. Roberts am ei anerchiad, a phenderfynwyd iddo ei anfon i'w argraffu i'r Drysorfa.

---

## CYFARFODYDD PREGETHU.

MIDDLESBRO.

Nos Sadwrn a'r Sabboth, Medi 20, 21, cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol y lle hwn. Pregethwyd gan y Parch. Proffeswr Ellis Edwards, M.A., Bala.

CEFN IWRCH, MON.

Nos Fawrth a dydd Mercher, Medi 30ain a Hydref 1af, cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol yr eglwys uchod. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Robert Hughes, Gaerwen; John Richard Hughes, Tabernacl; John Williams, Llangefni; Owen Hughes, Fron; Richard Williams, Ty'n yr Onen; R. Thomas, Llanerchymedd; J. M. Jones, Tabernacl; R. Hughes, Tŷ Mawr.

FOCHRIW.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol y lle hwn nos Sadwrn, Sabboth a Llun, Medi 27ain, 28ain, a'r 29ain. Gweinyddwyd gan y Parchn. D. Lewis, Llanstephan; J. Morgan, Dinas; a T. Parry, Beilidu

DERI.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol y lle hwn Sabboth a Llun, Medi 21 a'r 22ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. Lewis, Cwmparc; T. C. Thomas (yn Saesoneg); a T. Davies, Treorci.

RHYL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol capel Clwyd Street, nos Sadwrn, Sabboth a Llun, Hydref 11, 12, a'r 13eg. Pregethwyd gan y Parchn. Abraham Oliver, Pontardulais; William Jones, Liverpool; a G. Parry, D.D., Carno. Casglwyd dros £87 at ddileu dyled y capel, a dysgwylid gydag addewidion heb eu cyflawni wneyd y swm yn £100.

PONTARDAWE.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol y lle uchod, Sabboth a Llun, Awst 31ain a Medi 1af. Pregethodd y Parchn. H. Barrow Williams, Llandudno; J. Williams, Trecastell, ac Isaac Richard Morgan, y gweinidog. Casglwyd yn ystod y cyfarfodydd £96 3s. 1c.

DARRENFELEN, LLANELLI.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol y lle hwn Sabboth, Medi 7fed. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. M. Phillips, o Goleg Caerdydd.

CARMEL, ABERAVON.

Traddodwyd Darlith yn y lle uchod, nos Fawrth, Medi 9fed, gan y Parch. E. Rees *(Dyfed)*, ar ei ymweliad â Gwlad Canaan. Rhoddir canmoliaeth mawr i'r ddarlith. Llywyddid gan Evan Phillips, Ysw., Maer y dref.

HOREB, KIDWELLY.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol y lle hwn Medi 7fed. Pregethwyd gan y Parchn. R. Towy Rhys, Rhandirmwyn, a T. Lamb, Morfa.

LLANELLI, CAERFYRDDIN.

Cynnaliodd Eglwys y Capel Newydd ei Chyfarfod Pregethu Blynyddol Sabboth a Llun, Medi 14 a'r 15fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. C. Phillips, Abercarn, a W. R. Jones, Caergybi.

CROESOSWALLT.

Cynnaliwyd *Bazaar* hynod o lwyddiannus gan gyfeillion y Capel Seisonig, Albert Road, yn y dref hon, yn mis Medi. Cymerodd Dr. Stoughton a Madame Edith Wynne ran yn y gweithrediadau. Gwnaed yn agos i £600.

BADUCHAF, PONTYPRIDD.

Cynnaliwyd Cylchwyl Flynyddol y lle uchod Sul a Llun, Medi 28 a'r 29ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. James, Aberdâr; T. Davies, Treorci, a D. Oliver, Rhymney.

---

## MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. DANIEL WILLIAMS, CAIO, SIR GAERFYRDDIN.

Bu farw y gweinidog hybarch hwn, ar ol byr gystudd, nos Sadwrn, Medi 6ed, yn 80 mlwydd oed, ac wedi bod yn pregethu am 56 o flynyddau. Yr oedd yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau, yn gyflym, ac yn gyflawn. Byddai ei weinyddiadau cyhoeddus bob amser yn gymeradwy. Yr oedd wedi ei ordeinio yn y flwyddyn 1861. Cafodd gladdedigaeth anrhydeddus. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Dr. Saunders, Rees Phillips, Aberafon; T. E. Thomas, Llanymddyfri; J. Morris, Llansawel; R. T. Rees, Salem; C. Chidlaw (ficer); a T. Job, Conwil.

Y PARCH. JOSEPH JONES, PORTHAETHWY.

Dydd Iau, Medi 18fed, bu farw y gweinidog adnabyddus a phoblogaidd hwn, yn ei breswylfod yn Menai Bridge, yn 70 mlwydd oed. Yr oedd Mr. Jones yn bregethwr doniol a phoblogaidd yn y ddwy iaith. Bu am lawer o flynyddoedd yn fawr ei ddylanwad a'i

ddefnyddioldeb ymysg Eglwysi Seisonig y Goror, pan yn weinidog yr Eglwys Seisonig yn Ngwrecsam, ac yn Ysgrifenydd y Gymdeithas Genadol Gartrefol. Cydnabyddid ef fel Esgob Eglwysi y Goror. Symudodd i Sir Fôn yn y flwyddyn 1867, i gymeryd gofal gweinidogaethol yr eglwys yn Menai Bridge. Yr oedd yn ŵr siriol a bywiog ei dymher, o ymddangosiad boneddigaidd, o ddawn hylithr yn y ddwy iaith, ac yn llawn o yni a gweithgarwch, a chyflawnai ei waith yn fedrus. Ond "gostyngwyd ei nerth ar y ffordd" tua deng mlynedd yn ol, gan ymosodiad o'r parlys, a "difuddiwyd ef o weddill ei flynyddoedd." Collodd ei barabl er's tua chwe' blynedd; ac yr oedd wedi peidio â gwasanaeth cyhoeddus tua phedair blynedd cyn hyny. Cymerodd y Claddedigaeth le ddydd Llun, Medi 29ain, yn mynwent Llantysilio. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Simon Fraser, R. H. Morgan, M.A., E. W. Evans, M.A., Pensarn; Dr. Hughes, Caernarfon; D. C. Evans, F.G.S., Borth; a D. Rowlands, M.A., Bangor. Yn yr hwyr pregethwyd pregeth angladdol yn y capel Saesoneg, Menai Bridge, gan y Parch. Dr. Thomas, Liverpool.

## Nodiadau Misol.

### Y GYNGRES EGLWYSIG.

Cynnaliwyd y Gyngres Eglwysig y flwyddyn hon yn Hull. Agorwyd hi ddydd Mawrth, Medi 30ain. Anfonwyd ymwelwyr i groesawu y cynnulliad gan Gymdeithas Anghydffurfwyr Hull, a chan Gynghor Wesleyaidd Hull. Llywyddid yn absennoldeb Dr. Thompson, Archesgob Caerefrog, yr hwn a luddiwyd trwy afiechyd sydyn, gan Dr. Westcott, Esgob newydd Durham. Siomedigaeth fawr i'r Gyngres, ac i'r Archesgob ei hunan, oedd ei absennoldeb. Cymerasai ddyddordeb neilldnol yn y trefniadau, a threuliasai ddyddiau cyfain mewn gohebu. Ond bu yr ymegniad yn ormod iddo. Cymerwyd ef yn glaf gan lesmair yn yr Eglwys yn Keswick. Gorchymynodd ei feddygon iddo orphwysdra hollol oddiwrth bob gwaith a thrafferth. Cymerwyd ei le gan Esgob Durham, yr hwn sydd yn ddyn mwy ac enwocach, ond yn îs o ran swydd a safle. Y mae yr Esgob yn boblogaidd gyda phob dosbarth o Eglwyswyr. Dywedodd yn ei araeth agoriadol am y cwestiwn cymdeithasol, nid yn unig ei fod yn gwestiwn crefyddol, ond mai efe yw *y* cwestiwn crefyddol.

Yr oedd y Gyngres hon yn ymarferol yn nwylaw y blaid Efengylaidd. Cofir fod yr un o'r blaen yn Nghaerdydd wedi syrthio i ddwylaw y Defodwyr, a rhai eraill o'r blaen yr un modd. Darllenwyd papyrau yn erbyn hap-chwareuon—drwg sydd wedi cynnyddu i fai:tioli anferth, ac yn bygwth bod yn ddinystr y genedl Seisonig, os na thröir y llifeiriant yn ol. Dadleuai Archddiacon Farrar dros ffurfio brawdoliaethau yn yr Eglwys; ond gwrthwynebid hyn yn wresog gan Esgob Liverpool. Pregethwyd gan Dr. Boyd Carpenter ar y geiriau, "Dy feibion a fyddant yn lle dy dadau." Yr oedd llïaws o Ymneilduwyr enwog yn gwrando, yn eu mysg Dr. Parker.

### YR UNDEB CYNNULLEIDFAOL.

Dechreuwyd cyfarfodydd blynyddol Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru ar yr un dydd a Chyngres yr Eglwys, sef dydd Mawrth, Medi 30ain. Cynnaliwyd hwynt eleni yn Abertawe. Agorwyd y gweithrediadau gydag araeth agoriadol y Llywydd, y Parch. T. Green, M.A. Pwnc yr Araeth oedd, "Yr elfen fydol yn ein Bywyd Eglwysig." Nododd y Llywydd dri pherygl oddiwrth hyn: 1. Rhoddi lle israddol i Ddduwinyddiaeth, ac yn y man ei llwyr ddarfyddiad. 2. Colli egwyddorion gwahaniaethol Annibyniaeth. 3. Gwneyd i gynlluniau o gymwynasgarwch gyda golwg ar amgylchiadau allanol dynion gymeryd lle yr Efengyl. Araeth ragorol, dybygem, yn swnio yr alarwm heb fod fynyd yn rhy fuan. Yr ydym yn credu mai un o'r peryglon mwyaf difrifol sydd yn bygwth llwyddiant ysbrydol yr eglwysi ymhlith Ymneilduwyr Lloegr ar hyn o bryd, yw yr ysfa i droi eglwys Crist yn fath o glwb adloniadol; dyfod â'r elfen fydol i mewn i foddi yr un ysbrydol. Pan y mae gweinidog ieuanc â'i enw ger bron yr eglwys, dyna yr emofyniad mawr gan llïaws o bobl ieuainc o berthynas iddo, nid pa faint o allu meddyliol nac ysbrydol a fedd, ond beth yw ei gyrhaeddiadau gyda chwareuaeth y bêl droed, *cricket*, a *croquet?* A ydyw efe wedi ennill iddo ei hun radd dda fel arweinydd campau a difyrion i bobl ieuainc? Pell ydym oddiwrth gondemnio pob difyrwch i bobl ieuainc, yn ei le a'i amser ei hun; ond pan y mae Eglwys Crist—cymdeithas wedi ei ffurfio i ddybenion ysbrydol a thragywyddol—yn cael ei throi yn ymarferol yn glwb i ddifyru, a thipyn o rywbeth a elwir yn bregeth ar Shakespeare neu Carlyle, neu rai o gwestiynau y dydd, yn cael ei thaflu i mewn i'r un dyben, byddai yn well peidio a son am eglwys o gwbl, ond sefydlu cymdeithasau i'r dybenion hyn o dan eu henwau priodol eu hunain. Un o'r profion sicraf o'r anghen am rybudd amserol Mr. Green oedd yr arwyddion mynych o anghymeradwyaeth a roddid i'w araeth, a'r sylwadau gwrthwynebol a wnaed arni gan rai o'r siaradwyr yn y cyfarfodydd dilynol.

Darllenodd Proffeswr Adeney bapyr yn eisteddiad cyntaf yr Undeb boreu Mercher

ar "Grist a chwestiynau cymdeithasol yr amseroedd." Pwnc neilldnol o bwysig, ac yr oedd yn cael ei drin, feddyliem, yn dda ac effeithiol. Dyma yr ochr arall, a'r ochr gyfreithlon, i'r hyn a gondemniem yn y sylwadau blaenorol. Nid ail-adroddiad o'r mynachlogydd yw Eglwysi Crist i fod. Y mae yr Eglwys i fod *yn* y byd, er nad yw *o'r* byd; ac am nad yw o'r byd y mae yn allu pureiddiol i weithredu ar y byd. Nid dwyn ymlaen ddiwygiadau cymdeithasol, mwy na darpar difyrwch, yw gwaith yr Eglwys. Ond dylai fod yn fyw i bob anghen dynol, ac yn cydymdeimlo â phob symudiad â'i ddyben i leddfu trueni dynol, i ddyrchafu cymdeithas ymhob modd, ac i ddwyn mwy o obaith a goleuni i fywyd y tlodion. Ac fel effeithiau anuniongyrchol Cristionogaeth y daeth ac y daw pob daioni o'r natur yma i ddynion. Y mae teyrnas Crist yn dyfod â phob daioni, llwyddiant a chysur cymdeithasol gyda hi, wrth ddyfod â daioni ysbrydol i ddynion. Ond y pwnc mawr i'w gofio yw hyn—mai nid trwy ddaearoli mwy ar yr Eglwys yr ychwanegir ei dylanwad ar y ddaear. Fel arall yn hollol: po fwyaf o Ddduw fydd yn yr Eglwys, mwyaf oll fydd ei dylanwad ar ddynion; po fwyaf nefol y bydd yr Eglwys, mwyaf oll fydd ei dylanwad ar y ddaear. Po bellaf fydd yr Eglwys oddiwrth y byd mewn un ystyr, agosaf yn y byd y bydd hi ato i'w leshâu a'i buro. Felly yr oedd Pen yr Eglwys. Am ei fod mor "ddidoledig oddiwrth bechaduriaid" yr oedd yn gallu dyfod mor agos at bechaduriaid, i gydymdeimlo â hwynt, i'w hachub a'u hymgeleddu.

Darllenodd Dr. Mackennal bapyr ar yr "Arwyddion o ledaeniad y lefain Cristionogol yn y bywyd cenedlaethol." Pwnc dyddorol iawn, ac yn cael ei drin felly, dybygem.

Dilynwyd y papyr uchod gan un oddiwrth ein cydwladwr poblogaidd, Dr. John Thomas, Liverpool, ar "Ddadsefydliad yn Nghymru" yn ei berthynasau crefyddol. Nodweddid y papyr gan allu mawr, mewn nerth ymresymiad yn gystal a hyawdledd ar e thyddiaeth; a chyfododd y dyrfa fawr i radd uchel o frwdfrydedd. Ond yn y diwedd cyrhaeddodd y brwdfrydedd i'w bwynt eithaf trwy ddesgrifiad effeithiol Dr. Thomas o weithwyr chwarelau y Penrhyn yn y flwyddyn 1874, yn amser y safiad allan, ac fel y byddent yn terfynu eu cyfarfodydd ar lechweddau y bryniau, trwy ganu "O Arglwydd Dduw Rhagluniaeth, &c." Nid oedd dim a wnai y tro yn y diwedd, medd un oedd yno, ond cael canu y pennill. A'i ganu a wnaed, gan ddyblu ac ail ddyblu y llinellau olaf, o dan deimladau nerthol ac anorchfygol.

---

UNDEB Y BEDYDDWYR.

Cynnaliwyd cyfarfodydd Undeb y Bedyddwyr eleni, am yr ail waith, yn Nghaerdydd. Y tro cyntaf y cynnaliwyd hwynt yno oedd yn y flwyddyn 1867, dan lywyddiaeth Baptist Noel. Llywydd yr Undeb yw y Parch. James Owen, Abertawe Pwnc ei araeth agoriadol oedd "Yr Eglwysi Rhydd a'r Bobl." Derbynid hi gyda mawr gymeradwyaeth, fel yr haeddai. Ni oddef ein terfynau i ni fanylu ymhellach ar y gweithrediadau, er y buasai dda genym wneyd. Ond cytunir fod Cyfarfod yr Undeb yn Nghaerdydd wedi bod yn un tra llwyddiannus, a chredir y bydd iddo gryfhau Ymneillduaeth a chrefydd yn Nghymru.

---

# Bywgraffiaeth.

MRS. MORRIS, PEEL STREET, LIVERPOOL.

*Gan y Parch.* William Jones, *Liverpool.*

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Hunodd y wraig rinweddol hon yn yr Iesu Mawrth 18fed, 1890, yn 67 mlwydd oed.

Yr oedd yn hanu o deulu crefyddol iawn, ac yr oedd ei hynafiaid ymhlith y rhai cyntaf a osodasant eu hysgwyddau o tan arch yr Arglwydd, ymhlith y Methodistiaid yn Nghymru; ac nid rhai cyffredin oeddynt yn y gwersyll, ond, yn hytrach, cyfrifid hwynt ymhlith cedyrn Israel. Merch ydoedd i'r diweddar Barch. Isaac Jones, o Nantglyn, ac yr oedd ei mam yn ferch i'r diweddar Barch. Peter Roberts, o Lansannan. Yr oedd y ffydd oedd yn ei rhieni, yn ddiammheu, ynddi hithau hefyd. Dilynodd eu llwybrau, ac ni chollodd yr etifeddiaeth a ymddiriedwyd iddi gan rai yn ofni yr Arglwydd yn fawr, eithr yn hytrach ychwanegodd ati trwy lafur ac ymroddiad. Cadwodd ei choron ar ei phen, heb wyro dim, ar hyd ei hoes, a thrwy ei gweithredoedd da gosododd liaws o berlau dysglaer ynddi.

Yn Nhachwedd, 1851, yn Eglwys Llantysilio, ymunodd mewn glân briodas â Mr. E. Morris, yr hwn sydd, erbyn hyn, yn un o fasnachwyr mwyaf llwyddiannus Liverpool.

Bu yn gynnorthwy gwerthfawr i'w phriod yn ei holl gylchoedd. Ar ol priodi symudodd i Lansannan, a bu yn swcwr mawr i achos yr Arglwydd yno am flynyddoedd. Yr oedd ei thŷ yn gartref i'r arch tra y buont yno—gyda hwy y llettŷai y gweinidogion; ac yr oedd hi yn barod i dderbyn pob prophwyd, yn enw prophwyd, er mwyn Crist y Meistr, ac nid oedd ganddi, gyda hyn, yr un etholedigaeth gul a chyfyng; a byddai yn gweini arnynt mor naturiol a'r haul yn tywynu—dim arwydd o ymdrech na ffwdan,—a sicrheid y gweinidogion, yn y fan, gan ei sirioldeb diragrith a didrwst, a'i chydymdeimlad dwfn â hwynt yn nghyflawniad eu gwaith pwysig, fod ei phreswylfod yn gartref clyd a sanct-

aidd iddynt yn ystod eu harosiad yn y gymydogaeth.

Ar ol treulio pymtheng mlynedd yn Llansannan, o tan wenau amlwg y Nefoedd, symudodd y teulu i Rhyl, lle y buont yn trigianu am ddwy flynedd; ac yn y flwyddyn 1868 symudasant i Lerpwl. Ymgysegrodd yno ar unwaith i wasanaeth y deyrnas nad yw o'r byd hwn; ac nid oedd un symudiad, mewn lle na sefyllfa, yn peri iddi golli ei siorwydd ei hun, na gwyro dim oddiwrth amcan a dybeu uchel ei bywyd; eithr yn hytrach gloëwai trwy y cwbl, ac ennillai nerth yn barhaus, hyd nes yr oedd ei duwioldeb uwchlaw ammheuaeth i bawb a'i hadwaenai; a'r rhai oeddynt yn meddu y gydnabyddiaeth agosaf â hi a goleddent y meddyliau uwchaf am ei chymeriad. Gwnaeth y goreu o'r ddau fyd. Yr oedd yn feddylgar a gofalus iawn am amgylchiadau ei thŷ a'i thylwyth, ac y mae y desgrifiad a ddyry y gŵr doeth o'r wraig rinweddol, yn y beunod ddiweddaf o lyfr y Diarebion, yn dra chymhwys i osod allan ei hanes; ond yn nghanol gofalon nid oedd yn pryderu, ac yr oedd ei ffydd gref yn Nghrist a'i lywodraeth, a'i hymgysegriad llwyr iddo, yn troi holl amgylchiadau a dyledswyddau ei bywyd yn fath o sacrament sanctaidd.

Yr oedd yn ei chymeriad liaws o elfenau pur a gogoneddus, y rhai a fyddant byw yn nghof pawb o'i chydnabod, ac a arosant yn hir, mewn effeithiau a dylanwad, ar bawb a ddaethant i gyffyrddiad â hi. Ymddiriedai yn ddiysgog mewn rhagluniaeth. Credai yn benderfynol fod Duw yn gwrando gweddiau, ac ni chymerai byth gam o bwys, ynglŷn â dim, heb ddeisyfu yr arweiniad Dwyfol, a diammheu fod ganddi brofiad yn ei hanes ei hun o'r hyn y credai mor gadarn ynddo. Ymhlith y lliaws cynghorion yr arferai eu rhoddi i'w mab pan ydoedd yn blentyn—yr unig un sydd yn fyw iddynt—y cynghor a roddid fynychaf, a chyda mwyaf o bwyslais a fyddai—"Ymddiriedwch, John bach, yn Rhagluniaeth ddoeth y nef bob cam o'ch bywyd." Profodd fuddioldeb y cynghor ei hunan, a gallai edrych ar wahanol amgylchiadau bywyd heb gyffroi, er i'r cyfnewidiadau, ar brydiau, fod yn gyfryw ag y byddai tuedd i hyny ynddynt. Yn nghanol y cwbl fe'i cedwid hi mewn tangnefedd heddychol am ei bod yn ymddiried yn ei Duw. Yr oedd o dymher wastad iawn, a phob amser yn siriol a hawddgar. Meddai ystor dda o *humour*, a medrai ei ddefnyddio i bwrpas; ond, wrth wneyd hyny rheolid hi gan farn gref. Gallai, o herwydd y pethau hyn, gadw y cylch y byddai ynddo yn ddyddan dros ben; ond canfyddid y difrifol y tu cefn i'r digrifol, a'r adeiladol yn amcan i'r cwbl, a rhyw sancteiddrwydd prydferth, fel cwmwl y gogoniant, yn lleddfu ac yn addurno yr arabedd oedd mor naturiol iddi; ac ni fyddai neb byth yn ei chwmni ond ychydig o fynydau heb gael ei argyhoeddi ei fod wedi dyfod i gyffyrddiad â chymeriad pur ac iachusol iawn. Byddai y mwyafiant oedd yn ei natur, ar brydiau, fel yn croni; ond gollyngid ef allan wrth fesur, a byddai ei geiriau wedi eu tymheru â halen, a'i hymadroddion bob amser yn rasol. Pan y gwelai rywbeth a dybid ganddi o'i le, yr oedd yn ddigon gonest a didderbyn wyneb i ddyweyd hyny ar unwaith; a phan y cawsai hi, yn bersonol, dro gwael mewn b awd neu chwaer, ni chai neb wybod am hyny oddieithr y troseddwr ei hun; ac ar ol ei argyhoeddi, byddai mor siriol ag erioed, ac yn hollol barod i wneyd cymwynas iddo yn y fan. Ni chaffai dig byth orphwys yn ei mynwes at neb, ac os dygwyddai ddyfod i mewn weithiau, yr oedd ei chariad at faddeuant yn aflonyddu arno yn ebrwydd, ac yn ei rwystro i lettŷa noswaith. Ond nid oedd y parodrwydd i faddeu, y gwyddid oedd yn perthyn iddi, yn peri i neb fod yn llai gwyliadwrus rhag troseddu yn ei her byn, eithr yn hytrach yn fwy. Nid oedd yn cael cynifer o achosion tramgwydd a'r rhai sydd yn arfer ymffrostio nas gallant faddeu os unwaith y digiant. Ymffrostio mewn gwendid ydyw hyny, ac y mae y gwendid hwnw, yn gyffredin, yn effeithio ar y neb sydd yn ei afael, fel y mae yn dychymygu gweled gelynion ymhob man. Nid oedd ein chwaer yn cael ei phoeni gan y gwendid hwn, ond yr oedd tynerwch ei hysbryd a pharodrwydd i faddeu yn elfen o nerth mawr yn ei chymeriad; ac yr oedd gwybod hyny yn cynnyrchu gofal mewn lliaws rhag gwneyd dim i archolli ei theimladau; ac ni fyddai hithau byth yn barod i dybio yn ddrwg am neb, nac i lunio bai lle na byddai. Meddai graffder neilluol i adnabod cymeriadau. Fe allai ei bod wedi ei donio, yn naturiol, yn helaeth â'r gallu hwn; ond bu blynyddoedd o ddysgyblaeth arno, mewn hunan-adnabyddiaeth, yn sicr yn foddion i'w gryfhau a'i awchlymu. Ni fyddai byth yn holi i hanes cymydogion, ac ni chlywid gair o enllib nac absen yn disgyn tros ei gwefusau un amser.

Yr oedd yn ffyddlawn yn yr holl dŷ, yn gwir ofalu am enw Crist; ac yr oedd grym ei chariad at achos yr Arglwydd yn gosod urddas ar, yn gogoneddu ac yn gweddnewid y pethau lleiaf. Nid oedd yr un blwch enaint yn rhy werthfawr ganddi i'w dori ar ben y Ceidwad; ac nid oedd yr un gwpanaid o ddwfr oer a roddid ganddi nad oedd yn myned yn anrhydeddus iawn, o herwydd y cysylltiad agos oedd rhwng y cwbl, ganddi hi, â Pherson byw yr Arglwydd Iesu. Dyrchefid y cwbl i'r tir uchel hwn—i oleuni presennoldeb Crist yr hwn a wasanaethid ganddi; ac yr oedd graen hyny ar y cymwynasau

Y flwyddyn ddiweddaf y bu hi byw, ymgymerodd yr eglwys yn David Street, lle yr oedd hi yn aelod, a gwneyd *Bazaar*, er symud ymaith ran o ddyled yr addoldŷ. Er nad oedd yn zelog, ar y cyntaf, o blaid y *ffurf* a gymerai yr ymdrech—tra wedi bod ar y blaen bob amser gyda ffurfiau a ystyrid ganddi hi yn fwy anrhydeddus i gyrhaedd yr amcan,—eto gan fod y mwyafrif yn tybio y gallesid ysgafnuau y pwysau oedd ar yr achos yn sylweddol, trwy

*Bazaar*, ymunodd â'r symudiad yn galonog. Fe gofir yn hir am yr anerchiad gwresog ac effeithiol iawn a draddodwyd ganddi ar y pwnc i chwiorydd yr eglwys. Ac hefyd, ar adeg arall, rhoddodd gyfarchiad i wŷr ieuainc yr eglwys ar yr un testyn, a theimlad pawb oedd yn gwrando ydoedd fod y *Bazaar* wedi ei gweddnewid ganddi. Dywedai un brawd oedd yn gwrando arni, "Y mae llwyddiant y symudiad wedi ei sicrhau, y mae Mrs. Morris yn credu yndo, ac yn medru gweddïo drosto." Cyflawnwyd y brophwydoliaeth. Cafodd hithau weled ei dymuniad wedi ei sylweddoli, ac yr oedd ei llawenydd yn y llwyddiant yn fawr iawn. Yr oedd y gras o haelioni yn blaguro yn brydferth iawn yndi. Nid oedd y gras hwn, mwy na grasusau eraill yn ei chymeriad, yn gwneyd arddangosiad o honynt eu hunain; ond yn hytrach yn dewis ymguddio. Y mae rhai o'r blodau prydferthaf a thyneraf yn ymagor yn nghysgod y dail. Y mae gwir brydferthwch yn wylaidd, ac angelion yn cael eu llettŷa yn ddiarwybod mewn llawer lle.

Darllenai lawer, a gellir yn hawdd gan fod oddiwrth ei Bibl mai llyfr yn cael ei ddefnyddio yn barhaus ydoedd. Pregethau a bywgraffiadau ydoedd ei phrif lenyddiaeth. A phan yr äi allan i'r Parciau, er ceisio cadw yr hen babell wrth ei gilydd, fel yr arferai ddyweyd, cymerai lyfr i'w chanlyn yn gydymaith. Bydd yn golled fawr i dlodion a phobl brofedigaethus y cylch am dani. Gwnaeth lawer iawn iddynt yn ddystaw a diymhongar. Nid oes cyfrif wedi ei gadw o'i chymwynasau yn y cylch hwn; a diammheu genyf, pan y darllenir cronicl y deyrnas, ac y cyhoeddir cyfrif manwl y Barnwr mawr, y dydd a ddaw, y bydd mwy o gymwynasau iddo Ef wedi eu gwneyd ganddi hi i'r "rhai bychain hyn" nag a ddychymygodd neb. Sonir am dani gyda pharch, a bendithir ei henw, mewn dagrau a hiraeth, gan lïaws o wragedd gweddwon a thlodion; a phe buasai Pedr i'w gael, buasai llu o honynt wrth sefyll yn ei ymyl i adrodd yr hyn a wnaethai hi, yn debyg o ddylanwadu arno i'w galw hi yn ol drachefn iddynt. Nid oedd neb yn fwy zelog yn nygiad ymlaen "Gyfarfod y Mamau" *(Mothers' Meeting)* yn Ystafell Genadol Yates Street, na neb yn fwy gallu og i wneyd y cyfarfodydd hyny yn effeithiol. Ai yno, ac i gyfarfodydd crefyddol eraill, yn y blynyddoedd diweddaf, trwy lawer o wendid a gwaeledd. Yr oedd ei ffyddlondeb i foddion gras ac ordinhadau y cysegr yn neilduol, a deuai i'r cyfarfodydd nid i *dderbyn* yn unig, ond i *gyfranu* hefyd. Derbyniai bob amser, ac weithiau ymddangosai wedi cael gwledd fawr, a byddai golwg arni hi yn mwynhau y danteithion yn foddion effeithiol o ras; ond cyfranai lawer yno i eraill. Dywedai un o'r gwragedd sydd yn mynychu Cyfarfodydd y Mamau yn Yates Street, yn ei dagrau, ymhen wythnosau ar ol ei hymadawiad, "Nid oes un diwrnod yn myned heibio nad ydwyf yn cofio cynghorion a gweddïau Mrs. Morris." Y mae yr had da a hauwyd ganddi yn sicr o ddwyn ffrwyth. Oni b'ai ein bod yn gallu credu fod ei gwaith yn aros, wedi iddi fyned ymaith i orphwys, ac yn ngofal y Meistr Mawr, ni fuasai ei hymadawiad ond colled ddigymysg.

Nid oedd yn heneiddio dim yn ei hysbryd, ond, yn hytrach, "er llygru y dyn oddiallan," y "dyn oddimewn a adnewyddid o ddydd i ddydd" Pan y cwynid, yn y cyfarfod eglwysig, gan rai, fod yr oes o'r blaen yn llawer gwell a mwy crefyddol na'r oes hon, anddiffynai hi yn wastad gymeriad crefyddol y genedlaeth bresennol. Arwydd o henaint ysbryd yn gyffredin vdyw edrych ar y dyddiau o'r blaen, ymhob peth, yn well na'r dyddiau hyn. Yn y cyfarfod eglwysig un noswaith dywedai un brawd, mewn cryn bruddglwyfder ysbryd, a chyda thôn gwynfanus, fod y dagrau wedi colli o grefydd pobl yn y dyddiau hyn, ac fod crefydd heb ddagrau yn un sal iawn, a'i fod ef yn meddwl mai ychydig iawn o grefydd ysbrydol a feddai pobl ieuainc. Yr oedd tywyllwch a digalondid ei ysbryd ef yn taflu ei gysgod du ar yr holl frawdoliaeth, hyd nes yr oedd ffurfafen yr eglwys yn drymaidd iawn, ac wedi ei gorchuddio gan gymylau. Adroddai hithau ei phrofiad goleu a chalonog ar ol hyny, ac yr oedd fel awel iachus yn ymlid y trymder ac yn gwasgaru y cymylau; ac fe lwyddodd i drawsgyweirio y cyfarfod o'r cywair lleddf i'r cywair llon ar unwaith. "Ni bum I erioed," meddai, "yn cael mwy o hyfrydwch gyda chrefydd na'r dyddiau presennol. Gallaf eich sicrhau fod crefydd yn talu ei ffordd, ac yn gwella wrth fyned ymlaen; ac yr ydwyf yn dra sicr fod mwy o grefydd yn y wlad y dyddiau hyn na'r dyddiau gynt—ysbryd crefydd yn fwy byw. Clywais fwy o swn," ychwanegai, "a gwelais fwy o ddagrau; ond ni welais erioed fwy o haelioni crefyddol, a mwy o waith, mewn gwahanol gylchoedd; ac y mae mwy o sylwedd mewn gwaith nag mewn dagrau a swn." Tynodd y nefoedd i lawr i lawer cyfarfod; a byddai yn wledd a werthfawrogid gan bawb ei chlywed yn adrodd ei phrofiad. Yr oedd er ys blynyddoedd yn llesgâu mewn iechyd, ond ni chlywid hi byth yn cwyno. Fel yr oedd y corff yn adfeilio a'r iechyd yn llesgâu, yr oedd ei phrofiad ysbrydol yn gloewi ac yn addfedu.

Dywedai Awstin am Monica ei fam, pan yr oedd ei phabell bridd yn myned yn fwy candryll, fod hyny yn fantais i'r goleuni nefol oddimewn i ymsaethu trwy y rhigolau. Gallesid dyweyd am dani hithau, fod y goleuni yn cryfhau fel yr oedd y rhigolau yn y babell yn myned yn fwy. Ni chafodd ond cystudd byr; ac o'r dechreu credai fod y diwedd wedi dyfod, ac nid oedd yn brysio nac yn teimlo un ias o fraw pan yn ei wynebu, ond yn hytrach yn ei groesawu yn awyddus. Y diwrnod cyntaf yr aeth i orwedd dywedai, "Cystudd am ddeng niwrnod;" ac ni pharhaodd ond am oddeutu hyny o yspaid. Nid oedd yn son am farw, ond am "fyned adref" a "myned i orphwys." Yr oedd ei llygaid fel wedi

eu sefydlu ar ogoniant y ddinas yr ochr draw, fel nad oedd yn cymeryd sylw o'r afon oedd rhyngddi â hi; ac aeth drosodd megys heb ei gweled, â gwên hyfryd a nefolaidd yn ymdaenu dros ei gwynebpryd yn y mynydau diweddaf, fel pe buasai dysgleirdeb y Cyfaill y bu fyw mor agos ato ar hyd ei hoes—a'r Hwn yr oedd y mynydau hyny yn myned i'w "weled megys ag y mae"—yn cael ei adlewyrchu arni. Yr oedd yr adnod yn Salm xxiii. yn ddarn amlwg o'i hanes y pryd hwn: "Ië, pe rhodiwn ar hyd glŷn cysgod angeu nid ofnaf niwed, canys yr wyt ti gyda mi, dy wïalen a'th ffon a'm cysurant."

Cludwyd ei gweddillion, y dydd Sadwrn canlynol, yn nghanol arwyddion o barch mawr, i fynwent Capel Llansannan. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

"Ei henw yn perarogli sydd,
A'i hûn mor dawel yw."

Gadawodd briod a mab—y rhai ydynt flaenoriaid yn eglwys David Street—ynghyd a llu o berthynasau, i alaru ar ei hol. Amddiffyn ei Duw hi a fyddo yn parhau yn amlwg drostynt hwythau!

---

MR. JOHN A. JONES, BALLARAT, AWSTRALIA.

*Gan y Parch.* W. HUGHES, *Ty'nygongl, Môn.*

"COFFADWRIAETH y cyfiawn sydd fendigedig." Diau y saif y gwirionedd hwn i'w gymhwyso at lïaws o'n cydgenedl a gyfarfyddasom, ac y mwynhasom eu cymdeithas, yr ochr arall i'r ddaear yn ogystal ag yn Nghymru. Un yn meddu y cymeriad uchod oedd y diweddar Mr. John A. Jones, mab hynaf Mr. Owen Jones, Aberalaw, Llanfachreth, Môn. Wedi derbyn hysbysrwydd am farwolaeth ein hoff gyfaill, yr oeddym yn teimlo ein meddwl megys yn gollwng ei afael yn Awstralia, a'r lle yn ymddyeithrio i ni, er i ni fod yn preswylio yno am dros ugain mlynedd. Mr. Jones nid yw yno mwy! Anfonasom at ei chwaer, Mrs. Hughes, Brwynog, er cael y manylion, a derbyniasom oddiwrthi ddyfyniad o'r *Drych* Americanaidd, oedd wedi ei ysgrifenu o Ballarat, Awstralia. Dodwn ef yma:—"Cyn gadael Ballarat, a thynu fy llith i ben, y mae genyf y gorchwyl pruddaidd o hysbysu darlleuwyr y *Drych* am farwolaeth Cymro arall, John Aberalaw Jones, *sharebroker*, Ballarat, yr hyn a gymerodd le yn ei breswylfod, 2, Windermere Street, ar nos Fercher, y 24ain o Ebrill, ac a gladdwyd y dydd Gwener canlynol. Yr oedd ei angladd yn un mawr iawn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. Thomas a G. R. Jones. Yr oedd pawb a phobpeth yn tystio i'r golled fawr a gafodd Ballarat, ac yn enwedig Eglwys Gymreig Armstrong Street, ar ol Mr. Jones. Yr oedd yn hen drigianydd yn Ballarat, wedi bod yno am dros 36 mlynedd. Yr oedd yn hynod am ei ffyddlondeb yn dylyn y moddion; fel blaenor yr ydoedd yn iawn ofalu am yr achos mawr, a thystiai Mr Theophilus Jones (Williams?) am dano yn y Cyfarfod Eglwysig, na wyddai am neb oedd wedi tynu y gwŷs i'r pen mor union a Mr. Jones. Yr oedd yn ddyn gwastad, hamddenol, a chyfiawn. Bydd colled fawr ar ei ol. Gadawodd wraig a phump o blant, yr ieuengaf yn dair oed. . . . Brodor o Sir Fôn, G.C., ydoedd. Clywais ddyweyd ei fod yn berthynas i Syr William Roberts, y meddyg byd-enwog o Manchester, gynt o Mynydd-y-gof, Sir Fôn."

Y mae hefyd baragraph wedi ymddangos yn y *Ballarat Courier*, yn rhoddi hanes y claddedigaeth, ac enwau nifer lïosog o'i hen gyfeillion a ofalent am ei lwch hyd fan y gorphwys. Ymddengys y talwyd parch uchel i'w goffadwriaeth ar ddydd ei angladd, trwy i'r *Mining Exchange* gael ei chau, ac i'r aelodau oll fyned i hebrwng ei weddillion i dŷ ei hir gartref. Ei afiechyd olaf oedd *acute dysentery*.

Y mae ffermdŷ Aberalaw mor hysbys i bawb a ŵyr ychydig am Fôn, yn neillduol y rhai sydd yn dwyn perthynas â'r Methodistiaid, fel mai digon yr enw er dynodi y fan y ganwyd ac y magwyd Mr. J. A. Jones. Hanodd o deulu ag y mae eu henwau yn aros mewn bri yn y wlad ar gyfrif rhinwedd a chrefydd; ac "Anhawdd," ys dywed hen ddiareb Gymreig, "yw dwyn dyn oddiar ei dylwyth." Pan yn ymweled â hen ŵr fu am flynyddau lawer yn Aberalaw, ac y dywedasom wrtho fod Mr, Jones yn anfon ei gofion ato o Awstralia. meddai, gan wylo, "Y goreu o'r plant ydoedd. Peth *ffeind* oedd John. Gobeithio y cawn gyfarfod yn y nefoedd."

Clywsom Mr. Jones yn son yn fynych am yr hen ŵr o borthwr oedd yn ei gartref pan oedd ef yn ieuanc. Ni a adawn foreu oes ein cyfaill heb sylw pellach arno amgen na thynu casgliad sydd yn hollol naturiol:—Fod nodwedd boreu ei oes, a'r meithriniad crefyddol a dderbyniodd ar aelwyd ei rieni yn Aberalaw, wedi aros ar ei gymeriad a'i ymarweddiad hyd y diwedd.

Gadawodd ei gartref am Awstralia yn y flwyddyn 1852, yn fuan wedi darganfyddiad aur yno. Nid ydym yn gwybod pwy oedd ei gyd-fordeithwyr heblaw un John Lewis, o Fodedeyrn. Clywsom ef droion yn son am ei laniad yn Melbourne, a'i arosiad mewn pabell *(tent)* yn Canvastown, rhwng y dref a'r môr, ei daith i'r *diggings* trwy y Black Forest, tua Forest Creek, Castlemain a Bendigo—lleoedd pwysig ar y pryd. Ystyrid teithio trwy y Black Forest y pryd hwnw yn orchestwaith gwerth ymffrostio ynddo, gan yr arferai y *bushrangers* oedd yn heidio y goedwig yspeilio a baeddu, ac weithiau lofruddio, y rhai y tybient y byddai aur ganddynt. Aeth Mr. Jones trwy y peryglon i gyd heb dderbyn niwed. Wedi treulio rhyw gymaint o amser yn y rhanbarthau hyny o'r wlad, symudodd i Ballarat, lle yr arosodd hyd derfyn ei oes. Cafodd ef, fel eraill o'i gyfeillion, amser blin yn Ballarat yn adeg y terfysg a adnabyddir fel y Ballarat *riot*, pryd y collodd amryw eu bywydau ac y clwyfwyd llawer; a dyddorol fyddai gwrando arno yn adrodd helyntion y dyddiau hyny. Y mae gan yr

hen bererin anwyl, Mr. Ellis D. Thomas, gynt o Benrhyndeudraeth, adgofion dyddorol am dano yr adeg hon, yn enwedig yn ei berthynas â gwaith yr Arglwydd; oblegid llawer gwaith y clywsom ef yn son, pan rhwng mynyddau New Zealand, am ei zel a'i ymroddiad gyda'r Ysgol Sul. Wedi i lanw ymfudiaeth chwyddo yn Ballarat, ac i lïaws o Gymry ddyfod yno, yr oeddynt fel defaid heb arnynt fugail, heb foddion gras yn eu hiaith, na neb yn gofalu am eu heneidiau. A gwaeth na hyny, nid oedd gan neb o'r Cymry hyn dŷ i breswylio ynddo, dim ond preswylio mewn pebyll, fel y patriarchiaid gynt. Yr oedd dau Gymro, Mr. Hugh Owen (yn bresennol o Lanberis), a Mr. Aberalaw Jones, wedi rhoddi eu bryd ar gychwyn Ysgol Sabbothol yno, er gwaethaf pob anfantais a digalondid. Ni chafodd yr Ysgol Sabbothol yn Ballarat, fel y gwelir, well lle i gychwyn na phabell—pabell a ddygodd Mr. Jones i'r lle ar ei gefn, yr hon oedd wedi ei gosod i lawr ganddo mewn parth o'r enw Read Streak. Ei babell ef oedd pabell y cyfarfod, lle yr arferai yr ychydig Gymry crefyddol ymgynnull i ymofyn â'u Duw, a Duw yn llewyrchu ei wyneb arnynt. Mr. Owen, wrth ysgrifenu ei adgofion, a ddywed:—"Nis gallaf byth anghofio y fraint a'r cyfleusdra a gefais pan oeddwn yn Awstralia, mewn undeb â Mr. Jones, ynghyd a chwech eraill nad wyf yn cofio yn awr pwy oeddynt, i sefydlu Ysgol Sabbothol yn Ballarat. Y mae hanes yr Ysgol fach yma yn rhywbeth, yr wyf yn meddwl, fydd yn sicr o daro pob un sydd â chariad yn ei galon at y Gwaredwr yn dra dymunol Eisteddem yn y babell wyneb yn wyneb, mewn un dosbarth, pedwar bob ochr iddi; a da yr wyf yn cofio y gorfoddai rhai o honom i wargrymu, gan mor isel ydoedd. Ond waeth i chwi am yr holl anfanteision hyn, yr oedd yn Ysgol fach fendigedig mewn gwirionedd. Yr oedd newyn arnom am Air Duw; a llawenydd mawr i ni oedd cael cyfleusdra i addoli Duw ein tadau yn y lle rhyfedd hwnw. Ac, a dyweyd y gwir, byddaf yn edrych hyd heddyw gyda mwy o foddhad ar y rhan a gefais i gychwyn yr Ysgol Sul yn Ballarat na dim a wnaethum yn fy oes gyda chrefydd. Nis gwn ai hunanoldeb ai peidio yw hyn ynof, ond dyna'r ffaith. Ac y mae yn dda genyf ddeall fod yr Ysgol Sabbothol yn y lle byth er hyny mewn ystad flodeuog." Dyma ddechreuad yr achos Cymreig yn Ballarat, a chartref arch Duw am dymor pwysig, hyd nes y cafwyd llonyddwch oddiwrth y cyffro a'r blinderau oedd yn y wlad ar y pryd. Symudwyd yr achos o'r babell i gapel coed bychan a diaddurn a adeiladwyd mewn lle cyfagos o'r enw Bakery Hill. Coed nollt cryfion oedd yn gwasanaethu yn lle muriau, a'i dô oedd o llïau cryf. Nid oedd neb yn fwy ffyddlawn a blaenllaw na Mr. Jones ynglŷn â'r symudiad. Nid hir y bu yr Ysgol Sul yn y lle hwn heb ddyfod i rifo rhai ugeiniau, ac ymhen amser cafwyd pregethu lled gyson yno trwy ddyfodiad y diweddar Barch. Llewelyn Llewelyn i'r gymydogaeth—dyn a wnaeth ei ôl ar y Cymry yn y wlad. Nid oedd Mr. Jones un amser o duedd i ddyfod i'r amlwg gyda dim. Yr oedd gwyleidddra naturiol ei gymeriad yn peri fod yn well ganddo gymorthwyo nag arwain, a boddhaol oedd os gwelai waith yr Arglwydd yn llwyddo, pwy bynag a ddefnyddiid fel offerynau. Ond er hyny galwyd ef gan eglwys Ballarat i wasanaethu swydd diacon; ac yn gwbl ddirodres ufuddhaodd yntau i'r llais, a gwasanaethodd ei genedl a'i Arglwydd gyda ffyddlondeb a chydwybodolrwydd yn y cysylltiad hwn hyd nes y galwyd ef oddiwrth ei waith at ei wobr.

Fel dyn a Christion yr oedd yn ddiammheu yn un o ragorolion y ddaear, parod i bob gweithre l dda hyd eithaf ei allu, mewn agor ei law i'r tlawd, tori ei fara i'r newynog, a dwyn crwydriaid i dŷ; ac nid anfynych y byddai yn cael mantais i hyny yn amgylchiadau cyfnewidiol y wlad yn y blynyddoedd a aethant heibio. Nid oedd fawr o berygl i unrhyw Gymro sobr fod heb lettŷ, nac mewn un modd ar ol mewn dim y gallai Mr. Jones ei gynnorthwyo. Bu yn byw am flynyddau gerllaw Elusendŷ, ac yn dyfod yn ddyddiol i gyffyrddiad â'r hen a'r methedig, y gweddwon a'r amddifaid, yr hyn a adawai argraff ddofn ar ei feddwl a chymhelliad cryf ynddo i larieiddio eu profedigaethau; a byddai ganddo wersi pwrpasol i'w dysgu yn y gyfeillach eglwysig oddiwrth yr hyn a welai ac a glywai. Byddai rhyw wên iachus a hyfryd ar ei wyneb pan y byddai amgylchiadau yn dyfod âg ef i gysylltiad â'r fantais i gydymdeimlo, ac mor ddiymhongar ydoedd fel na soniai byth am a wnai o gymwynasau. Fel cyfaill yr oedd yn ddiledryw, ac yn wirioneddol ofalus am gymeriadau yn ogystal ag amgylchiadau ei gydnabyddion. Yr oedd mor agos i farciau y bymthegfed Salm a neb a welsom erioed. Pur i Dduw ydoedd, pur i'w gyfaill, pur i'r gwirionedd, a'r cwbl yn ddigudd ac yn wyneb-agored. Medrai geryddu heb beri tramgwydd, gan mor ddoeth ydoedd yn ei ffordd, a syml ei amcan—cynghori ac argyhoeddi yr un pryd. Priododd gyda Miss Sarah E. Williams, yn enedigol o gymydogaeth Treffynnon, a ganwyd iddynt nifer lïosog o blant, amryw o'r rhai a gladdwyd yn Ballarat, yr hyn a barodd i'w feddwl ymgylymu â'r lle fel ag i benderfynu peidio dychwelyd i Gymru. Y mae y ffaith hon yn dra awgrymiadol o'i gymeriad fel priod a thad. Yr oedd yr holl rinweddau a berthynai iddo fel dyn a chyfaill yn dyfod i'r amlwg mewn modd arbenig yn y cyfoh teuluaidd. Mawr oedd ei ofal a'i dynerwch. Medrodd ennill a cholli yn fwy na llawer ynglŷn âg amgylchiadau bywyd heb ei draflyncu gan y byd ar y naill law na'i ddigaloni ar y llall. Gwelsom amryw dònau yn ei fôr, a chymylau yn ei ffurfafen; ond byddai bob amser yn siriol, ac fel yn teimlo fod ei "Dad wrth y llyw." Os oedd natur dda a dynoliaeth bur ac urddasol yn feddiant naturiol iddo, a dylanwad crefydd yr Arglwydd Iesu yn gryf ar ei ysbryd, a hyny

yn wastad, nid rhyfedd ei fod yn gymeriad mor ragorol, a'i fod hefyd wedi trigo yn nirgelwch y Goruchaf, ac yn aros yn nghysgod yr Hollalluog am oes o driugain mlynedd heb iddo ond gair da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun.

---

DAVID AC ELLEN WILLIAMS, RHYD, LLANFROTHEN.

CREDWN fod coffadwriaeth y ddau yma yn haeddu ychydig le yn y DRYSORFA. Buont yn dderbynwyr cyson o honi, ac yn cymeryd dyddordeb mawr ynddi am dros hanner can' mlynedd. Gŵr a gwraig oeddynt wedi cydfyw yn ddedwydd am hanner can' mlynedd. Gwnaethant eu goreu o'r ddau fyd. Magasant deulu mawr, deuddeg mewn nifer, a buont yn ddiwyd iawn i'w dwyn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, ac nid oedd dim yn rhoddi mwy o gysur iddynt na chael rhyw arwyddion nad oedd eu llafur yn myned yn ofer.

Yr oedd y ddau yn bur wahanol yn nod wedd eu cymeriad a'u tymherau, ond nid hawdd yw dyweyd pa un oedd y mwyaf didwyll a duwiol. Yr oeddynt fel Zacharias ac Elisabeth, "ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd." Yr oedd D. Williams o dymher sydyn a gwresog, ond yn holloi ddidwyll ac unplyg—i'w weled drwyddo yn ei holl ymddygiadau. Yr oedd ei briod, o'r ochr arall, yn wastad a thawel ei thymher bob amser. Er i ni gael y cyfleusdra goreu i sylwi arni am y rhan fwyaf o'i hoes, ni welsom braidd ddim erioed yn effeithio ar ei thymher. Yr oedd hi fel yr afon ddofn, lydan, yn wastad yn rhedeg yn ddystaw heb i ddim effeithio ar ei gwyneb. Yr oedd ef yn dueddol i yru yn gyflym, ac edrychai bob amser ar yr ochr oleu i bob cwestiwn, heb sylwi ond ychydig ar yr anhawsderau. Yr oedd hithau yn arafaidd ac yn dueddol i edrych ar yr ochr dywyll, ac ar anhawsderau pob cwestiwn. Ond yr oeddynt yn asio yn rhagorol i'w gilydd, a'r naill yn cyflawni i raddau yr hyn oedd ddiffygiol yn y llall.

Bu D. Williams yn aelod ffyddlawn iawn gyda'r Methodistiaid yn Llanfrothen er pan yn 16 oed hyd ei farwolaeth, yspaid o 54 mlynedd; ac yr oedd ei briod wedi ei dwyn i fyny yn grefyddol o'i mebyd. Yr oedd y ddau yn gyfarwydd iawn yn yr Ysgrythyrau. Yr oeddynt wedi darllen y Bibl lawer gwaith drosodd, ac yr oedd y rhan fwyaf o hono yn eu cof. Fel y dywedai y Parch. T. E. Roberts, M.A., Croesoswallt, yn nghladdedigaeth D. Williams, mai ei brif lyfrau oeddynt y *Bibl*, y *Llyfr Hymnau*, *Llyfr Tonau Ieuan Gwyllt*, y *Geiriadur*, ac *Esboniad James Hughes*. Yr un rhai oedd prif lyfrau ei briod, ac ei thrio y *Llyfr Tonau*.

Yr oeddynt yn hoff iawn o bregethau a phregethwyr; a phrif bleser eu bywyd oedd adrodd y pregethau a glywsent yn Sasiwn y Bala, a lleoedd eraill. Clywsom hwy yn dyweyd mai y pleser mwyaf fyddent yn ei gael yn y byd yma fyddai gwrando pregethau da. Nis gallent oddef i neb ddyweyd gair bach am un pregethwr, hyd yn nod y rhai lleiaf. Buom ni yn meddwl, weithiau, fod y rhinwedd hwn yn rhedeg i eithafion ganddynt; ond credwn erbyn hyn eu bod ar yr ochr ddi gel, a bod hyn yn codi ynddynt o deimlad a chalon ragorol.

Gweddus yw i ni grybwyll fod D. Williams wedi bod yn arwain y canu yn Siloam am ddeugain mlynedd, ac iddo gyflawni y gwasanaeth yma gyda ffyddlondeb mawr, a hyny trwy lawer o anhawsderau. Yr oedd yr elfen gerddorol yn gref iawn ynddo. Yr oedd llon'd ei natur o ganu. Canu y byddai yn wastad, hyd yn nod yn yr adegau tywyllaf arno. Ond nid yn fynych y byddai yn dywyll arno, gan y byddai yn wastad yn byw yr ochr oleu i'r cwmwl. Clywsom ef yn sisial canu ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, pan oedd yn rhy wan i ganu yn hyglyw.

Ar foreu Sabboth, Ebrill 3ydd, 1887, ehedodd ei ysbryd i'r trigfannau tragywyddol, i fwynhau Sabboth diddiwedd, ac i ymuno â'r côr nefolaidd i ganu yr anthem dragywyddol o fawl i'r Hwn a'i prynodd ac a'i golchodd trwy ei waed ei hun. Y dydd Iau canlynol hebryngwyd ei gorff i fynwent Llanfrothen gan dyrfa luosog. Ar y ffordd i'r gladdfa aed â'r corff i'r capel, a chaed anerchiadau priodol i'r amgylchiad gan y Parchn. T. E. Roberts, M.A.; D. Roberts, Rhiw; ac E. Lloyd, Prenteg. Ni bu ei anwyl briod fyw ond blwyddyn ac wyth mis ar ei ol, ac ni chafodd ond ychydig o gysur wedi ei golli. Cafodd hi gystudd blin am yr hanner blwyddyn olaf o'i hoes, ond dyoddefodd y cwbl yn dawel ac yn deilwng o Gristion. Bu farw Rhagfyr 22, 1888, yn 70 mlwydd oed (y ddau yr un oedran), a chladdwyd hi Rhagfyr 27. Aed â'i chorff hithau, yr un modd a'i hanwyl briod, i'r capel, a chafwyd anerchiadau priodol i'r amgylchiad gan y Parchn. T. E. Roberts, M.A., a D. Roberts, Rhiw, Claddwyd hi o dan y drefn newydd, pan y gwasanaethwyd gan y Parchn. Samuel Owen, Tanygrisiau, a T. E. Roberts, M.A.; ac y mae yn briodol hysbysu mai ei chladdedigaeth hi oedd y gyntaf o dan y drefn hono, wedi cael rhyddid trwy ennill y gyfraith.

E. W.

---

# Lloffion.

GAIR ASYN YN FWY NA GAIR DYN.

YMWELWYD â'r gŵr cynnil Nazr-ed-din un diwrnod gan ei gefnder anghenog Hafiz yr anffodus. Ei neges oedd ceisio ganddo roddi benthyg ei asyn iddo am y diwrnod. "Buasai yn bleser o'r mwyaf genyf, fy nghefnder da," meddai Nazr-ed-din, "ond

yn anffodus dygwyddodd ei fod wedi myned ar goll, ac nid oes genyf un amcan yn y byd o wybodaeth ymha le y mae." Gyda'i fod wedi dyweyd y geiriau, dyma yr asyn yn dechreu gwneyd yr oernadau rhyfedd sydd yn briodol i'r rhywogaeth hono, o *shed* yn y cwrt tu ol i'r tŷ. Yna atebodd Hafiz—"Ond, Nazr dda, dyna yr asyn yn sicr yn ei gartref, ac yn ol pob tebyg yn hollol iach." Ar hyn, dyma Nazr-ed-din yn cyfodi, mewn digllonedd mawr, ac yn dangos y drws i Hafiz. "Dos ymaith, y dyhiryn," meddai, "a wyt ti yn fy sarhau yn fy nhŷ fy hun trwy gymeryd gair yr asyn o flaen fy ngair I?" —*Chwedl Bersiaidd.*

GEIRIAU Y DOETHION.

YR ydym yn cuddio, nid yn unig ein drwg, ond ein hardderchawgrwydd.

Y mae un heddyw yn werth dau yfory.

# Cronicl Cenadol.

## Brynlan Ihasia.

### DOSBARTH SHELLA.

MEWN llythyr wedi ei ysgrifenu o Laitkynsew, ar yr 28ain o Awst, dywed y Parch. W. Williams:—

"Yr wyf yn bwriadu myned i lawr i Shella ddiwedd yr wythnos hon i aros dros y Sabboth. Fe fydd yn Sabboth y Cyfarfod Eglwysig Undebol a Chymundeb. Hefyd yr ydys wedi danfon i'r oll o'r eglwysi yn y Dyffryn i ofyn iddynt ddanfon dau neu dri o gynnyrchiolwyr i'r cyfarfod er mwyn i ni gael ymddyddan am y priodoldeb o gael Cyfarfod Dosbarth ddwywaith neu dair y flwyddyn, i ystyried y ffordd oreu i gario y gwaith ymlaen yn y gwahanol bentrefi. Fel y gwyddoch, yr ydys wedi sefydlu cyfarfod felly eisoes yn Maram, ac yr ydym yn llwyr gredu fod cyfarfodydd o'r fath hyn yn gwneyd lles mawr i'r gwaith.

Byddaf yn cychwyn yr wythnos nesaf am Maram, lle y bwriadaf aros am fis. Yr wyf wedi rhoddi cyfarwyddiadau iddynt adeiladu *hut* i mi mewn pentref o'r enw *Marshillong*, ddim ymhell o'r farchnad. Bydd U Rainjan, yr Efengylydd, yn myned gyda mi. Yr ydym yn gobeithio gallu gwneyd ychydig o waith yn y pentref uchod, ac mewn pentrefi cyfagos sydd heb ysgolion Gobeithir y ceir tywydd sych. Yr ydym wedi cael rhyw wlaw anferth y flwyddyn hon. Yr oedd yn llawenydd mawr genyf weled yr haul y Sul diweddaf, wedi colli golwg arno am amryw ddyddiau!

Clywais heno oddiwrth Mr. Ceredig Evans fod y *Father Superior*—y *Jesuit* yn Shillong, wedi marw yn bur ddisymwth ddydd Iau diweddaf. Yr wyf wedi bod yn darllen llawer yn ddiweddar am ganlynwyr Ignatius Loyola a'u gweithrediadau sarphaidd. Fe fydd eu cyfrif yn fawr a difrifol yn nydd y farn." Mae yn ymddangos fod un arall o'r offeiriaid Pabaidd yn Shillong wedi marw ac fod y llall yn sal iawn.

### DOSBARTH KHADSAWPHRAH.

MEWN llythyrau diweddar crybwylla y Parch. C. L. Stephens am ymosodiad a wnaed gan wallgofddyn ar y tŷ cenadol pan oedd ef yn dygwydd bod oddicartref. Parodd gryn ddychryn i Mrs. Stephens a Miss White,—athrawes o Calcutta oedd yn dygwydd bod ar ymweliad â hi. Yr oedd 'y Brenin,' a lliaws o berthynasau y dyn yn y fan ar y pryd, ond yr oeddynt yn rhy lwfr i'w roddi mewn dalfa. Dywed Mr. Stephens yr anturia un Prydeiniwr wneyd ei huuan yr hyn na feiddiai deuddeg o frodorion ei wneyd. Ar ol hyny aeth pobpeth ymlaen yn gysurus, ac yr oedd Mr. Stephens pan yn ysgrifenu, Awst y 14eg, ar gychwyn i daith i ymweled â'r eglwysi yn y Dosbarth.

## Brynlan Jaintia.

### DOSBARTH SHANGPOONG.

RHANAU O LYTHYAU ODDIWRTH Y PARCH. R. EVANS.

RHYDD y Parch. R. Evans hanes ei ymweliad yn ddiweddar âg amryw bentrefi. Cafwyd cyfarfodydd hapus ar brydnawn Sadwrn ac ar hyd y Sabboth yn Mynsaw. "Ar ol yr ail oedfa aethom yn orymdaith trwy y pentref, gan ganu ac anerch y bobl ymhob lle manteisiol. Yr oedd y Cristionogion wedi bod yn gwneyd hyn ar hyd y misoedd blaenorol, a'r pentrefwyr wedi dyfod i deimlo yn fwy caredig at Gristionogaeth mewn canlyniad. Darfu i amryw ein gwahodd i'r *court* o flaen y tai i ganu ac anerch y gynnulleidfa. Bore drannoeth, ar ol priodi tri chwpwl a rhoddi meddyginiaeth i'r cleifion, cychwynasom am Shilliang-Myntang. Daeth nifer mawr,—tua deg ar hugain—o'r Cristionogion i'm hebrwng hyd at lan yr afon Myntang, a chyn ymadael gofynasant i mi weddio gyda hwy."

Yn fuan wedi cyrhaedd Shilliang-Myntang, daeth dyn o Tangrain i erfyn arno fyned i weled ei wraig oedd yn beryglus o wael. Wedi dychwelyd cynnaliwyd oedfa, pryd y pregethodd U Bor i gynnulleidfa fawr. Boreu drannoeth gweinyddwyd yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf yn y pentref hwn. Bedyddiwyd 17. Mae llawn hanner trigolion y pentref hwn wedi troi yn Gristionogion yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf. Y mae hyn yn peri blinder mawr i'r *Dolloi* (pennaeth), a gwna ei oreu i orthrymu y Cristionogion. Mae tri o'r *Pators* (ail mewn

awdurdod) wedi troi yn Gristionogion. Wedi hyny aethpwyd i Tangraiu, lle y cafwyd amryw gyfarfodydd cysurus iawn. Derbyniwyd saith yn gyflawn aelodau. Mae yma gapel cyfleus wedi ei adeiladu. Mewn llythyrau, dyddiedig Gorphenaf 28ain ac Awst 28ain, rhydd Mr. Evans hanes helyntion blinion y Cristionogion yn Shilliang-Myntang. Aeth y *Dolloi* ac amryw o'i ddynion un Sabboth at ddrws yr ysgoldŷ, gan fygwth curo y rhai oeddynt wedi cyrhaedd, a gyru ymaith y rhai oeddynt ar eu ffordd i'r cyfarfod. Daeth pedwar o honynt ar hyd y nos i Shangpoong i ymgynghori â'r cenadwr, ac aeth Mr. Evans yno drannoeth. Gwadai y *Dolloi* y cyfan a ddywedid gan y Cristionogion, ond yr oedd yn amlwg, wrth y cannoedd o bobl oedd wedi cael eu cynnull i'r pentref o wahanol ranau y wlad sydd dan ei awdurdod, fod ganddo ryw gydfwriad i niweidio y Cristionogion. Penderfynwyd myned â'r achos ger bron yr Ynad yn Jiwai, ac wedi myned yno, ac ar ol cryn anhawsder deuwyd i gytundeb, ac addawodd y *Dolloi* na byddai iddo orthrymu y Cristionogion yn y dyfodol. "Yna," meddai Mr. Evans, "ysgydwasom ddwylaw, ac ymadawsom yn gyfeillion fel yr arferem fod flynyddoedd o'r blaen. Mae llawer iawn o *mangoes* yn Shilliang Myntang; a chan eu bod yn goed mawrion, ac yn dwyn llawer o ffrwyth, y maent yn cael eu hystyried yn werthfawr. Pwy bynag a symudai ei dŷ, cymerai y *Dolloi* feddiant o'r ardd a'r coed, ac ni feiddiai y bobl ei wrthwynebu. Yr oedd wedi cymeryd meddiant o un ardd er ys blynyddoedd, ac wedi cael ffrwythau y coed; ond ar ol myned adref o Jowai, galwodd ar berchenog yr ardd a dywedodd, "Yr ydym yn awr ar delerau da, ac yr wyf am roddi yr ardd a'r coed yn ol i chwi. Rhanwn y ffrwyth eleni, am fy mod wedi gofalu am yr ardd; a'r flwyddyn nesaf bydd yr oll yn eiddo i chwi." Yr oedd perchenog yr ardd yn hollol foddlawn i'r cytundeb, ac y mae y *Dolloi* a'r Cristionogion yn awr ar y telerau goreu. Dyma, yn sicr, beth rhyfedd. "O'r Arglwydd y mae hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni." Mae pethau wedi troi allan yn llawer gwell na phe buasem wedi gorchfygu yn y *Court*. Yr ydym oll yn ddiolchgar o'n calon i'r Arglwydd am ei gymhorth i ni a'i amddiffyn drosom.

"Mae yr achos yn Shangpoong yn myned ymlaen yn ddystaw a sefydlog. Derbyniasom bump i'r eglwys yr wythnos ddiweddaf, ac y mae amryw eraill yn cynnyg eu hunain. Heblaw y cyfarfodydd rheolaidd ar nosweithiau yr wythnos, sef nos Fercher a nos Sadwrn, mae genym oedfa bob nos Fawrth, a chyfarfod canu nos Wener. Prydnawn Gwener y mae genym hefyd gyfarfod i ddysgu y plant yn yr Holwyddoreg, a chan Mrs Evans gyfarfod er parotoi y merched i ddyfod at Swper yr Arglwydd a chael eu bedyddio. Ddydd Gwener nesaf bydd genym arholiad ar athrawon ysgolion y Dosbarth yn yr Epistol Cyntaf at Timotheus. Mae y goreu o'r athrawon mewn ateb cwestiynau ac adrodd yr Epistol i fod yn arholwr y flwyddyn nesaf.

---

## DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Netherfield Road, Liverpool | 21 | 14 | 3 |
| Chatham Street, ychwanegol | 15 | 12 | 1 |
| Newsham Park | 16 | 13 | 5 |
| A | 2 | 0 | 0 |
| Y Parch. W. Evans, M A, Pembroke Dock, tuag at gael gwely yn yr Ysbytty Cenadol, Cherra, i'w alw "Pembroke Dock Bed" | 2 | 0 | 0 |
| Casglwyd gan Miss Evans, Wellston House, tuag at gael gwely yn yr Ysbytty, i'w alw "Pembroke Bed" | 1 | 10 | 0 |
| Oddiwrth Robert Davies, Ysw., U H., Bodlondeb, ei danysgrifiad am 1890 | 1000 | 0 | 0 |
| Mr. John G. Jones, Pwllheli | 20 | 0 | 0 |
| Cymro | 1 | 0 | 0 |
| Willie Jones, Newgate, Rhydlewis, tuag at y gwaith yn Sylhet | 1 | 0 | 0 |
| Eto tuag at gofgolofn ar fedd y Parch. T. Jerman Jones | 0 | 5 | 0 |
| | 1 | 5 | 0 |
| Mr. Owen Jones, Brierly Hill, Ebbw Vale, tuag at y Genadaeth yn Khasia | 5 | 0 | 0 |
| Tuag at gofgolofn ar fedd y Parch. T. Jerman Jones:— | | | |
| Mrs. Edwards, Min Awel, Bala | 0 | 10 | 0 |
| Miss Williams, Criccieth, trwy law y Parch. G Ellis, M.A | 0 | 3 | 0 |
| The Misses Jones, eto, 1s. yr un | 0 | 4 | 0 |
| The Misses Roberts, eto, 1s. yr un | 0 | 3 | 0 |
| | 0 | 10 | 0 |
| Mrs. Lloyd, Arvon House, Machynlleth | 0 | 5 | 0 |
| "A" | 0 | 2 | 6 |
| Y Parch. J. Owen Thomas, M.A., Liverpool | 0 | 5 | 0 |
| Y Parch. David Williams, Liverpool | 0 | 5 | 0 |
| Y Parch. Josiah Thomas, M.A., Liverpool | 0 | 5 | 0 |
| J. & E. Thomas, 20, Tithebarn Street, Carnarvon | 0 | 10 | 6 |

*Hydref* 10*fed*, 1890.

---

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.